



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru

**Papur Gwybodaeth
(Diwygiedig)**

Helen Hodges a Dan Bristow
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Gorffennaf 2019

Ein Cenhadaeth

Sefydlwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2017. Ei chenhadaeth yw gwella'r broses o lunio polisiau a gwasanaethau cyhoeddus drwy helpu gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu tystiolaeth annibynnol gadarn ynghylch yr hyn sy'n gweithio.

Mae'r Ganolfan yn cydweithio ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi eraill er mwyn syntheseiddio a chrynhai tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynghlŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi, yn ogystal â chael gafael ar dystiolaeth ac arbenigedd o'r fath a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol, yn ogystal â chynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o'r fath; a
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r ffordd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisiau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaeth llunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i wella gallu ymchwilwyr i wneud gwaith ymchwil effeithiol sy'n berthnasol i bolisi.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk

Arianwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r Brifysgol yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am ymchwil allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	4
Negeseuon Allweddol	5
Y Cyd-destun Deddfwriaethol	10
Data Cymharol: Plant sy'n Derbyn Gofal	14
Cyfradd Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru	18
Esboniadau Posib am y Gyfradd Uwch yng Nghymru	24
Nodweddion y Boblogaeth	27
Polisi ac Ymarfer	42
Gallu i Fagu Plant	68
Adnoddau	78
Argymhellion ar gyfer Dadansoddiad Pellach	89
Cyfeiriadau	91
Atodiad 1	95
Atodiad 2	97

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2019. Gwnaed y newidiadau a ganlyn i'r fersiwn hon:

- Newidiwyd Tabl 3 i gywiro gwallau teipio
- Diwygiadau i'r adran ar y llysoedd teulu (t.53-60). Mae'r adran hon yn adlewyrchu'r data o'r offeryn PLATO wedi ei ddiweddarau a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin 2019, gan ddisodli'r offeryn gwreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yma yn adlewyrchu diweddariad i gynnwys data o 2017 ac mae hefyd yn cywiro'r data o 2010 i 2016.
- Darperir eglurhad pellach o grwpiau'r ceisiadau a'r gorchmynion ynghyd â'r gwahaniaeth rhwng 'achosion' ac 'achosion yn ôl plentyn' hefyd (t.54 ac Atodiad 1).
- Mae ychwanegu tabl arall wedi bwrw rhifau tablau un ymlaen yn rhan olaf yr adroddiad.

Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi data cyhoeddus o'r Cyfrifiad Derbyn Gofal a Phlant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth i weld pam fod cyfraddau uwch o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU.
- Mae gwaith blaenorol wedi canfod ffactorau sy'n gysylltiedig â nodweddion y boblogaeth; gwahaniaethau mewn polisi ac ymarfer; rôl y gallu i fagu plant ac adnoddau sy'n esbonio rhywfaint o'r amrywiad ar lefel lleol. Mae ein dadansoddiad yn defnyddio data cyfanredol sydd ar gael i'r cyhoedd i edrych ar y rhain.
- Mae cysylltiadau cryf (ond nid o reidrwydd yn achosol) ag amddifadedd gyda chyfraddau uwch o blant sy'n derbyn gofal mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn nodweddiadol yn ogystal â gwariant uwch y pen ar Wasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal. Gellir esbonio ychydig dros hanner yr amrywiad yng nghyfraddau awdurdodau lleol yn ôl graddau'r amddifadedd. Mae amddifadedd hefyd yn egluro 28% o'r amrywiad mewn gwariant y pen.
- Cydnabuwyd bod gwahaniaethau sylweddol o ran polisi ac ymarfer rhwng awdurdodau lleol. Mae angen dulliau ansoddol i ddadansoddi'r gwahaniaethau mewn blaenoriaethau, dulliau gweithredu a diwyllianau. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau amlwg yng nghyfansoddiad y cohort plant sy'n derbyn gofal a chymorth, gyda rhai awdurdodau â chyfrannau sylweddol uwch o blant sydd naill ai'n derbyn gofal neu ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cyfrif am tua 19% o'r amrywiad yng nghyfraddau awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal.
- Mae penderfyniadau'r llys teulu hefyd yn cael eu hystyried, ac mae'r dadansoddiad yn nodi bod ceisiadau am orchmynion gofal yn digwydd ar gyfradd uwch yng Nghymru na Lloegr, a bod y gyfradd drosi i orchmynion gofal o ganlyniad i'r ceisiadau hynny hefyd yn uwch.
- Mae bron i dri chwarter y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth, ac yn ystod y 15 mlynedd diwethaf mae'r nifer sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr sy'n berthnasau bron wedi dyblu. Fodd bynnag, wrth i nifer y plant sy'n derbyn gofal gynyddu, mae'r defnydd o asiantaethau maethu annibynnol a lleoliadau allan o'r sir wedi cynyddu.
- Mae gallu rhieni i gefnogi datblygiad eu plentyn yn briodol a'u cadw rhag niwed yn rhan allweddol o'r broses asesu, gyda'r 'trawd sbarduno' (y 'trawd gwenwynig' yn flaenorol) sef cam-drin domestig, rhieni'n camdefnyddio sylweddau a salwch meddwl rhieni, yn enwedig y gostyngiad yng ngallu rhieni i fagu plant. Amcangyfrifir y gellir priodoli tua 24% o'r amrywiad yng nghyfraddau awdurdodau lleol i'r triawd 'sbarduno'.

Negeseuon Allweddol

Yn 2018, roedd 6,405 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, bron 1,900 yn fwy na 2006. Yn y cyfnod hwnnw, mae mwy o blant sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o'r boblogaeth yn gyson yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU, ac mae'r bwlch hwnnw wedi ehangu.

Yng Nghymru, er bod y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol (ALLau) wedi gweld cynnydd yn nifer a chyfradd y plant sy'n derbyn gofal, mae amrywiad sylweddol; ac mae rhai wedi gweld cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn gostwng ers 2014. Gan ddefnyddio data cyhoeddus, mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr hyn y gallwn ei ddweud am y ffactorau sy'n gyrru'r tueddiadau hyn.

Nodweddion y boblogaeth leol

Mae nodweddion yr ardal leol a'i phoblogaeth yn chwarae rhan sylweddol; mae ein gwaith yn awgrymu'r canlynol:

- Mae cysylltiad rhwng lefelau amddifadedd a chyfradd y plant sy'n derbyn gofal. Rydym yn amcangyfrif bod ychydig dros 53% o'r amrywiad mewn cyfraddau ymysg ALLau yn gysylltiedig â'r lefelau amddifadedd gwahanol yn eu hardaloedd.
- Nid yw'n ymddangos bod newid yn y boblogaeth yn helpu i esbonio'r tueddiadau a welwyd. Yn genedlaethol, mae poblogaeth plant yng Nghymru wedi gostwng 0.2% ers 2014, tra bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 11.5%. Mae dosbarthiad y rhain yn anghyson ar draws Cymru, ond nid oes unrhyw gysylltiad gweladwy rhyngddynt yn dod i'r amlwg yn ein dadansoddiad.
- Mae tueddiadau yn nosbarthiad oed y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal yn dangos bod y rhai o dan 1 oed, 10-15 oed, a 16-17 oed, yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r twf yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, ond mae cyfradd y twf ymhlith pobl ifanc 16-17 oed, yn enwedig o 2010, yn drawiadol.

Ffactorau 'rhieni'

Mae ein dadansoddiad o'r data ynghylch gallu rhieni'r plant sy'n derbyn gofal yn ailadrodd canfyddiadau'r gwaith blaenorol ynglŷn ag arwyddocâd rhai 'ffactorau rhieni'. Rydym wedi cymharu'r plant sy'n derbyn gofal a chymorth gan ALI â'r boblogaeth plant sy'n derbyn gofal, ac wedi darganfod bod plant yng Nghymru yn fwy tebygol o dderbyn gofal pan fydd gan un neu ddau o'u rhieni y canlynol:

- Anabledau dysgu: mae plentyn dros ddwywaith yn fwy tebygol o dderbyn gofal, o'i gymharu â chael cymorth yng nghyd-destun y teulu.
- Problem camddefnyddio alcohol neu sylweddau: mae plentyn bron ddwywaith yn fwy tebygol o dderbyn gofal.

- Salwch meddwl: mae plentyn 44% yn fwy tebygol o dderbyn gofal.
- Yn dioddef cam-drin domestig: mae plentyn 29% yn fwy tebygol o dderbyn gofal.

Mae ymchwil blaenorol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y 'trawd sbarduno' o ffactorau rhieni - trais domestig, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl rhieni. Bydd plentyn yn fwy tebygol o dderbyn gofal os bydd un neu fwy o'r ffactorau hyn yn bresennol. Aethom ati i geisio archwilio i ba raddau y mae presenoldeb y ffactorau hyn yn cyfrannu at yr amrywiad a welwyd yng Nghymru. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu'r canlynol:

- Gellid priodoli tua 24% o'r amrywiad ymhlith Awdurdodau Lleol yng Nghymru i'r 'trawd sbarduno'¹; nid yw'n glir i ba raddau y gellir ei gysylltu â mynychder y materion hyn o fewn y boblogaeth leol a/neu'r ffordd mae'r awdurdodau lleol yn ymateb i'r angen hwn.
- Mae'r un dadansoddiad yn awgrymu mai iechyd meddwl rhieni a cham-drin domestig o'r 'trawd' yw'r ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at yr amrywiad ymhlith ALLau (mae salwch meddwl yn cyfrif am 25% o'r amrywiad a cham-drin domestig yn cyfrif am 21%).

Amrywiad mewn polisi ac ymarfer

Aethom ati i geisio gweld a yw amrywiad mewn ymarfer lleol yn cyfrannu at yr amrywiad yng nghyfraddau lleol y plant sy'n derbyn gofal, ac i ba raddau. Yn sgil hynny, daeth ychydig o negeseuon allweddol i'r amlwg:

- Mae amrywiad mewn ymarfer Awdurdodau Lleol, a phenderfyniadau'r farnwriaeth, yn cyfrannu at y gwahaniaeth a welwyd mewn cyfraddau plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru; ac at y gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr. Nid yw data sydd ar gael yn gyhoeddus yn caniatáu i ni ddadansoddi i ba raddau y mae'r gwahaniaethau hyn mewn polisi ac ymarfer lleol yn gyfrifol am yr amrywiad hwn.
- Ers 2010, mae'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi cyflwyno mwy o geisiadau am orchymnion gofal na'r ALLau yn Lloegr; ac mae mwy o orchymnion gofal yn deillio o'r rhain nag yn Lloegr. Nid yw'n glir pam fod hyn yn digwydd.
- Mae cysylltiad rhwng y gyfradd plant sy'n derbyn gofal mewn ALL, a chyfran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n cael cefnogaeth fwy dwys (h.y. sydd naill ai'n derbyn gofal neu ar y gofrestr amddiffyn plant). Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y gellir priodoli tua 19% o'r amrywiad yn y gyfradd plant sy'n derbyn gofal ar draws Cymru i'r gwahaniaeth mewn ymarfer; ac yn enwedig gwahaniaethau o ran dehongli trothwyon ar gyfer gwahanol lefelau o ofal a chymorth.

¹ Heb fesur cyhoeddus sy'n darparu cyfran y plant sy'n derbyn gofal (yn seiliedig ar y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth) ym mhob awdurdod lleol sy'n profi un neu fwy o'r 'trawd sbarduno', cafodd sgôr ei chreu drwy gyfansymio'r cyfrannau priodol ar 31 Mawrth 2018 o'r rhai sydd wedi profi salwch meddwl rhieni, rhieni'n camddefnyddio sylweddau a'r rhai a oedd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae'r sgôr hon allan o 300 wedi cael ei defnyddio fel mesur crai.

Rydym ni hefyd wedi dadansoddi tueddiadau o ran y **math o leoliad**, sy'n dangos bod y canlynol wedi digwydd wrth i nifer y plant sy'n derbyn gofal gynyddu:

- a) Cynnydd yn nifer y rhai sy'n cael eu rhoi mewn gofal maeth, er nad yw'r twf mewn lleoliadau maeth wedi cynyddu i'r un graddau â'r twf cyffredinol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal; o ganlyniad, mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth wedi gostwng ychydig ers 2014; ac
- b) Yn fwy arwyddocaol, cynnydd yn nifer a chyfran y plant sy'n cael eu rhoi gyda'u theluoedd eu hunain (naill ai rhieni neu aelodau eraill â chyfrifoldeb rhiant).

Mae hyn yng nghyd-destun gostyngiad o tua 10% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu mabwysiadu yn ystod yr un cyfnod.

Gwariant Awdurdodau Lleol

Edrychodd ein dadansoddiad ar y cysylltiad rhwng lefelau gwariant ALLau ar wasanaethau plant a theluoedd (sy'n cynnwys gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal) a nifer o ffactorau gwahanol:

- **Maint y boblogaeth**: mae gwaith ymchwil arall wedi awgrymu bod cyswllt rhwng gwariant a'r boblogaeth o bobl rhwng 0 - 25 oed mewn ardal. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gysylltiad
- **Incwm gwario aelwydydd**: awgrymwyd bod lefelau uwch o incwm gwario yn gysylltiedig â lefelau uwch o wariant ALI. Gwelsom dystiolaeth fod y gwrthwyneb yn wir – yng Nghymru mae'r gwariant fesul plentyn yn gostwng fel y mae incwm cyfartalog yr aelwyd yn cynyddu.
- **Lefelau diweithdra**: mae cyfraddau diweithdra uwch yn gysylltiedig â lefelau gwariant uwch
- **Lefelau trosedd**: mae lefelau trosedd uwch yn gysylltiedig â lefelau gwariant uwch.
- **Amddifadedd**: mae gwariant uwch yn gysylltiedig â lefelau amddifadedd uwch. Mae cysylltiad cryf rhwng gwariant ar wasanaethau plant a theluoedd a lefelau amddifadedd (sy'n cyfrif am 60% o'r amrywiad ar draws yr ALLau yng Nghymru). Hefyd, mae amddifadedd yn gysylltiedig (i raddau llai) â chyfran y gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal.

Cyflwyniad

Ers dechrau'r 1990au, mae *cyfanswm* y plant sy'n derbyn gofal² wedi cynyddu yng Nghymru a Lloegr, gyda *chyfraddau* plant sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o blant hefyd yn codi yn y ddwy wlad. Er bod hyn wedi digwydd ar yr un adeg â newidiadau i'r boblogaeth gyffredinol, mae'r Adolygiad o'r Argyfwng Gofal yn nodi, 'the national average rates of looked after children have been consistently higher in Wales than England' (Thomas, 2018). Mae data mwy diweddar yn awgrymu bod y bwlch hwn yn parhau i ehangu (Llywodraeth Cymru, 2018c; Yr Adran Addysg, 2018).

Yng Nghymru a Lloegr, mae amrywiad sylweddol rhwng cyfradd y plant sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o'r boblogaeth plant, gyda llawer o'r awdurdodau lleol yng Nghymru â chyfraddau uwch na'r rhai yn Lloegr. Mae llawer o resymau dros y duedd hon yn cael eu crybwyll - o weithwyr cymdeithasol yn osgoi risg yn wyneb achosion proffil uchel fel Peter Connelly (Baby P); i ymwybyddiaeth a disgwyliaeth cynyddol i weithredu ar faterion fel camfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol; i wasanaethau dan straen sy'n methu ymyrryd tan iddi fynd yn argyfwng; a gwahaniaethau yn y boblogaeth sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r 'bwlch' rhwng Cymru a Lloegr yn dyddio'n ôl i adeg cyn y cyfnod o gynt ac yn y blynyddoedd yn union cyn yr 'effaith Baby P' (BBC, 2008) roedd gostyngiad yn y nifer gyffredinol yn Lloegr tra bod y nifer yn dechrau codi yng Nghymru yn barod. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn awgrymu efallai bod ffactorau ar waith sy'n dangos bod gwahaniaeth yn yr arferion sy'n cael eu defnyddio.

Mae arbenigwyr yn anghytuno pa un a yw'r cyfraddau uchel o blant sy'n mynd i ofal yn brawf bod y system yn gweithio. Mae rhai'n dadlau bod mwy o blant sydd mewn perygl o niwed bellach yn cael eu diogelu, gyda'r rhai mewn gofal yn cael canlyniadau mwy cadarnhaol nag y byddent pe na baent wedi cael eu rhoi mewn gofal (Oakley et al., 2018). Ar y llaw arall, mae eraill yn dadlau bod cyfraddau uwch yn negyddol am fod canlyniadau addysgol ac iechyd plant sy'n derbyn gofal yn waeth ar gyfartaledd na'r rhai yn y boblogaeth gyffredinol. Hefyd, mae dadl foesol sy'n cydnabod pwysigrwydd cynnal cysylltiadau â theuluoedd biolegol. Felly, mae anghytuno pa un a oes maint delfrydol ar gyfer y boblogaeth mewn gofal, gydag ymchwil ddiweddar yng Nghymru yn awgrymu nad oes 'rhif hud' ar gyfer y gyfradd o blant sy'n derbyn gofal mewn ardal leol a fyddai'n penderfynu a yw'r niferoedd yn 'rhy uchel' neu'n 'rhy isel' (Cordis Bright, 2013 cited in Thomas, 2018). Awgrymir, yn hytrach, fel sydd wedi'i nodi yn yr Adolygiad o'r Argyfwng Gofal, y dylai polisi ac ymarfer gael eu gyrru gan yr angen parhaus i wneud penderfyniadau ynghylch gofal ar sail anghenion unigol a'r budd pennaf. Er gwaethaf yr hanfod moesol hwn, mae pryder cynyddol bod y niferoedd cynyddol sy'n derbyn gofal yn rhoi straen ar gyllidebau awdurdodau lleol sy'n dynn yn barod. Mae'r ddyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n derbyn gofal yn golygu bod

² Yn yr adroddiad hwn cyfeirir at 'blant sy'n derbyn gofal' ac at y fersiwn gryno 'LAC' (looked after children). Hwn yw'r term statudol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'i dalfyrru i Gyfrifiad LAC.

yn rhaid gwneud dewisiadau cyllidebol heriol nawr er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd (WLGA and ADSS Cymru, 2018).

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data cyfanredol i archwilio ffactorau sydd wedi cael eu hawgrymu mewn llenyddiaeth lwyd ac academiaidd ar gyfer y cyfraddau gwahanol, ac wrth wneud hynny mae'n ceisio cyfrannu at y drafodaeth ynghylch sut y gallem fynd ati'n ofalus i leihau'r niferoedd sy'n mynd i mewn i ofal yng Nghymru.³

Ac ystyried bod gwahaniaethau deddfwriaethol rhwng Cymru a gwledydd eraill y DU, mae gwybodaeth am y gwahaniaethau hyn wedi'i nodi yn rhan gyntaf yr adroddiad ynghyd â throsolwg o'r cysylltiad rhwng plant sy'n derbyn gofal, achosion amddiffyn plant a phlant eraill sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae'r adran hon hefyd yn nodi lle mae gwahaniaethau yn y prosesau casglu data ac i ba raddau mae'r data dilynol ar gael i'r cyhoedd.

Yna mae tueddiadau dros amser yn cael eu cyflwyno ar sail ciplun blynyddol o'r niferoedd sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth bob blwyddyn, gyda chymariaethau â gwledydd eraill y DU, yn ogystal â Chymru. Gan fod y fframwaith deddfwriaethol yr un fath â'r fframwaith yn Lloegr tan yn ddiweddar, darperir dadansoddiad sy'n ein galluogi i gymharu ar lefel awdurdod lleol a hefyd mewn perthynas â rhanbarthau Lloegr. Mae'r data hwn yn amlygu maint yr amrywiad, ac yn nodi pam mae wedi dod yn fater polisi.

Byddwn yn edrych ar yr esboniadau posib am y cyfraddau uwch yn ail ran yr adroddiad. Mae'r rhain yn cael eu rhannu yn grwpiau yn ôl thema ac yn cynnwys nodweddion y boblogaeth fel newid yn y boblogaeth ac amddifadedd; polisi ac ymarfer sy'n cynnwys data sy'n ymwneud â'r llysoedd teulu; a'r gallu i fagu plant. Mae'r adran hon yn defnyddio gwaith cynharach, ac yn ei ddiweddarau pan fo hynny'n bosib, fel y gwaith gan Cordis Bright (2013), Child Welfare Inequalities Project (Elliott and Scourfield, 2017) a'r dadansoddiad a wnaed drwy ddefnyddio data lefel unigol gan Elliott (2017) a edrychodd yn benodol ar y sefyllfa yng Nghymru. Mae wedi'i ategu gan ymchwil sy'n canolbwyntio ar geisio esbonio'r gwahaniaethau yng nghyfraddau plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr.

Mae'r rhan olaf yn ystyried y cysylltiadau rhwng gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal a ffactorau fel amddifadedd. Dyma bwnc sydd wedi'i ystyried mewn nifer o adroddiadau diweddar fel Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2019); y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (Kelly et al., 2018); y Gymdeithas Llywodraeth Leol (Lum and Tregidgo, 2018) a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2018). Wrth i bwysau cyni barhau i daro, mae costau rhianta corfforaethol yn parhau i fod yn fater polisi allweddol.

³ Mae natur ac argaeledd y data yn cyfyngu ar y dadansoddiad (bu'n rhaid defnyddio data cyhoeddedig, ond mae data manylach gan awdurdodau lleol). Edrychir ar oblygiadau hynny yn yr hyn sy'n dilyn.


Y Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae fframwaith deddfwriaethol y DU sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yn parhau i ddatblygu, ac mae gan bob un o'r pedair gwlad ei deddfwriaeth ei hun erbyn hyn. Felly, mae'r adran hon yn amlinellu'r sefyllfa yng Nghymru i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â datblygiadau mwy diweddar a'r derminoleg sy'n gysylltiedig â'r rhain.

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'n rhoi fframwaith cyfreithiol newydd, ac yn dod â chyfraith gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru at ei gilydd, ac yn ei moderneiddio. Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu, ac yn cyflwyno dyletswyddau newydd ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol mewn perthynas ag asesu a darparu gofal a chymorth. Cafodd adran 17 o Ddeddf Plant 1989, sy'n diffinio 'Plant mewn Angen' ei diddymu. O ganlyniad, nid yw'r Cyfrifiad Plant mewn Angen yn cael ei gynnal bellach (er ei fod yn parhau yn Lloegr lle mae Deddf 1989 yn dal yn berthnasol). Mae wedi'i ddisodli gan y Cyfrifiad 'Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth' ac mae ganddo ofynion newydd. Er enghraifft, ni chesglir data ar gyfer plant heb eu geni. Gan mai 2016-17 yw'r flwyddyn gyntaf o gasglu ac adrodd ar ddata sy'n deillio o'r Cyfrifiad CRCS, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid osgoi cymharu â'r blynyddoedd blaenorol mewn nifer o achosion.

Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae'n cyflwyno proses newydd ar gyfer asesu a chynllunio gofal, er bod y fframwaith ar gyfer asesu plant mewn angen yn dal i fod yn sail i unrhyw asesiad. Crynhoir y Fframwaith yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Fframwaith ar gyfer Asesu Plant a'u Teuluoedd



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015: 35)

O dan Ddeddf 2014, mae'r broses asesu yn aml yn dechrau pan fydd unigolyn yn cysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) – yr IAA yw'r 'drws ffrynt' ar gyfer cael gafael ar wasanaethau a ddarperir gan wasanaethau oedolion a phlant, a gall aelodau o'r cyhoedd, asiantaethau partner a sefydliadau eraill gysylltu â nhw yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gofal y plentyn yn yr achos hwn⁴. Os yw'r asesiad yn dod i'r casgliad bod anghenion y plentyn yn gymwys i gael gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol, bydd cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu a'i gytuno.

'Bydd plentyn yn gymwys i gael gwasanaeth os:

1. yw'r angen yn codi o amgylchiadau fel ei oed neu ei iechyd
2. ac mae'n ymwneud â'i ganlyniadau llesiant personol
3. ac nad oes modd ei ddiwallu gan ei rieni, teulu ehangach neu wasanaethau cymunedol
4. a'r unig ffordd y gellir ei ddiwallu yw os bydd ei awdurdod lleol yn trefnu neu'n darparu'r gwasanaeth neu'n gwneud taliadau uniongyrchol.

Cytunir ar Gynllun Gofal a Chymorth os bydd y plentyn yn gymwys i gael gwasanaeth'.

Adrannau 37-39 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015; Rhan 4 o'r Cod Canllawiau

O'r 48,069⁵ asesiad o'r anghenion a gynhaliwyd yn 2017-18, roedd un o bob pump (8,731⁶, 18%) wedi arwain at gynllun gofal a chymorth. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cynnydd o 20% yn nifer yr asesiadau a gynhaliwyd yn ystod 2016-17. Fodd bynnag, arweiniodd cyfran lai at gynllun gofal a chymorth (Llywodraeth Cymru, 2018d).⁷ Yn ogystal â pharatoi cynllun gofal a chymorth ar gyfer y plentyn dan sylw, mae'n rhaid i awdurdodau lleol adolygu eu cynlluniau er mwyn deall a yw'r ddarpariaeth o ofal a chymorth yn diwallu anghenion y plentyn ac er mwyn ystyried a yw ei anghenion wedi newid.

⁴ Oherwydd problemau technegol, nid oes modd cael darlun llawn o nifer y plant a theuluoedd sydd wedi cael cyngor neu gymorth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn ystod 2017-18, yn seiliedig ar y 21 awdurdod a ddarparodd ddata, rhoddwyd cyngor a/neu gymorth i 41,6354 o blant (neu deuluoedd) mewn perthynas â gofal a chymorth y plentyn ei hun neu ofal a chymorth ffrind/aelod o'r teulu/ rhywun maen nhw'n gofalu amdano/ eiriolwr ar gyfer Llywodraeth Cymru (2018d).

⁵ Roedd Caerffili yn gallu darparu data hyd at 13 Chwefror 2018 a Chasnewydd hyd at 6 Mawrth yn unig mewn perthynas â nifer yr asesiadau a gynhaliwyd. Nid oedd Bro Morgannwg yn gallu darparu data ar gyfer 2017-18.

⁶ Nid oedd Sir Ddinbych yn gallu darparu data ar gyfer 2016-17 na 2017-18, ac nid oedd Bro Morgannwg yn gallu darparu data yn ymwneud â nifer yr asesiadau sydd wedi arwain at gynllun gofal a chymorth ar gyfer 2017-18 oherwydd problemau TGCh.

⁷ Nid yw'n glir ar yr olwg gyntaf beth sy'n esbonio'r newid rhwng 2016-17 a 2017-18; ond mae'n debygol y bydd cyfran ohono yn sgil cyflwyno gofynion adrodd newydd. Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Os oes pryderon bod plentyn mewn perygl, gwneir ymholiadau a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gall hyn o bosib gynnwys nifer o wahanol asiantaethau gan gynnwys yr heddlu, iechyd neu addysg. Pan fo angen, gellir cymryd camau ar unwaith i wneud yn siŵr bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei amddiffyn a'i gadw'n ddiogel rhag niwed.

Mae dau is-grŵp o fewn y cohort CRCS:


- Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant - O dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989, mae dyletswydd ar awdurdod lleol i ymchwilio os yw'n ymddangos iddynt fod plentyn yn ei ardal yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol. Y trothwy ar gyfer ymchwiliad yw pan fydd gan yr awdurdod lleol 'achos rhesymol dros amau' niwed sylweddol, neu os yw'r plentyn yn destun gorchymyn amddiffyn brys, neu o dan amddiffyniad yr heddlu. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud ymholiadau pa un a oes angen cymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn. Yng Nghymru, y canllaw statudol sy'n dal yn berthnasol i bob asiantaeth sy'n ymateb i bryderon bod plentyn mewn perygl o niwed yw 'Gweithio gyda'n Gilydd' a gyhoeddwyd yn 2004. Fodd bynnag, mae wedi'i ategu gan ystod o ganllawiau anstatudol, sef Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Plant sy'n derbyn gofal – Adrannau 20-30 Deddf Plant 1989 sy'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal yn Lloegr. O fis Ebrill 2016, nid oedd y rhan hon o'r Ddeddf Plant bellach yn berthnasol yng Nghymru, a chafodd adrannau 20-30 eu disodli gan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Gall plant dderbyn gofal naill ai drwy gytundeb o dan adran 76 (adran 20 o Ddeddf 1989 yn flaenorol) neu o dan orchymyn llys.

Byddwn yn canolbwyntio ar y grŵp olaf hwn o blant sy'n derbyn gofal yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, gan ystyried y cysylltiadau rhwng y ddau is-grŵp, cyfeirir at yr hyn y gellid ei ystyried yn 'gohort diogelu' ehangach sy'n cynnwys y rhai sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Mae Ffigur 2 yn crynhoi'r cysylltiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a chymorth, y rhai ar y gofrestr amddiffyn plant, a phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. I geisio dangos y cyfrannau priodol o blant sy'n derbyn gofal a chymorth, nodir y sefyllfa fel y mae ar 31 Mawrth 2018 (Stats Cymru, 2019d). Mae wedi'i ategu gan ddata sy'n ymwneud â statws cyfreithiol y plant sy'n derbyn gofal o'r Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2018b) sy'n defnyddio'r un dyddiad ar gyfer ei giplun⁸, er ei fod yn defnyddio meini prawf cynhwysiant sydd ychydig yn wahanol.

(Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016 ac fe arweiniodd hynny at newid y ffordd mae anghenion pobl yn cael eu hasesu. Datblygwyd gofynion adrodd newydd i adlewyrchu hyn.

⁸ Dim ond y rhai â chynllun gofal a chymorth ar waith ar neu cyn 1 Ionawr ac sy'n parhau i fod ar waith ar 31 Mawrth sy'n cael eu cynnwys yn y Cyfrifiad CRCS, ond nid yw'r Cyfrifiad LAC yn nodi hynny. Fel arfer, nid yw'r rhifau sy'n deillio o'r Cyfrifiad LAC yn wahanol iawn i'r rhai sy'n deillio o'r Cyfrifiad CRCS. Yr eithriad yw'r gyfradd ar gyfer Bro Morgannwg pan welwyd gwahaniaeth a oedd yn cyfateb i 125 o blant ar 31 Mawrth 2018. Y flwyddyn flaenorol, roedd y gwahaniaeth yn cyfateb i 90 o blant.

Ffigur 2: Y Cysylltiad Rhwng Plant sy'n Derbyng Gofal a Chymorth, y Gofrestr Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyng Gofal (31 Mawrth 2018)



Sylwer: Mae'r prif niferoedd o blant sy'n derbyn gofal a adroddir yma yn wahanol i'r niferoedd yn Nhabl 4 am fod yr wybodaeth yn dod o ffynonellau gwahanol (Cyfrifiad CRCS a'r Cyfrifiad LAC).

Data Cymharol: Plant sy'n Derbyn Gofal

Wrth geisio cymharu'r sefyllfa yng Nghymru â gweddill y DU o ran cyfradd y plant sy'n derbyn gofal, mae'n bwysig nodi bod cymariaethau uniongyrchol rhwng y pedair gwlad yn cael eu cyfyngu oherwydd diffyg set ddata gyffredin⁹. Daw hyn o'r canlynol:

- Gwahaniaethau deddfwriaethol a allai olygu bod rhai plant yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n 'derbyn gofal' mewn un wlad ond ddim yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n derbyn gofal yng ngwledydd eraill y DU
- Gwahaniaethau yn yr eitemau data sy'n cael eu casglu (Tabl 1) a'u cyhoeddi gan y gweinyddiaethau gwahanol.

Lloegr yw'r unig wlad i gyhoeddi ystadegau ar yr holl blant sy'n derbyn gofal ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae pob un o'r pedair gwlad yn rhoi ciplun o'r plant sy'n derbyn gofal, ac maen nhw i gyd yn gwneud hynny ar yr un adeg (31 Mawrth) ac eithrio'r Alban (31 Gorffennaf).

Tabl 1: Cymharu'r Data sy'n cael ei Gasglu a'i Gyhoeddi ar draws y DU

	Cymru	Lloegr	Yr Alban (31 Gorffennaf)	Gogledd Iwerddo n
Oed	✓	✓	✓	✓
Rhyw	✓	✓	✓	✓
Ethnigrwydd	✓	✓	✓	✓
Statws anabledd			✓	✓
Crefydd				✓
Ceisiwr Lloches ar ei ben ei hun		✓		
Statws mamolaeth		✓		
Statws cyfreithiol	✓	✓	✓	✓
Categori angen		✓		
Math o leoliad	✓			✓
Math o leoliad maeth	✓	✓	✓	
Darparwr lleoliad	Maethu yn Unig	✓	✓	
Nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn	✓	✓	✓	
Pellter rhwng y cartref a'r lleoliad		✓		
Rheswm dros newid y lleoliad		✓		

⁹ Mae adroddiad gan Lywodraeth yr Alban yn cynnwys rhagor o fanylion:

<https://www2.gov.scot/Topics/Statistics/Browse/Children/sourcesandsuitability/SourcesAndSuitabilityCLAS/LACComparabilityUK>

	Cymru	Lloegr	Yr Alban (31 Gorffennaf)	Gogledd Iwerddo n
Dechrau, yn ôl categori angen	✓	✓		
Dechrau, yn ôl grŵp oedran a rhyw		✓	✓	✓
Dechrau, yn ôl ethnigrwydd		✓	✓	
Dechrau, yn ôl statws anabledd			✓	
Dechrau, yn ôl statws cyfreithiol		✓		✓
Dechrau, yn ôl lleoliad		✓		✓
Cyfnod mewn gofal		✓	✓	✓
Rhoi'r gorau i dderbyn gofal, yn ôl grŵp oedran a rhyw		✓	✓	✓
Rhoi'r gorau i dderbyn gofal, yn ôl ethnigrwydd		✓	✓	
Rhoi'r gorau i dderbyn gofal, yn ôl statws anabledd			✓	
Rhoi'r gorau i dderbyn gofal, yn ôl statws cyfreithiol		✓		
Rhoi'r gorau i dderbyn gofal, yn ôl lleoliad		✓		
Rhesymau dros adael gofal/ Cyfnodau'n dod i ben		✓		
Cyrchfan ar ôl gadael gofal	✓		✓	
Mabwysiadu LAC		✓		
Gwarchodaeth Arbennig		✓		
Pan Fydda i'n Barod / Staying Put / Going the Extra Mile	✓	✓		✓

Nodiadau: Fel arfer, mae deunydd ategol ar gael ar lefel awdurdod lleol / rhanbarth ar ffurf tabl. O fis Ebrill 2016, mae hawl gan bobl ifanc yng Nghymru i aros gyda'u teuluoedd maeth y tu hwnt i 18 oed, a'r enw ar y cynllun hwnnw yw Pan Fydda i'n Barod. Daeth y newid hwn i'r gyfraith i rym gyda'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a dyma ganlyniad ymgyrch ar y cyd rhwng Y Rhwydwaith Maethu a Gweithredu dros Blant. Staying Put a Going the Extra Mile yw'r cynlluniau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban yn y drefn honno. Nid yw'r bobl ifanc yn derbyn gofal mwyach.

Mae plant sy'n derbyn gofal dan seibiant byr yn unig, sydd fel arfer yn byw gartref ond sy'n cael llety gan awdurdod lleol mewn cyfres o gyfnodau gofal byr, yn cael eu heithrio o'r ffigurau a gyflwynir yma. Maen nhw'n cynrychioli grŵp arbennig sy'n cael ei gynnwys o fewn y ddeddfwriaeth, a dim ond y plant y darperir seibiant byr ar eu cyfer o dan Ran 6, adran 76 o Ddeddf 2014 sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal. Er mwyn dechrau derbyn gofal, mae'n rhaid darparu'r llety am gyfnod di-dor o fwy na 24 awr. Ar 31 Mawrth 2018 roedd 235 o blant sy'n derbyn gofal o dan drefniadau seibiant, ac roedd anabledd gan 70% (165) ohonynt. Fodd bynnag, gellir darparu seibiant i'r rhai lle mae'r teulu dan bwysau difrifol hefyd (15%, 35 o blant); o ganlyniad i salwch neu anabledd rhieni (4%, 10 o blant) neu am resymau eraill (13%, 30 o blant). Adeg y Cyfrifiad LAC, roedd y rhain wedi'u rhannu'n fras rhwng darpariaeth gofal maeth (45%) a chartrefi awdurdodau lleol (40%), gyda 15% arall mewn lleoliadau eraill.

Yn achos Cymru, mae data am blant sy'n derbyn gofal wedi cael ei gasglu drwy'r Cyfrifiad LAC ers i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2016. Cyn hyn, roedd data yn cael ei gasglu fel rhan o'r ddychweleb SSD903

gyda'r casgliad yn glynu'n agos at y diffiniad o blant sy'n derbyn gofal yn y Ddeddf Plant 1989 yng Nghymru a Lloegr. Dychweleb ar lefel yr unigolyn yw hon. Fodd bynnag, mae data yn cael ei gyhoeddi ar lefel gronns.

Mae ffigurau'r plant sy'n derbyn gofal o'r Cyfrifiad CRCS (sydd wedi disodli'r Cyfrifiad Plant mewn Angen yng Nghymru) fwy neu lai'n gyson â'r rhai o'r Cyfrifiad LAC, gyda'r ardaloedd â chyfraddau uwch o blant sy'n derbyn gofal a chymorth fel arfer â chyfraddau uwch o blant sy'n derbyn gofal am bob 10,000. Gan fod y rhain yn rhoi ciplun o'r data ar 31 Mawrth, mae'n bosib defnyddio gwybodaeth o'r ddau gasgliad data ar gyfer 2017 a 2018.

Tabl 2: Cymharu'r Casgliadau Data Allweddol yng Nghymru

	Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal (2003-2018)	Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (2017-2018)	Cyfrifiad Plant mewn Angen (2003-2016)
Cyfradd am bob 10,000	✓	✓	✓
Oed	✓	✓	✓
Rhyw	✓	✓	✓
Ethnigrwydd	✓	✓	✓
Anabledd		✓	✓
Statws cyfreithiol	✓		
Math o leoliad	✓		
Math o leoliad maeth	✓		
Nifer y lleoliadau	✓		
Statws plentyn (LAC / Amddiffyn Plant / Arall)		✓	✓
Data Iechyd y Plentyn a Chanlyniadau Eraill		✓	✓
Categori angen	Dechrau yn ystod y flwyddyn yn unig	✓	✓
Ffactorau rhieni		✓	Ffactorau atgyfeirio
Ffynhonnell atgyfeirio ddiweddraf			✓
Rhesymau dros orffen	Cyfnodau'n dod i ben yn ystod y flwyddyn		

Er mai'r ffynhonnell 'ddiofyn' yw defnyddio'r data o'r Cyfrifiad LAC, yn enwedig wrth ystyried tueddiadau, mae cynnwys mesur statws y plentyn yn golygu ein bod yn gallu ystyried faint o'r rhai o'r Cyfrifiad CRCS sy'n derbyn gofal. Er bod gwahaniaethau oherwydd y meini prawf cynhwysiant (gweler y troednodyn ar dudalen 14), mae'r ffaith eu bod nhw fwy neu lai'n gyson yn golygu bod gwybodaeth ddangosol ar gael hefyd ynghylch y cohort plant sy'n derbyn gofal o ran anabledd, iechyd meddwl y plentyn a'r prif gategori angen sydd wedi'i

gofnodi ar ddechrau ei gyfnod cyfredol. Yn benodol, mae'r Cyfrifiad CRCS yn darparu gwybodaeth am salwch meddwl rhieni; salwch corfforol; anabledau dysgu; camddefnyddio sylweddau a pa un a fu problemau cam-drin domestig sydd wedi cael eu defnyddio yn ail ran yr adroddiad hwn i geisio deall cyfraniad y rhain at esbonio'r gwahaniaeth yng nghyfraddau'r awdurdodau lleol yng Nghymru.


Fel y nodwyd eisoes, y brif anfantais i ddefnyddio data'r Cyfrifiad CRCS yw ei fod wedi'i gasglu am y tro cyntaf yn 2016-17. Felly, dim ond dau ddatganiad sydd ar gael i'w dadansoddi ac mae hynny'n cyfyngu'r graddau y gellir monitro tueddiadau. Er bod y Cyfrifiad Plant mewn Angen wedi casglu gwybodaeth gymharol gyda'r un ciplun, y cyngor gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw i beidio â defnyddio hwn i wneud cymariaethau dros amser. O ganlyniad, nid yw wedi bod yn bosib, er enghraifft, canfod o ffynhonnell gyson a fu cynnydd ym mhresenoldeb pob un o'r ffactorau rhieni yn y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn edrych yn fanylach ar hyn yn yr adran Gallu i Fagu Plant.

Cyfradd Plant sy'n Derbyng Gofal yng Nghymru

Gan ddefnyddio data o'r Cyfrifiad LAC a'i ragflaenydd, y ddychweleb SSDA903, mae'n bosib edrych ar dueddiadau dros amser. Mae'r adran hon yn crynhoi'r sefyllfa yng Nghymru o'i chymharu â manau eraill, ac yn cyflwyno cyd-destun ar gyfer gweddill yr adroddiad. Mae'r data'n dangos bod cyfraddau uwch yn gyson o blant mewn gofal yng Nghymru, o'i gymharu â Lloegr yn benodol, ac mae'r awdurdodau unigol yng Nghymru yn tueddu i gael cyfraddau uwch o blant sy'n derbyn gofal na'r awdurdodau yn Lloegr.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd 6,407 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, 464 (8%) yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd o 102 am bob 10,000 o'r boblogaeth sydd o dan 18 oed.

Ffigur 3: Nifer a Chyfradd y Plant sy'n Derbyng Gofal yng Nghymru




Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyng Gofal, Stats Cymru (2018d) a Stats Cymru (2018f). Sylwer: Mae'r data ar Stats Cymru wedi'i dalgrynu i'r 5 agosaf ac mae rheolau ataliad yn berthnasol iddo. Mae (r) yn dangos lle mae data wedi'i addasu ers iddo gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Er bod rhywfaint o wahaniaeth o ran y diffiniad o 'blant sy'n derbyn gofal' ar draws y gwledydd yn y DU sy'n golygu ei bod hi'n anodd mynd ati i gymharu, mae Llywodraeth yr Alban (2018a) wedi cyhoeddi data cymharol yn gysylltiedig â'r graddau ar draws y pedair gwlad sy'n awgrymu bod y gyfradd yng Nghymru yn 2016-17 (95 am bob 10,000) yn uwch

na Gogledd Iwerddon (69 am bob 10,000) a Lloegr (62 am bob 10,000); y gyfradd gyfatebol yn yr Alban oedd 108 am bob 10,000.¹⁰

Nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer pob un o'r pedair gwlad ar gyfer 31 Mawrth 2018. Fodd bynnag, mae Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon oll wedi gweld cynnydd, ac mae'r bwllch wedi ehangu. Mae Ffigur 4 yn dangos cynnydd yng nghyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhwng 2013 a 2017, ond mae'r gyfradd wedi aros yn eithaf sefydlog yn yr Alban.

Ffigur 4: Cymharu Cyfraddau Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Gwlad



Ffynhonnell: Llywodraeth yr Alban (2018b) wedi'i ategu gan ddata ar gyfer 31 Mawrth 2018 gan Stats Cymru (2018f), Yr Adran Addysg (2018) a'r Yr Adran Iechyd (2018). Nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer yr Alban ar hyn o bryd.

Mae'r cynnydd yng nghyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru o'i gymharu â 31 Mawrth 2017 yn golygu bod 7 o blant ychwanegol i bob 10,000 o blant sy'n derbyn gofal erbyn hyn; dim ond 2 blentyn ychwanegol i bob 10,000 sydd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. O ran maint y cohort, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi codi 4%. Pe bai Cymru ond wedi gweld twf

¹⁰ Yn yr Alban, mae'n rhaid cael gorchymyn goruchwyllo gan y panel plant ar gyfer plant sy'n cael eu lleoli gartref; ond yng Nghymru a Lloegr, sefyllfa anffurfiol yw cael gofal gartref a gyflwynir gan weithwyr cymdeithasol, yn aml fel mesur dros dro hyd nes y gellir dod o hyd i leoliad gofal maeth neu ofal gan berthynas. Mae adroddiad Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno ffigurau sy'n cynnwys ac yn eithrio plant sy'n derbyn gofal gartref. Er mwyn ei gwneud hi'n haws cymharu, mae ffigur yr Alban wedi'i gyfrifo ar 31 Mawrth yn hytrach na 31 Gorffennaf. Yn 2017, y gyfradd yn yr Alban ar gyfer LAC yn y cartref oedd 37 am bob 10,000, a'r LAC oddi cartref oedd 108 am bob 10,000. Y gyfradd gyffredinol oedd 145 am bob 10,000.

o 4% ym maint y cohort plant sy'n derbyn gofal, byddai 210 yn llai o blant - 6,195 yn hytrach na'r 6,405 sydd wedi'i gofnodi, sy'n cyfateb i gyfradd o 99 am bob 10,000 yn hytrach na 102.

Os cymerir y tueddiadau hirdymor yng Nghymru a Lloegr lle'r oedd y fframwaith cyfreithiol yr un fath tan yn ddiweddar, fe welwn fod cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn tyfu yn gyflymach yng Nghymru nag yn Lloegr ac felly mae'r bwlch yn cynyddu. Mae'r gyfradd yng Nghymru hefyd yn cymharu'n anffafriol â'r gyfradd ar gyfer pob un o Ranbarthau Lloegr (Tabl 3).


Tabl 3: Cymharu Cyfraddau'r Plant sy'n Derbyn Gofal am bob 10,000, yn ôl Rhanbarth ar draws Cymru a Lloegr

	2014	2015	2016	2017	2018	Newid Net
Cymru	91	89	90	95	102	11
Gogledd-ddwyrain	81	81	84	92	95	14
Gogledd-orllewin	81	82	82	86	91	10
Gorllewin Canolbarth Lloegr	73	74	73	75	78	5
Swydd Efrog a'r Humber	65	64	63	67	71	6
Cyfartaledd Lloegr	60	60	60	62	64	4
Dwyrain Canolbarth	51	53	53	55	57	6
De-orllewin	51	52	53	53	55	4
De-ddwyrain	47	49	51	51	51	4
Dwyrain Lloegr	50	48	49	49	49	-1
Llundain	54	52	51	50	49	-5

Ffynhonnell: Tablau Ychwanegol, Plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr, y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 (Yr Adran Addysg, 2018) a Stats Cymru (2018f). Sylwer: Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi'i nodi yn Nhabl 5.

Mae amrywiad sylweddol ar lefel awdurdod lleol o fewn pob un o'r gwledydd hefyd, gyda'r gyfradd yng Nghymru yn amrywio o 50 am bob 10,000 yng Ngheredigion i 191 am bob 10,000 yn Nhorfaen ar 31 Mawrth 2018 (Ffigur 5). Mae graddau'r anghysondeb yn cael ei ddatgelu wrth gymharu cyfraddau'r awdurdodau lleol â'r rhai yn Lloegr (Ffigur 6).


Ffigur 5: Cyfraddau Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Awdurdod Lleol yng



Nghymru, 2018

Fynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, Stats Cymru (2018f)

Ffigur 6: Cyfraddau Awdurdodau Lleol o Blant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru a Lloegr, 2018




Ffynhonnell: Cymru – Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, data cryno gan Stats Cymru (2018f). Lloegr – SSD903, cyhoeddwyd tablau lefel awdurdod lleol ochr yn ochr â'r datganiad ystadegol, Yr Adran Addysg (2018).

Fel y nodwyd yn Ffigur 4, mae'r gyfradd yng Nghymru wedi bod yn sylweddol uwch na'r gyfradd yn Lloegr ers 2004. Fodd bynnag, mae Ffigur 5 yn dangos bod y cyfartaledd hwn yn celu'r amrywiad sydd yng Nghymru.

Rhwng 2014 a 2018, cynyddodd cyfradd y plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru o 91 am bob 10,000 i 102 am bob 10,000 - sy'n cyfateb i 11 o blant ychwanegol am bob 10,000 sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweld eu cyfraddau'n gostwng, tra bod eraill wedi gweld cynnydd. Mae Ffigur 7 yn dangos bod y ddau awdurdod lleol sydd â chyfraddau arbennig o uchel ar 31 Mawrth 2018 ymhlith y rhai sydd hefyd wedi gweld y newid net mwyaf yn y gyfradd dros y 5 mlynedd. Yn benodol, mae Blaenau Gwent (cynnydd o 102 i 172 am bob 10,000, sy'n cyfateb i 70 o blant ychwanegol sy'n derbyn gofal am bob 10,000), Torfaen (o 152 i 191, +38) ac Ynys Môn (o 57 i 107, +51) wedi gweld newidiadau net mwy na chyfartaledd Cymru ac, yn enwedig yn achos Blaenau Gwent a Thorfaen, cyfraddau sylweddol uwch yn 2018. Pe na bai'r tri awdurdod lleol hyn wedi gweld cynnydd yng nghyfradd y plant sy'n derbyn gofal dros y 5 mlynedd (h.y. cyfradd wedi aros yr un fath a'r un yn 2014) byddai'r effaith gyfunol wedi arwain at gyfartaledd o 97 am bob 10,000 yn hytrach na 102 yng Nghymru yn 2018.

Ffigur 7: Newidiadau Net yng Nghyfradd y Plant sy'n Derbyn Gofal, Tuedd 5 Mlynedd (2014 o'i gymharu â 2018)



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, Stats Cymru (2018f)

Mewn cyferbyniad, mae Castell-nedd Port Talbot wedi gweld y gostyngiad net mwyaf - o 168 am bob 10,000 i 118, sy'n cyfateb i 50 yn llai o blant yn derbyn gofal am bob 10,000. Er bod y gyfradd yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru, os ydym am ddeall mwy am y gwahaniaethau cenedlaethol, yna gall cael darlun gwell o'r rhesymau pam ac yn benodol beth sydd wedi arwain at y gostyngiad hwn wella ein dealltwriaeth o'r rheswm pam fod yna amrywiadau cenedlaethol ac isranbarthol.

Esboniadau Posib am y Gyfradd Uwch yng Nghymru

Er nad yw Cymru yn unigryw yn y DU o ran y twf digyffelyb yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, mae'r tueddiadau a gynhwyd yn yr adran flaenorol yn dangos i ba raddau mae'r gyfradd gyffredinol o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn wahanol i Loegr a Gogledd Iwerddon, gyda phatrwm tebyg i'w weld ar lefel awdurdodau lleol unigol. Mae tri darn allweddol o waith wedi ceisio esbonio'r amrywiad yn y cyfraddau yng Nghymru:

- Research on Differences in the Looked After Children Population (Cordis Bright, 2013);
- The Child Welfare Inequalities Project (Bywaters et al., 2014) sydd wedi paratoi adroddiad penodol ar Gymru (Elliott and Scourfield, 2017), a
- "Looked After" Children in Wales: An Analysis of the Backgrounds of Children Entering Public Care (Elliott, 2017) - yr unig enghraifft i ddefnyddio data lefel y plentyn yng Nghymru.

Ar ben hynny, mae nifer o adroddiadau wedi ymchwilio i'r gwahaniaethau rhwng yr awdurdodau lleol yn Lloegr a all lywio syniadau yng Nghymru.

Mae'r dadansoddiad meintiol a gynhaliwyd gan Cordis Bright (2013) wedi arwain at honni bod tri ffactor allweddol yn helpu i esbonio rhai o'r gwahaniaethau mewn cyfraddau plant sy'n derbyn gofal rhwng awdurdodau lleol, sef:

- Maint y boblogaeth
- Amddifadedd
- Aelwydydd rhiant unigol

Fodd bynnag, darganfuwyd nad yw'r ffactorau canlynol yn esbonio'r gwahaniaethau:

- Proffil oedran y boblogaeth leol
- Maint aelwydydd ar gyfartaledd
- Dwysedd poblogaeth
- Cyfran o'r boblogaeth leol sy'n dod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- Lefelau gorlenwi tai


Mae'r adroddiad yn defnyddio data cyfanredol yn hytrach na gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag amgylchiadau unigol y rhai sydd yn y cohort plant sy'n derbyn gofal (h.y. ydyn nhw'n dod o aelwyd rhiant unigol neu gartref yr ystyrir ei fod yn orlawn, neu o grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig). Yn anffodus, mae argaeledd data lefel unigol yn cyfyngu ar y graddau y gellir ymchwilio i'r materion hyn. Un o'r prif gyfyngiadau wrth ddefnyddio data cyhoeddus yw y gall nifer fawr o reolau ataliad a thalgrynnu fod yn berthnasol iddo. Mae

hyn yn wir â'r data ethnigrwydd. O ganlyniad, nid yw'n bosib cael darlun cywir o ddsbarthiad y 505 aelod o'r cohort sydd wedi'u nodi fel rhai nad ydynt yn wyn ar draws y 22 awdurdod lleol.

Aeth y Child Welfare Inequalities Project ati i geisio canfod y cysylltiad rhwng cyfraddau ymyrraeth lles plant ac ystod o ffactorau, yn enwedig lefelau amddifadedd a pholisi/ymarfer. Felly, mae'n ystyried achosion plant sy'n derbyn gofal ac achosion amddiffyn plant, ac yn cymharu'r sefyllfa ym mhob un o bedair gwlad y DU.

Roedd y dadansoddiad a wnaed wrth gynhyrchu adroddiad Cymru (Elliott and Scourfield, 2017) yn defnyddio data lefel unigol o'r ddychweleb SSSA903 ar gyfer cyfrifiad dyddiedig 31 Mawrth 2015 a chofrestriadau amddiffyn plant. Felly, roedd hi'n bosib ystyried dosbarthiad y plant hyn yn ôl deigradd amddifadedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC 2014). Mae wedi canfod bod graddiant cymdeithasol clir lle mae plant yn y 10% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig 16 gwaith yn fwy tebygol o fod yn destun ymyriadau lles plant na'r rhai yn y 10% lleiaf difreintiedig. Gan ddefnyddio mesur amddifadiad lluosog ar gyfer y DU gyfan¹¹, gwelwyd bod y graddiant cymdeithasol yn fwy serth yng Nghymru na'r gwledydd eraill. Yng Ngogledd Iwerddon mae'r graddiant cymdeithasol yn lleiaf serth, gyda chyfraddau llawer is o blant sy'n derbyn gofal er eu bod yn fwy difreintiedig (Child Welfare Inequalities Project, 2017).

Figur 8: Deall Anghydraddoldebau mewn Cyfraddau: Ffactorau Galw a Chyflenwad

Ffactorau Galw	Rhyngweithio â	Ffactorau Cyflenwad
<p>Ffactorau strwythurol cyfrannol sy'n gysylltiedig â lefelau angen, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amgylchiadau economaidd-gymdeithasol teuluoedd • Cryfderau'r gymuned • Amodau'r gymdogaeth • Ffactorau demograffig gan gynnwys ethnigrwydd 		<p>Ffactorau strwythurol cyfrannol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fframweithiau cyfreithiol cenedlaethol, polisïau, strwythurau, diwylliannau • Polisïau lleol, blaenoriaethau, arferion a diwylliannau • Lefel a dosbarthiad gwariant ac adnoddau
<p>Cynhyrchu amrywiadau mewn cyfraddau LAC a CPR</p>		

Wedi'i addasu o'r Child Welfare Inequalities Project (2017)

¹¹ Mae gan bob un o bedair gwlad y DU eu mynegeion eu hunain ar gyfer mesur amddifadedd lluosog mewn ardaloedd â phoblogaeth isel - nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol oherwydd amrywiadau yn y dimensiynau, y dangosyddion, y pwysoliadau a'r sgoriau a ddefnyddir. Lluniwyd mynegai amddifadedd lluosog y DU ar gyfer y prosiect gan ddefnyddio'r fethodoleg a amlinellwyd gan Payne RA ac Abel GA. (2012).

Mae 'galw' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at benderfynyddion cymdeithasol o ran anawsterau yn ystod plentyndod. Yn yr un modd ag anghydraddoldebau iechyd, mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol teuluoedd, ansawdd yr amgylchedd a'r cymunedau mae plant yn cael eu magu ynddynt, a chysylltiadau â chymysgedd demograffig y boblogaeth oll yn ffactorau sy'n cyfrannu. Mae'r amodau sylfaenol ar gyfer magu plant (er enghraifft, arian ar gyfer hanfodion, tai digonol, cymorth cymdeithasol), wedi'u cydblethu â ffactorau eraill fel lefelau trais domestig, defnyddio sylweddau ac iechyd corfforol a meddyliol rhieni, yn dylanwadu ar gyfran y plant a allai ddod i sylw gwasanaethau plant mewn unrhyw ardal.

Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod gwahaniaethau sylweddol o ran yr ymatebion i anghenion o'r fath o ganlyniad i ystod o ffactorau sy'n effeithio ar y cyflenwad o wasanaethau. Mae'r ffactorau cyflenwad cyfrannol yn cynnwys polisïau cenedlaethol, fframweithiau cyfreithiol, a phrif agweddau, blaenoriaethau lleol, arweinyddiaeth, profiad, sgiliau a sefydlogrwydd y gweithlu, diwylliannau proffesiynol a gwleidyddol lleol, a graddfa a dosbarthiad yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau plant a gwasanaethau cysylltiedig. Mae'r graddau y gellir archwilio i lawer o'r materion 'cyflenwad' neilltuol hyn drwy ddadansoddi data meintiol yn gyfyngedig, er bod rhan olaf yr adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r cysylltiad rhwng gwariant a'r ffactorau yr awgrymwyd eu bod yn esbonio'r amrywiad yng ngwariant awdurdodau lleol.

Felly, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y materion sy'n ymwneud â galw y gellir eu harchwilio drwy ddefnyddio data sydd ar gael yn gyhoeddus, â'r nod o dynnu sylw at y gwahaniaethau er mwyn ysgogi trafodaeth. Mae wedi'i rannu'n dair thema:

1. **Nodweddion y boblogaeth** fel newid yn y boblogaeth, y cysylltiad rhwng amddifadedd a chyfradd plant sy'n derbyn gofal, ac amrywiadau yn strwythur y boblogaeth leol;
2. **Polisi ac Ymarfer.** Defnyddio data o'r Cyfrifiad CRCS i ystyried a oes gwahaniaethau yn y 'trothwy' ar gyfer rhoi rhywun mewn gofal yn hytrach na derbyn gofal a chymorth yn eu cartrefi eu hunain. Hefyd, darperir dadansoddiad yn ymwneud â statws cyfreithiol y plentyn - defnyddir data o Offeryn PLATO y Weinyddiaeth Gyfiawnder i archwilio a allai fod amrywiad o ganlyniad i benderfyniadau'r Llys Teulu o ran ceisiadau am orchmynion gofal a'r cyfraddau sy'n deillio o'r ceisiadau hynny.
3. Mae'r **Gallu i Fagu Plant** yn ystyried rôl ffactorau a all amharu ar allu rhiant neu ofalwr i ymateb yn briodol i anghenion plentyn a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae'n cynnwys canolbwyntio'n benodol ar yr hyn sy'n cael ei alw'r 'Triawd Sbarduno' (y 'triawd gwenwynig' yn flaenorol), sef rhieni'n camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl rhieni a cham-drin domestig.

Cyfeirir at faterion sy'n ymwneud â chyflenwad yn yr is-adrannau am bolisi ac ymarfer a'r gallu i fagu plant. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd Elliott and Scourfield (2017) wedi dod o hyd i dystiolaeth ystadegol fod effaith ymyrraeth wrthgyfartal yng Nghymru. Mae hyn yn cyferbynnu â'r sefyllfa yn Lloegr lle'r oedd dystiolaeth yn awgrymu y byddai mwy o

ymyrraeth yn gyffredinol ar lefel amddifadedd benodol yn yr awdurdodau lleol sy'n fwy difreintiedig.

Nodweddion y Boblogaeth

Rôl newid yn y boblogaeth

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o'r boblogaeth plant yn darparu dull ar gyfer cymharu ar draws ardaloedd sy'n cynnwys poblogaethau sy'n amrywio o ran maint. Fodd bynnag, mae rhai wedi dadlau (for example, Jay et al., 2017) bod maint y boblogaeth plant yn effeithio ar y gyfradd am bob 10,000 o blant – bydd ardaloedd â phoblogaethau mawr yn fwy cadarn yn erbyn newidiadau bach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, tra bydd yr un newidiadau bach yn y boblogaeth sy'n derbyn gofal mewn ardaloedd llai yn gallu arwain at newidiadau sylweddol yn y gyfradd.

Daw hyn yn amlwg wrth edrych ar Geredigion (un o'r awdurdodau lleiaf yng Nghymru o ran poblogaeth plant) ac Abertawe (y trydydd mwyaf) - mae'r ddau ohonynt wedi gweld gostyngiad net o 15 ym maint cohort y plant sy'n derbyn gofal rhwng 2014 a 2018:

- Amcangyfrifwyd bod poblogaeth plant o 12,320 yng Ngheredigion yn 2017 - gostyngiad o 210 (1.7%) o'i gymharu â 2014. Rhwng 2014 a 2018, gostyngodd y cohort plant sy'n derbyn gofal o tua 75 i tua 60 (gostyngiad o 20%), a arweiniodd at ostyngiad o 61 i 49 yn y gyfradd leol am bob 10,000 o blant - sy'n cyfateb i 12 yn llai o blant sy'n derbyn gofal am bob 10,000.
- Hefyd, gwelodd Abertawe faint y cohort plant sy'n derbyn gofal yn gostwng tua 15 (o 535 i 520, -3%). Roedd poblogaeth llawer mwy yr ardal hon (amcangyfrifir ei fod yn 47,270 yn 2017) yn golygu bod cyfradd y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng o 114 i 110 am bob 10,000 (4 yn llai o blant sy'n derbyn gofal am bob 10,000).

Er hynny, y gyfradd am bob 10,000 o blant yn y boblogaeth yw'r prif ddangosydd o ddewis o hyd, am nad yw rhifau crai yn caniatáu i ni gymharu rhwng gwledydd, rhanbarthau ac awdurdodau lleol.

Mae Tabl 4 yn cynnwys crynodeb o'r data sylfaenol a ddefnyddir i gyfrifo cyfraddau Cymru. Mae'n amlygu nifer o dueddiadau:

- Ledled Cymru, gostyngodd y boblogaeth plant 0.2% tra bo maint y cohort plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 11.5% - sy'n cyfateb i 660 o blant ychwanegol sy'n derbyn gofal o'i gymharu â 2014.
- Yng Nghastell-nedd Port Talbot y gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng nghyfradd plant sy'n derbyn gofal. Mae maint y boblogaeth plant leol wedi aros yn gymharol debyg tra bo nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi disgyn o tua 465 i 330. O ganlyniad, mae'r gyfradd leol wedi gostwng o 168 am bob 10,000 i 118 am bob 10,000.

Tabl 4: Newidiadau ym Maint y Cohort Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Awdurdod Lleol

	Poblogaeth 0-17			Cohort LAC (Rhif)					Cohort LAC (Rhif) o'i Gymharu â 2014		Cohort LAC (Cyfradd am bob 10,000)					Newid net mewn Cyfradd
	2014	2017	% newid	2014	2015(r)	2016	2017(r)	2018	Newid Net	% newid	2014	2015(r)	2016	2017(r)	2018	
Ynys Môn	13,631	13,429	-1.5	75	90	110	140	145	70	93	57	65	80	104	107	51
Gwynedd	23,668	23,410	-1.1	185	190	205	220	225	40	22	78	81	88	93	97	19
Conwy	21,726	21,499	-1.0	165	155	170	175	210	45	27	75	72	78	82	99	24
Sir Ddinbych	19,454	19,365	-0.5	160	160	175	155	165	5	3	84	83	89	84	85	2
Sir y Fflint	32,157	32,028	-0.4	210	220	210	210	215	5	2	66	68	65	66	68	2
Wrecsam	29,356	29,240	-0.4	210	175	200	210	255	45	21	71	60	67	72	88	16
Powys	25,166	24,242	-3.7	150	135	150	155	210	60	40	59	54	60	63	87	28
Ceredigion	12,530	12,321	-1.7	75	80	80	75	60	-15	-20	61	62	63	60	50	-10
Sir Benfro	24,674	24,198	-1.9	125	115	125	125	135	10	8	50	47	52	52	56	6
Sir Gaerfyrddin	37,073	37,096	0.1	245	240	215	205	195	-50	-20	66	64	58	56	52	-14
Abertawe	46,989	47,272	0.6	535	510	510	480	520	-15	-3	114	109	108	102	110	-4
Castell-nedd Port Talbot	27,890	27,891	0.0	465	435	375	345	330	-135	-29	168	156	135	124	118	-50
Pen-y-bont ar Ogwr	29,048	29,217	0.6	410	390	380	390	385	-25	-6	142	135	131	134	131	-10
Bro Morgannwg	27,035	27,244	0.8	185	185	195	225	245	60	32	68	69	72	84	90	22
Caerdydd	73,143	74,155	1.4	610	650	645	720	830	220	36	84	89	88	97	112	27
Rhondda Cynon Taf	49,986	49,912	-0.1	650	620	625	690	675	25	4	130	124	125	138	135	5
Merthyr Tudful	12,479	12,736	2.1	175	165	140	145	155	-20	-11	140	131	113	115	122	-17
Caerffili	38,843	38,334	-1.3	275	270	275	330	385	110	40	71	70	72	85	100	30
Blaenau Gwent	13,958	13,555	-2.9	145	135	190	210	235	90	62	102	98	139	154	172	70
Torfaen	19,360	19,088	-1.4	295	290	270	315	365	70	24	152	150	142	166	191	38
Sir Fynwy	18,117	17,586	-2.9	105	110	130	135	140	35	33	56	60	73	75	79	23
Casnewydd	33,326	34,471	3.4	285	285	295	280	325	40	14	86	86	88	83	94	8
Cymru	629,609	628,289	-0.2	5,745	5,615	5,665	5,945	6,405	660	11	91	89	90	95	102	11

Ffynionellau: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, Stats Cymru (2018d), Stats Cymru (2018f) a'r Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018a). Nodiadau: Mae'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn mwyaf diweddar a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ymwneud â 2017, ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i bennu'r cyfraddau am bob 10,000. Mae (r) yn dangos bod y data wedi'i addasu ers iddo gael ei gyhoeddi yn flaenorol. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf. O ganlyniad, mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal a'r newid net wedi'u hadrodd i'r cyfanrif agosaf.

Tabl 5: Cymharu Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Rhanbarth ar draws Cymru a Lloegr

	Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal					Cohort LAC o'i Gymharu â 2014		Poblogaeth 0-17		
	2014	2015	2016	2017	2018	Gwir Newid	% Newid	2014	2017*	% newid
Cymru	5,745	5,615	5,665	5,955	6,405	660	11.5	629,609	628,289	-0.2
Gogledd-ddwyrain	4,240	4,270	4,400	4,830	5,020	780	18.4	524,984	527,411	0.5
Gogledd-orllewin	12,260	12,490	12,550	13,220	14,070	1,810	14.8	1,514,982	1,543,276	1.9
Gorllewin Canolbarth Lloegr	9,130	9,360	9,250	9,490	10,050	920	10.1	1,257,088	1,282,904	2.1
Swydd Efrog a'r Humber	7,380	7,260	7,250	7,720	8,190	810	11.0	1,141,040	1,158,481	1.5
Lloegr	68,810	69,470	70,400	72,590	75,420	6,610	9.6	11,591,701	11,866,957	2.4
Dwyrain Canolbarth	4,950	5,100	5,170	5,360	5,630	680	13.7	965,746	988,743	2.4
De-orllewin	5,450	5,550	5,710	5,800	6,020	570	10.5	1,076,536	1,096,477	1.9
De-ddwyrain	8,950	9,310	9,870	9,830	10,000	1050	11.7	1,904,420	1,943,865	2.1
Dwyrain Lloegr	6,350	6,150	6,340	6,450	6,550	200	3.1	1,286,694	1,324,441	2.9
Llundain	10,110	9,980	9,860	9,900	9,890	-220	-2.2	1,920,211	2,001,359	4.2

Ffynonellau: Tablau Ychwanegol, Plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr, y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 (Yr Adran Addysg , 2018), Stats Cymru (2018f) a'r Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018b: Tabl 4). Nodiadau: Mae'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn mwyaf diweddar a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ymwneud â 2017. Mae cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, sy'n seiliedig ar yr amcangyfrifon poblogaeth hyn wedi'u nodi yn Nhabl 3.

- Mae'r tri awdurdod lleol sydd wedi gweld y cynnydd net mwyaf yng nghyfradd y plant sy'n derbyn gofal dros y 5 mlynedd diwethaf (h.y. Blaenau Gwent, Ynys Môn a Thorfaen) wedi gweld cynnydd ym maint y cohort plant sy'n derbyn gofal ond maen nhw wedi gweld gostyngiad ym maint y boblogaeth plant.

Mewn cyferbyniad, mae Tabl 5 yn dangos cynnydd ym mhoblogaeth 0-17 yn Lloegr a phob un o'r rhanbarthau rhwng 2014 a 2018. Dim ond Llundain a welodd ostyngiad ym maint y cohort plant sy'n derbyn gofal yn ystod y cyfnod hwn, a arweiniodd at ostyngiad yng nghyfradd y plant sy'n derbyn gofal o 54 i 49 am bob 10,000 yng nghyd-destun cynnydd yn y boblogaeth plant.

Honnodd Cordis Bright (2013) fod maint y boblogaeth yn ffactor allweddol sy'n helpu i esbonio rhai o'r gwahaniaethau mewn cyfraddau plant sy'n derbyn gofal rhwng awdurdodau lleol. Er mwyn dangos y cysylltiad rhwng y newidiadau ym maint y boblogaeth leol, nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r gyfradd, dros amser, mae'r data ar gyfer 2014 i 2018 wedi'i fodelu. Drwy 'osod' cyfradd yr awdurdod lleol yn unol â lefel 2014 a chaniatáu i'r boblogaeth leol newid yn unol â'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, mae'n bosib edrych ar ba effaith y dylai newid yn y boblogaeth ei chael ar faint disgwylidig y cohort plant sy'n derbyn gofal petai'r gyfradd plant sy'n derbyn gofal wedi aros ar yr un lefel. Ceir crynodeb o ganlyniadau'r ymarfer hwn yn Nhabl 6.

Tabl 6: Data wedi'i Fodelu: Gan Gymryd Dim Newid yng Nghyfraddau Awdurdodau Lleol rhwng 2014 a 2018

	Poblogaeth 0-17			Gwir Gohort LAC 2014		Gwir Gohort LAC 2018		Effaith Wedi'i Fodelu ar Gohort LAC (Rhif)		Gwahaniaeth mewn Cyfradd LAC (Wedi'i Fodelu cf. Gwir 2018)
	2014	2017*	% newid	Rhif	Cyfradd	Rhif	Cyfradd	Wedi'i Fodelu 2018 (Wedi'i seilio ar Gyfradd 2014)	Gwahaniaeth (Wedi'i Fodelu cf. Gwir 2018)	
Powys	25,166	24,242	-3.7	150	59	210	87	143	-67	28
Sir Fynwy	18,117	17,586	-2.9	105	56	140	80	99	-41	23
Blaenau Gwent	13,958	13,555	-2.9	145	102	235	173	138	-97	72
Sir Benfro	24,674	24,198	-1.9	125	50	135	56	121	-14	6
Ceredigion	12,530	12,321	-1.7	75	61	60	49	72	15	-12
Ynys Môn	13,631	13,429	-1.5	75	57	145	108	76	-69	51
Torfaen	19,360	19,088	-1.4	295	152	365	191	291	-74	39
Caerffili	38,843	38,334	-1.3	275	71	385	100	271	-114	30
Gwynedd	23,668	23,410	-1.1	185	78	225	96	184	-41	18
Conwy	21,726	21,499	-1.0	165	75	210	98	161	-49	23
Sir Ddinbych	19,454	19,365	-0.5	160	84	165	85	162	-3	2
Sir y Fflint	32,157	32,028	-0.4	210	66	215	67	211	-4	1
Wrecsam	29,356	29,240	-0.4	210	71	255	87	208	-47	16
Rhondda Cynon Taf	49,986	49,912	-0.1	650	130	267	135	649	-26	5
Castell-nedd Port Talbot	27,890	27,891	0.0	465	168	330	118	468	138	-49
Sir Gaerfyrddin	37,073	37,096	0.1	245	66	195	53	243	48	-13
Abertawe	46,989	47,272	0.6	410	142	385	132	415	30	-10
Pen-y-bont ar Ogwr	29,048	29,217	0.6	535	114	520	110	540	20	-4
Bro Morgannwg	27,035	27,244	0.8	185	68	245	90	185	-60	22
Caerdydd	73,143	74,155	1.4	610	84	830	112	626	-204	27
Merthyr Tudful	12,479	12,736	2.1	175	140	155	122	178	23	-18
Casnewydd	33,326	34,471	3.4	285	86	325	94	297	-28	8
Cymru	629,609	628,289	-0.2	5,745	91	6,405	102	5,727	-678	11

Ffynonellau: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, Stats Cymru (2018d), Stats Cymru (2018f) a'r Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018a).

Gan fod y data cyhoeddiedig wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf, amcangyfrifon crai yw'r rhain. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi'r gwahaniaeth a fyddai wedi digwydd rhwng gwir faint cohortau plant sy'n derbyn gofal 2018 ar lefel awdurdod lleol a'r rhai wedi'u modelu, yn enwedig pan fu newidiadau sylweddol yn y boblogaeth sylfaenol. Er enghraifft:


- Yn 2014, roedd 86 o blant sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o'r boblogaeth leol yng Nghasnewydd. Rhwng 2014 a 2017 (yr amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf sydd ar gael), roedd maint y boblogaeth leol wedi cynyddu 3.4%. Petai wedi llwyddo i gynnal y gyfradd plant sy'n derbyn gofal yn unol â lefel 2014, byddai'r cynnydd yn y boblogaeth sylfaenol yn golygu y byddwn wedi disgwyl gweld nifer y plant sy'n derbyn gofal yn codi o tua 285 i 297. Ond yn hytrach, ar 31 Mawrth 2018, roedd 325 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghasnewydd - gwahaniaeth o tua 28 o blant.
- Roedd 150 o blant sy'n derbyn gofal ym Mhowys yn 2014, sy'n cyfateb i gyfradd o 59 am bob 10,000. Gostyngodd y boblogaeth leol 3.7% rhwng 2014 a 2017. Petai Powys wedi llwyddo i gynnal cyfradd 2014, yn hytrach na chael 210 o blant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2018, byddwn wedi disgwyl gweld 143 – tua 67 yn llai.
- Fel y nodwyd, roedd y boblogaeth plant sylfaenol wedi aros yn gymharol debyg yng Nghastell-nedd Port Talbot rhwng 2014 a 2017. Petai'r gyfradd plant sy'n derbyn gofal wedi'i chynnal yn unol â lefel 2014, mae'r modelu'n awgrymu y byddai 468 o blant sy'n derbyn gofal yn hytrach na 330 fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018 – tua 138 yn fwy o blant sy'n derbyn gofal.

Drwy gymharu meintiau poblogaeth plant awdurdodau lleol a'r gwahaniaeth rhwng y nifer wedi'i foddelu o blant sy'n derbyn gofal a'r gwir nifer ar 31 Mawrth 2018 awgrymir bod cysylltiad gwan iawn rhwng y ddau, yn enwedig os yw Caerdydd yn cael ei heithrio – mae poblogaeth y brifddinas yn sylweddol fwy na phoblogaeth yr awdurdodau lleol eraill ac felly mae ei chynnwys yn cael effaith fwy ar swm yr amrywiad cyffredinol y gellir o bosib ei esbonio.

Beth yw'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyfradd y plant sy'n derbyn gofal?

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd a lefelau'r galw am wasanaethau plant wedi'i sefydlu'n dda (gweler er enghraifft Bywaters et al. (2016)), gyda 'research proposing a combination of direct factors (such as material hardship) and indirect factors (parental stress and neighbourhood condition) as the causal links' (Lum and Tregidgo, 2018: 15). Mae Ffigur 9 yn dangos bod cydberthynas gadarnhaol rhwng cyfradd y plant sy'n derbyn gofal a Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), gydag ychydig dros hanner yr amrywiad wedi'i esbonio ($R^2 = 0.53$ h.y. 53%). Mae hyn yn cefnogi'r casgliadau a wnaed gan Elliott a Scourfield (2017) a Cordis Bright (2013) ynglŷn ag arwyddocâd amddifadedd.

Ffigur 9: Cyfradd Plant sy'n Derbyng Gofal, 2018 o'i chymharu â MALIC 2014



Nodiadau: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyng Gofal (Stats Cymru, 2018f). Mae cyfran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) sydd ymysg yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn seiliedig ar MALIC 2014 (Stats Cymru, 2018i).


Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod cyfradd uwch o blant sy'n derbyn gofal yn Nhorfaen nag y disgwylir o ystyried cyfran yr LSOAs sydd ymysg yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hyn, ynghyd â'r amrywiad na ellir ei esbonio, yn awgrymu bod ffactorau eraill a fyddai'n cyfrannu at y cyfraddau amrywiol ar draws Cymru.

A oes amrywiad oherwydd oed a/neu ryw?

Mae nodweddion bras plant sy'n derbyn gofal wedi aros yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol; ychydig dros hanner (54%) yn fechgyn, a 46% yn ferched. Gan ystyried proffil y boblogaeth 0-17 yng Nghymru, mae hyn gyfystyr yn fras â 108 o fechgyn sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o'i gymharu â 96 o ferched am bob 10,000.

Y grŵp oedran mwyaf o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yw'r rhai rhwng 10-15 oed, ac yna'r rhai rhwng 5-9 oed. Mae tua chwarter y plant sy'n derbyn gofal dan 5 oed - mae 18% rhwng 1-4 oed, a 6% dan 1 oed. Mae tua un o bob chwech (16%) yn 16 oed neu hŷn - mae hyn yn cynnwys tua 5 unigolyn 18 oed sy'n aros dan ofal yr awdurdod lleol. Mae'r proffil hwn yn dra gwahanol i'r un yn Lloegr lle mae'r rhai 16 oed neu hŷn yn cyfrif am 23% o'r cohort plant sy'n derbyn gofal (Ffigur 10).

Ffigur 10: Proffil Oedran Plant sy'n Derbyng Gofal ar 31 Mawrth 2018



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyng Gofal Stats Cymru (2018f) a Thablau Ychwanegol, Plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr, y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 (Yr Adran Addysg , 2018)

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o fewn pob grŵp oedran. Mae hyn wedi digwydd ar gyflymder gwahanol, ac wedi ysgogi newid ym mhroffil oedran y cohort plant sy'n derbyn gofal. Mae'n werth nodi bod nifer y plant sy'n derbyn gofal rhwng 10 a 15 oed wedi cynyddu 18% (o 2,025 i 2,380), ond dim ond cynnydd o 3% a welwyd yn y nifer rhwng 16 a 17 oed (o 975 i 1,000). Pan fyddwn yn cyfrifo cyfraddau dangosol y plant sy'n derbyn gofal yn ôl grŵp oedran er mwyn ystyried strwythur y boblogaeth sylfaenol, fe welwn dwf yng nghyfradd y rhai rhwng 10 a 15 oed sy'n derbyn gofal o'i gymharu â 31 Mawrth 2017.



Gallwch weld y tueddiadau tymor hwy yn Ffigurau 11(a) a (b). Er bod y rhain yn dangos bod cyfradd y plant sy'n derbyn gofal ym mhob grŵp oedran wedi cynyddu ers 2003, roedd cyfradd y rhai sy'n derbyn gofal rhwng 16-17 oed yn uwch na chyfradd y plant rhwng 10-15 oed sy'n derbyn gofal am y tro cyntaf yn 2011. Mae'n debygol bod effaith gronnydd y niferoedd uwch sy'n mynd i mewn i'r system ofal yn iau ac sy'n parhau i dderbyn gofal yn eu harddegau yn egluro rhywfaint o'r gyfradd uwch ar gyfer y grŵp hŷn hwn.

Tabl 7: Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Grŵp Oedran

	Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal					Cyfradd Ddangosol am bob 10,000				
	2014	2015	2016	2017	2018	2014	2015	2016	2017	2018
Dan 1 oed	315	290	300	360	360	94	86	90	111	111
1 i 4 oed	1,120	990	1,015	1,065	1,180	78	70	73	77	85
5 i 9 oed	1,315	1,345	1,320	1,375	1,475	75	75	72	74	80
10 i 15 oed	2,025	2,035	2,085	2,165	2,380	101	102	104	106	117
16 i 17 oed	975	945	940	975	1,000	130	130	133	141	145
Cyfanswm ac eithrio rhai 18 oed	5,750	5,605	5,660	5,940	6,395	91	89	90	95	102

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn ôl oedran ar gyfer pob awdurdod lleol, 2001 i 2017 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a) a Phlant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran (Stats Cymru, 2018d).

Ffigur 11: Cyfraddau Dangosol Plant sy'n Derbyng Gofal yn ôl (a) Grŵp Oedran a (b) Oedran a Rhyw



Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn ôl oedran ar gyfer pob awdurdod lleol, 2001 i 2017 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a) a Phlant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran (Stats Cymru, 2018d).

Mae'n werth nodi bod Lloegr wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 (Yr Adran Addysg, 2018). Yn gyffredinol mae'r is-grŵp hwn yn hŷn (16 oed +), yn fechgyn, ac mewn angen oherwydd rhieni absennol. Nid yw'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru ar gael yn gyhoeddus¹² er bod

¹² Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru am y ffigurau hyn fel diweddariad i gais Rhyddid Gwybodaeth sy'n ymddangos ar Stats Cymru yn seiliedig ar ddata o'r Cyfrifiad LAC. Mae'r niferoedd isel yn golygu nad oedd modd darparu dadansoddiad awdurdod lleol o'r data. Cafodd data ei ryddhau'n ddiweddar yn seiliedig ar y Cyfrifiad CRCS -

nifer y plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches wedi cynyddu'n genedlaethol o tua 40 ar 31 Mawrth 2016 i tua 70 ar 31 Mawrth 2018. O ystyried y niferoedd bach, nid yw'n bosib pennu a yw'r plant hyn wedi ymgasglu yn y pedwar awdurdod lleol yng Nghymru sy'n ardaloedd gwasgaru ar gyfer ceiswyr lloches: Caerdydd, Wrecsam, Casnewydd ac Abertawe. Os ydyn nhw, yna mae'n bosib bod yr is-grŵp hwn yn effeithio ar gyfraddau awdurdodau lleol. Er mwyn canfod a allai hwn fod yn ffactor esboniadol lleol, byddai angen dadansoddi'r data lefel unigol o'r Cyfrifiad LAC, yn ddefnyddiol dros flwyddyn yn hytrach na dibynnu ar ddata ciplun.¹³

Yn ogystal ag effaith gronnydd y rhai sydd wedi mynd i ofal yn iau ac sy'n parhau i dderbyn gofal, mae ffactorau eraill a all fod yn cyfrannu at y cynnydd yng nghyfraddau plant hŷn sy'n derbyn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 'Llinellau Cyffuriau'¹⁴ – y ffenomenon diweddar lle bydd grwpiau troseddu cyfundrefnol yn defnyddio pobl ifanc ac oedolion bregus i ddanfoni cyffuriau, a'u cymell gyda thaliadau neu roddion, neu eu gorfodi drwy fygwth neu drais. Mae'r ffactorau sy'n peri bod unigolyn yn fwy tebygol o gael ei dargedu yn cynnwys: profiad blaenorol o esgeulustod, cam-drin corfforol neu rywiol; diffyg amgylchedd diogel/sefydlog yn y cartref; digartrefedd neu statws llety ansicr; anabledd dysgu neu gorfforol; problemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl; a bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, yn enwedig mewn gofal preswyl (Heddlu De Cymru, dim dyddiad). (South Wales Police, no date) Mae'r mater hwn wedi effeithio'n arw ar Gymru, yn enwedig yn y Gogledd (BBC, 2018)
- Mae dyfarniad Southwark 2009 yn rhoi'r cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer pobl ifanc rhwng 16-17 oed sy'n datgan eu bod yn ddiartref. Mae Deddf 2014 yn egluro rôl awdurdodau lleol yn eu dyletswydd i ddarparu llety ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n methu byw gartref yn ddiogel. Pan fydd rhywun 16-17 oed yn gwneud cais am lety o dan adran 76, nid yw'r rhieni yn gallu mynnu bod y plentyn yn cael ei ddychwelyd i'w gartref.

mae'r data hwn yn awgrymu bod 60 o blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches a 45 o blant mewn teuluoedd yn ceisio lloches ar 31 Mawrth 2018 (Stats Cymru, 2019b)

¹³ Mae'r dadansoddiad a wnaed gan Elliott a Scourfield (2017) gan ddefnyddio data lefel unigol yn dangos bod cyfraddau'n cynyddu wrth i oedran gynyddu ar draws yr holl lefelau amddifadedd. Maen nhw wedi nodi bod hyn yn groes i'r tueddiadau a welodd Elliott M. (2017) ac astudiaethau eraill sy'n dangos cyfraddau uwch o blant iau yn enwedig y rhai dan 4 oed. Mae hyn yn cael ei briodoli i'r defnydd o ddata ciplun yn hytrach na data hydredol.

¹⁴ Mae 'Llinellau Cyffuriau' yn broblem sy'n effeithio ar lawer o ardaloedd yn y DU - mae grwpiau'n defnyddio 'llinellau' ffôn symudol i ymestyn eu busnesau gwerthu cyffuriau i leoliadau newydd y tu allan i'r ardaloedd lle maen nhw'n byw. Mae menter 'llinellau cyffuriau' bron bob amser yn cynnwys camfanteisio ar bobl fregus; gall hyn gynnwys plant ac oedolion sydd angen eu diogelu. Mae plant mor ifanc â 12 oed yn gallu cael eu targedu a'u recriwtio i deithio rhwng y sir gartref drefol a lleoliadau mwy gwledig i ddanfoni cyffuriau a chasglu arian ar ran y delwyr. Weithiau mae 'rhedwyr' yn mynd i gryn drafferth i wneud yn siŵr nad yw'r heddlu yn dod o hyd i'r cyffuriau arnyn nhw.

Mae'n ymddangos hefyd fod proffil oedran plant sy'n derbyn gofal yn golygu goblygiadau o ran lleoliad, gydag Elliott and Scourfield (2017) yn nodi bod pobl ifanc 16-17 oed yn fwy tebygol o gael eu rhoi mewn gofal rhywun nad yw'n berthynas. Mae'n werth nodi bod cysylltiadau hefyd â'r lefel amddifadedd, gyda chyfraddau pobl ifanc 16-17 oed sy'n derbyn gofal a ddim yn cael eu rhoi gyda rhieni, perthnasau na ffrindiau yn gostwng wrth i lefel yr amddifadedd gynyddu. Mae'r cysylltiad hwn ag amddifadedd yn amlwg ar gyfer grwpiau oedran eraill hefyd, gyda chyfrannau uwch o blant ym mhob grŵp oedran yn cael eu lleoli gyda theulu neu ffrindiau mewn ardaloedd mwy difreintiedig (McCartan et al., 2018). Nid yw'n bosib ymchwilio i hyn ymhellach â'r data cyhoeddedig. Fodd bynnag, mae'n werth nodi hefyd fod Elliott (2017) wedi canfod, ar sail dadansoddi gwerth 6 mlynedd o ddata, fod plant rhwng 0-4 oed sy'n mynd i ofal o'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig 10 gwaith yn fwy tebygol o wneud hynny na phlant yn yr un grŵp oedran sy'n byw yn yr 20% o LSOAs lleiaf difreintiedig, ond mae llawer o'r rhain yn derbyn gofal am gyfnodau byr yn unig. Mewn cyferbyniad, mae'r graddiant cymdeithasol sy'n bresennol yn y data ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed yn llawer llai serth gyda'r amrywiad mewn chyfraddau rhwng y cwintelau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn bedair gwaith.

Yn fwy cyffredinol, gall argaeledd darpar rieni mabwysiadol hefyd fod yn cyfrannu at y cynnydd yn nifer a chyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn y blynyddoedd diwethaf, gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gweld gostyngiad o 28% yn nifer y mabwysiadwyr arfaethedig a gymeradwywyd yn 2017-18 o'i gymharu â 2014-15 (Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, 2018a). Mae'r her o recriwtio digon o fabwysiadwyr yn cael effaith ar nifer y plant sy'n derbyn gofal. Er ei bod yn galonogol bod ymholiadau gan fabwysiadwyr wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, mae lleoli plant ag anghenion cymhleth, yn enwedig y rhai ag anghenion iechyd sylweddol, plant hŷn a grwpiau o frodyr a chwiorydd fel arfer yn cymryd mwy o amser ac yn gallu bod yn fwy o broblem (Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, 2018b).

Mae cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, ac yn fwy diweddar camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, hefyd yn cael goblygiadau sylweddol o ran diogelu. Mae'r cynnydd dilynol mewn ymwybyddiaeth ymarferwyr wedi arwain at newid yn y ffynonellau atgyfeirio, gyda'r heddlu ac iechyd sylfaenol/cymuned nawr yn cyfrannu mwy at y broses o adnabod plant mewn niwed neu sydd mewn perygl o niwed. Mae'r duedd hon yn amlwg yn y data o'r Cyfrifiad Plant mewn Angen. Fodd bynnag, ni chyhoeddir y ffynonellau atgyfeirio ar gyfer y cyfnod gofal diweddaraf fel rhan o set ddata CRCS ar Stats Cymru.

Beth y gellir ei ganfod am rôl ethnigrwydd?

Nid oedd Cordis Bright (2013) yn gallu priodoli'r amrywiad yng nghyfraddau plant sy'n derbyn gofal awdurdodau lleol i gyfran y boblogaeth leol o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, ar sail dadansoddiad o ddata lefel unigol, gwelodd Elliott and Scourfield (2017) fod cyfraddau cyffredinol y plant o gefndiroedd cymysg mewn gofal ar 31 Mawrth 2015 yn uwch na'r rhai ar gyfer y categorïau ethnig eraill. Roedd plant duon yn cael eu cynrychioli ar gyfraddau uwch na phlant gwyn, gyda'r gyfradd uchaf o blant duon mewn gofal yn dod nid o'r gymdogaeth fwyaf difreintiedig fel y byddai disgwyl, ond o'r cwintel canol. Mae plant duon hefyd yn mynd i ofal ar gyfradd uwch o'r cwintel lleiaf difreintiedig nag y maen nhw o'r rhai mwyaf difreintiedig, sydd yn gwbl groes i'r holl categorïau ethnig eraill a ddefnyddir. Mae plant Asiaidd yn llai tebygol yn gyson o fod mewn gofal na phlant yn y categorïau ethnig eraill ar draws pob lefel o amddifadedd.

Mae'r nifer fawr o reolau ataliad yn y data cyfanredol cyhoeddus yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau pendant ynghylch y cysylltiadau rhwng ethnigrwydd ac amrywiad yng nghyfraddau lleol y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Yn yr un modd, mae angen nodi cafeat gyda'r canfyddiadau yn ymwneud ag amddifadedd am fod diffyg penodolrwydd yn MALIC ar lefel yr unigolyn/aelwyd. Mae'n ddigon posib, o ystyried y boblogaeth Ddu fach yng Nghymru sy'n byw y tu allan i ardaloedd difreintiedig, y bydd newidiadau bach o ran nifer yn effeithio'n anghymesur ar ymdrechion i gyfrifo cyfraddau.

Beth y gellir ei ganfod am rôl anabledd a salwch meddwl plentyn?

Mae'n bosib bod rhai plant yn derbyn gofal a chymorth oherwydd anabledd, ac felly gallai eu cynllun gofal a chymorth gynnwys darpariaethau ar gyfer seibiant. Mae'r plant hyn yn perthyn i grŵp arbennig, a dim ond y plant y darperir seibiant byr ar eu cyfer o dan Ran 6, adran 76 o Ddeddf 2014 sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal. Ar 31 Mawrth 2018, nodwyd bod 165 o'r 235 a oedd yn derbyn gofal seibiant yn anabl. Er bod data am y grŵp arbennig hwn yn cael ei gasglu fel rhan o'r Cyfrifiad LAC, mae'r rhai ar leoliadau seibiant tymor byr yn cael eu heithrio o'r ffigurau cyhoeddus am y cohort plant sy'n derbyn gofal.

Mae gwybodaeth am statws anabledd y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth ar gael o'r Cyfrifiad CRCS. Mae'n awgrymu bod gan 21% o'r plant sy'n derbyn gofal a chymorth nam corfforol neu feddyliol lle mae'r nam yn cael effaith sylweddol a hirdymor ar eu gallu i wneud gweithgareddau cyffredin yn eu bywyd bob dydd (Stats Cymru, 2019e). Fodd bynnag, dim ond 10% o'r plant sy'n derbyn gofal sy'n anabl, a dim ond 4% o'r rhai ar y gofrestr amddiffyn plant.

Mae'n bosib bod gan y rhai sy'n anabl sawl nam ac felly cyfuniad cymhleth o anghenion. Bydd y rhain yn cael eu hamlinellu yng nghynllun gofal a chymorth y plentyn, a bydd cymorth yn cael ei ddarparu gan amrywiaeth o wahanol wasanaethau.

Categoriâu'r namau a gofnodwyd ar gyfer y 595 o blant sy'n derbyn gofal sy'n bodloni'r meini prawf hyn yw:

- Canfyddiad o'r risg o berygl corfforol (22%)
- Cof neu'r gallu i ganolbwyntio, dysgu neu ddeall (21%)
- Lleferydd, clyw neu olwg (30%)
- Cydsymud corfforol (25%)
- Ymataliaeth (13%)
- Symudedd (48%)
- Medrusrwydd llaw (54%)
- Y gallu i godi, cario neu symud eitemau bob dydd (65%)

Ar ben hynny, mae anhwylder ar y sbectrwm awtistig gan tua 240 (4%) o blant sy'n derbyn gofal - cyfran is nag ar draws y cohort ehangach o blant sy'n derbyn gofal a chymorth (11%) (Stats Cymru, 2019e).

Mae problem iechyd meddwl gyfredol sydd wedi cael diagnosis gan ymarferydd meddygol gan tua un o bob saith (14%, 470) o blant sy'n derbyn gofal ac yn 10 oed neu hŷn, ac mae'r plentyn yn derbyn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) neu ar y rhestr aros am wasanaethau. Nodwyd bod gan un o bob 11 (9%, 295) broblem camddeffnyddio sylweddau gyfredol (Stats Cymru, 2019e). Gan fod data'n cael ei gasglu am bresenoldeb y broblem ar ddiwrnod y ciplun, nid yw'n dangos a oedd yn ffactor sydd wedi cyfrannu at y penderfyniad i roi'r plentyn mewn gofal.

Yn seiliedig ar ddata am y prif gategori anghenion, ar 31 Mawrth 2018 roedd plant anabl yn cyfrif am tua un o bob chwech o blant sy'n derbyn gofal a chymorth (17%, 2,730 allan o 16,080). Ystyriwyd bod anabledd gan 2,445 (90%) ohonynt. Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn derbyn gofal a chymorth oherwydd anabledd neu salwch y plentyn yn elwa ar wasanaethau mwy dwys. Fodd bynnag, roedd 6% yn derbyn gofal (165 allan o 2,730) gydag ychydig dros 1% (35 allan o 2,730) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth 2018. Nid yw'n hysbys i ba raddau yr oedd salwch neu anabledd y plentyn yn ffactor ychwanegol.

Yn yr un modd ag ethnigrwydd, mae'r niferoedd cymharol isel yn cyfyngu ar y dadansoddi y gellir ei wneud i ymchwilio i'r amrywiad rhwng awdurdodau. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod y bydd cymhlethdod anghenion y plentyn unigol yn effeithio ar y math o leoliad a faint o adnoddau y mae angen eu hymrwymo i ddarparu gofal a chymorth priodol.

Canfyddiadau Allweddol: Nodweddion y Boblogaeth

O'i gymharu â Lloegr, mae cyfraddau uwch o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru a'i rhanbarthau, ac mae'r bwloch yn ehangu rhwng y ddwy wlad. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan mae'r boblogaeth plant yn mynd i lawr yng Nghymru, ond yn cynyddu yn Lloegr. **Er bod y newid yn y boblogaeth yn cyfrannu at wahaniaethau ar lefel leol, nid yw'n esbonio maint y bwloch ar lefel genedlaethol na rhwng awdurdodau lleol.**

Mae cysylltiadau amlwg rhwng amddifadedd a chyfraddau lleol plant sy'n derbyn gofal. Er gwaethaf y dull gwahanol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (h.y. dadansoddiad yn seiliedig ar ddata cyfanredol o giplun yn hytrach na ffigurau lefel unigol mewn blwyddyn), byddai'n ymddangos bod **cydberthynas gref rhwng cyfraddau a chyfran LSOAs yn yr awdurdod lleol sydd ymysg yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am tua hanner yr amrywiad ($R^2 = 0.53$ h.y. 53%).** Un o'r prif gyfyngiadau wrth ddefnyddio'r mesur o amddifadedd hwn yw nad yw'n dweud llawer wrthym am sut fywyd oedd gan y plentyn cyn ei gyfnod gofal presennol. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod lefel incwm, statws cyflogaeth, amgylchiadau tai na chefnidir addysgol riant/rhieni neu ofalwr y plant.

Yr hyn sy'n amlwg o'r llenyddiaeth ehangach yw bod nifer o ffactorau a all effeithio ar y cyfnod y bydd plentyn yn derbyn gofal, ei statws cyfreithiol a'r math o leoliad. Mae'r rhain yn cynnwys ei oed/ rhyw; natur a chymhlethdod ei ddatblygiad, anghenion iechyd corfforol neu feddyliol; yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gael gofal a faint o gymorth sydd ei angen gan wasanaethau plant i ymateb i anghenion unigol. Gan fod y materion hyn yn gallu effeithio'n wahanol ar grwpiau amrywiol a hefyd yn gallu effeithio ar debygolrwydd plant o sicrhau trefniadau sefydlogrwydd llwyddiannus, cefnogir dadansoddiad hydredol fel yr un a wnaed gan Martin Elliott fel rhan o'i PhD.

Polisi ac Ymarfer

A yw'r amrywiad yn y polisiau diogelu yn esbonio'r gwahaniaeth mewn cyfraddau lleol yng Nghymru?

Bu gwaith y Child Welfare Inequalities Project yn canolbwyntio ar fanylu a deall patrymau anghydraddoldeb mewn cyfraddau ymyrraeth lles plant ar draws pedair gwlad y DU, gan ganolbwyntio'n benodol ar y plant sy'n derbyn gofal neu sy'n destun ymyriadau amddiffyn plant. Mae Bywaters et al. (2018) yn tynnu sylw at hynny o ran cyflenwad,

'the balance of emphasis within policy and service provision between family and community support, CP [child protection] investigation and substantiation, out-of-home care, kinship care, guardianship and adoption vary substantially between the four countries.'

O fewn gwledydd 'there are also substantial variations in policy or practice between local authorities operating in the same jurisdiction' (Bywaters et al., 2018). Maen nhw'n dyfalu y gall hyn fod wedi'i gysylltu'n rhannol â gwariant yn berthynol i'r alwad, ac felly'n adlewyrchu patrymau amddifadedd o bosib. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yn rhaid i ffactorau eraill fel blaenoriaethau, ymagweddau a diwylliannau gwasanaethau lleol gyfrannu at yr amrywiad hefyd. Byddai angen ymgymryd â gwaith ansoddol i ddadansoddi natur y gwahaniaethau hyn yng Nghymru. Fodd bynnag, er mwyn cael syniad o gyfraniad y ffactorau hyn at esbonio'r amrywiad mewn cyfraddau plant sy'n derbyn gofal ar draws yr awdurdodau lleol, rhoddwyd ystyriaeth i'r gyfran briodol o blant yn y 'cohort diogelu' (h.y. naill ai ar y gofrestr amddiffyn plant neu'n derbyn gofal) mewn perthynas â'r cohort ehangach o blant sy'n derbyn gofal a chymorth.

Ledled Cymru roedd bron i chwarter o'r rhai a oedd yn derbyn gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2018 yn derbyn gofal (6,100¹⁵, 37.9%) tra bo 2,385 (14.8%) ar y gofrestr amddiffyn plant ond ddim yn derbyn gofal. Nid oedd y 7,600 (allan o 16,080) arall yn derbyn gofal nac ar y gofrestr amddiffyn plant (47.3%). Yn gyffredinol, mae hyn yn cyfateb i gyfradd o 255 am bob 10,000 dan 18 oed gyda'r gyfradd yn amrywio rhwng 140 o blant sy'n derbyn gofal a chymorth yn Sir Benfro i 445 ym Merthyr Tudful.


Ar sail y Cyfrifiad CRCS¹⁶ cyfradd y plant sy'n derbyn gofal oedd 97 am bob 10,000 (o'i gymharu â 102 am bob 10,000 yn yr un flwyddyn yn seiliedig ar Gyfrifiad LAC) gyda 38 arall

¹⁵ Mae'n cynnwys 140 o blant yn y Cyfrifiad CRCS sy'n derbyn gofal ac ar y gofrestr amddiffyn plant. Ni cheir dadansoddiad o'r ffigurau hyn ar Stats Cymru.

¹⁶ Mae newidiadau yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru yn golygu bod data bellach ar gael am bawb sydd â chynllun gofal a chymorth fel rhan o'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (CRCS). Mae'n cynnwys y rhai sy'n derbyn gofal neu sydd ar y gofrestr amddiffyn plant gydag achos sydd wedi bod ar agor am 3 mis neu fwy ar y cyfrifiad dyddiedig 31 Mawrth. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond gwerth blwyddyn o ddata sydd

am bob 10,000 â materion amddiffyn plant heb eu datrys ac yn destun cynllun amddiffyn rhyngasiantaethol. Pan gyfunir y ddau grŵp, maen nhw'n cynrychioli 'cohort diogelu' a oedd yn cynnwys 8,485 o blant, sy'n cyfateb i 135 am bob 10,000, ar 31 Mawrth 2018. Yn fras, mae cyfraddau amddiffyn uwch (Ffigur 12) gan y rhai â chyfraddau uwch o blant sy'n derbyn gofal a chymorth.

Ffigur 12: Cymharu Cyfradd Gyfunedig Plant sy'n Derbyn Gofal a/neu Amddiffyn Plant â'r Gyfradd ar gyfer yr Holl Blant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, yn ôl Awdurdod Lleol, 2018



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (Stats Cymru, 2019d)


Nodwyd eisoes mai Torfaen sydd â'r gyfradd uchaf o blant sy'n derbyn gofal, ac mae hyn yn dal i fod yn wir ar sail y Cyfrifiad CRCS. Fodd bynnag, nid yw cyfradd ei gofrestr amddiffyn plant (39 am bob 10,000) ond fyfryn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sydd wedi arwain at gyfradd cohort 'diogelu' gyfunedig o 228 am bob 10,000. Yn seiliedig ar y duedd ar draws y 22 awdurdod lleol, mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn is na'r disgwyl. Ar y llaw arall, mae cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal a chymorth yng Nghonwy a Cheredigion yn uwch nag y disgwylir o ystyried eu cyfraddau 'amddiffyn' cymharol isel. Mae hyn yn awgrymu bod ganddynt gyfran uwch o rai â chynlluniau gofal a chymorth nad ydynt yn derbyn gofal nac ar y gofrestr amddiffyn plant.

ar gael. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd data ar gyfer 31 Mawrth 2018 yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Chwefror 2019.

Mae Ffigur 13 yn dangos bod amrywiad sylweddol ar draws yr awdurdodau lleol o ran y cyfrannau yn y cohort sy'n derbyn gofal a chymorth sydd o fewn elfennau priodol y cohort diogelu. Mae'n werth nodi bod tua hanner y rhai â chynllun gofal a chymorth yn derbyn gofal yn Sir Ddinbych, Torfaen a Chaerdydd o'i gymharu â llai nag un o bob chwech yng Ngheredigion. Hefyd, mae amrywiad yn y cyfrannau priodol ar y gofrestr amddiffyn plant - sy'n amrywio o 23% yn Sir y Fflint i ddim ond 7% yng Nghonwy. Drwy drefnu'r awdurdodau lleol yn ôl cyfran eu LSOAs sydd ymysg yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, mae'n bosib cymharu'r proffil yn ôl statws y plentyn mewn ardaloedd â lefelau amddifadedd tebyg. Mae hyn yn awgrymu proffiliau eithaf gwahanol hyd yn oed ymhlith y rhai â lefelau amddifadedd tebyg. Er enghraifft,

- O'i gymharu â Sir Gaerfyrddin lle mae 11% o'i LSOAs ymysg yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, a Wrecsam (13%), mae proffil gwahanol iawn gan Sir y Fflint (12%) gyda 65% o'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth naill ai ar y gofrestr amddiffyn plant neu mewn gofal, ac felly maen nhw'n cael cymorth mwy dwys. Mewn cyferbyniad, y cyfrannau yn Sir Gaerfyrddin oedd 42%, a Wrecsam oedd 48%.
- Mae gan Sir Ddinbych ac Ynys Môn yr un gyfran o'u LSOAs ymysg yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (16%). Fodd bynnag, mae gwahaniaeth amlwg yng nghyfran eu cohortau diogelu - mae 68% o blant Sir Ddinbych sy'n derbyn gofal a chymorth naill ai'n derbyn gofal neu ar y gofrestr amddiffyn plant o'i gymharu â 50% o blant ar Ynys Môn.
- Ym Mlaenau Gwent mae bron i hanner (47%) o'i LSOAs ymysg yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, sy'n awgrymu mai yn y fan hon mae'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Nid yw proffil diogelu'r sir hon yn annhebyg i Gastell-nedd Port Talbot lle mae 30% o'r LSOAs yn perthyn i'r categori hwn.


Ffigur 13: Proffiliau Awdurdodau Lleol o Blant sy'n Derbyng Gofal a Chymorth yn ôl Statws y Plentyn, 2018.



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyng Gofal a Chymorth (Stats Cymru, 2019d). Mae awdurdodau lleol wedi'u trefnu yn ôl cyfran eu LSOAs sydd ymysg yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru; mae'r ganran wedi'i nodi mewn cromfachau sgwâr wrth ymyl enw'r awdurdod lleol. Mae'r labeli data yn ymwneud â'r nifer a nodwyd ym mhob elfen o'r cohort, tra bod y ffigur mewn cromfachau wrth ymyl enw'r awdurdod lleol yn dangos cyfanswm maint y cohort plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn yr ardal honno.

Os cymherir cyfradd y plant sy'n derbyn gofal â'r gyfran o fewn y cohort plant sy'n derbyn gofal a chymorth ehangach sydd naill ai mewn gofal neu ar gofrestrau amddiffyn plant (Ffigur 14), fe welwn fod cysylltiad cadarnhaol rhwng cyfran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n cael cymorth mwy dwys a chyfradd y plant sy'n derbyn gofal, gyda'r rhai â chyfraddau uwch fel arfer â chyfraneddau uwch yn y cohort diogelu. O'r dadansoddiad, mae'n awgrymu y gellir egluro 19% ($R^2 = 0.19$) o'r amrywiad yng nghyfraddau awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal gan y gyfran o blant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd yn y cohort sy'n cael cymorth mwy dwys.

Ffigur 14: Cymharu'r Gyfran yn y Cohort Diogelu â Chyfraddau Awdurdodau Lleol o Blant sy'n Derbyn Gofal, 2018



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (Stats Cymru, 2019d) lle mae statws y plentyn wedi'i gofnodi fel (1) yn derbyn gofal ar 31 Mawrth a (2) ar y gofrestr amddiffyn plant, ond ddim yn derbyn gofal ar 31 Mawrth. Dylech nodi bod cyfradd y plant sy'n derbyn gofal am bob 10,000 yn wahanol i'r gyfradd sy'n deillio o Gyfrifiad LAC oherwydd y gwahaniaethau yn y meini prawf cynhwysiant. Defnyddiwyd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2017 ar gyfer y boblogaeth plant er mwyn cyfrifo'r gyfradd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a).

Mae'r canfyddiad hwn yn cefnogi honiad Bywaters et al. (2018) bod ffactorau ac eithrio amddifadedd megis blaenoriaethau, dulliau a diwyllianau gwasanaethau lleol hefyd yn cyfrannu at yr amrywiadau yng nghyfraddau'r awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal. Nid oes modd modelu'r rhyngweithio rhwng amddifadedd a'r ffactor 'diogelu' hwn gan mai ychydig o awdurdodau lleol sydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y ddau gyfrifiad o faint yr amrywiad a eglurir yng nghyfraddau'r awdurdodau lleol yn dangos cyfran sylweddol na ellir cyfrif amdani gan y model yn arwydd bod ffactorau eraill ar waith.

Sut mae statws cyfreithiol y plentyn yn cymharu?

Fel y nodwyd yn yr adran agoriadol, wrth fynd ati i lunio cymariaethau rhwng pedair gwlad y DU, mae mwy a mwy o wahaniaethau o ran dull a therminoleg. Mae gan yr Alban system gyfreithiol gwbl ar wahân i'r un yng Nghymru a Lloegr, gyda Gwrandawiadau Plant wrth galon yr ymarfer. Mae Gogledd Iwerddon yn wahanol iawn yn strwythurol, gyda'r gwasanaethau plant yn cael eu rheoli drwy Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cyd yn hytrach nag awdurdodau lleol. Er bod gan Gymru a Lloegr y mwyaf yn gyffredin, mae eu natur wleidyddol a'u polisïau unigryw hwy a gwledydd eraill y DU yn dod yn fwy amlwg.

Gall plant sy'n derbyn gofal fod â statws cyfreithiol gwahanol:

- **Un Cyfnod o Lety Gwirfoddol** (O dan Adran 76 o Ddeddf 2014, neu Adran 20 o Ddeddf 1989 yn flaenorol) lle bydd y rhieni yn dal gafael ar eu hawliau cyfreithiol ac yn gallu mynnu bod y plentyn yn cael ei ddychwelyd ar unrhyw adeg.
- Mae'r awdurdod lleol yn cael gwneud cais i'r llys teulu am **orchymyn gofal**. O dan hwn, mae'r cyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng y rhieni a'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, yr awdurdod lleol sy'n cael y gair olaf. Hefyd, mae modd gwneud cais am orchymynion gofal interim sy'n para 28 diwrnod, ac mae'n bosib eu hadnewyddu; fel arfer mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith pan fydd achosion yn mynd rhagddynt.
- Gorchymynion yn ymwneud â Chyfiawnder Ieuenctid gan gynnwys pan fydd y plentyn dan orchymyn goruchwyllo cyfraith trosedd gyda gofyniad preswyllo, lle bydd yn cael ei **remandio** i lety cadw ieuenctid (mae plant o'r fath yn cael eu trin fel rhai sy'n derbyn gofal yn unol ag adran 104 o'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPOA) 2012¹⁷ neu'n cael eu **cadw** dan ofal yr awdurdod lleol o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) 1984 am fwy na 24 awr.
- Mae **statws arall** yn cynnwys pan fydd plentyn ar orchymyn lleoli, yn paratoi i gael ei fabwysiadu a lle bydd yn cael ei leoli mewn llety awdurdod lleol am resymau amddiffyn plant. Gallai'r categori hwn hefyd gynnwys plant sy'n cael eu rhoi dan warchodaeth yr heddlu (uchafswm o 72 awr); o dan orchymyn amddiffyn brys (am 8 diwrnod i ddechrau, ond gellir ei ymestyn am 7 diwrnod arall) neu orchymyn asesu plentyn. Yn achos yr olaf o'r rhain, ystyrir bod y plentyn yn derbyn gofal dim ond os yw'n cael ei leoli mewn llety ALI er mwyn cynnal yr asesiad.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhai ar Orchymynion Gwarchodaeth Arbennig, fel mabwysiadu, yn cael eu cyfrif mewn ystadegau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r gorchymynion hyn yn rhoi gwell sicrwydd o ofal i blant a oedd wedi derbyn gofal naill ai gyda gofalwyr maeth yn flaenorol neu gyda pherthnasau neu ffrindiau. Mae Bywaters et al. (2018) wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw Gorchymynion Gwarchodaeth Arbennig ar gael yn yr Alban na Gogledd

¹⁷ Nid ystyrir bod plant sy'n cael eu cadw o dan Adranau 90 i 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 yn derbyn gofal hyd yn oed os cânt eu rhoi mewn llety awdurdod lleol ac eithrio pan fyddant o dan orchymyn gofal cydredol. Bydd y plant hyn wedi cael eu dedfrydu i ddedfrydau hwy am droseddau difrifol.

Iwerddon. Yng Nghymru a Lloegr, nid yw'n glir faint o blant a allai fod yn byw mewn teuluoedd amgen ar hyn o bryd ar ôl cael eu lleoli gan y wladwriaeth drwy ddarpariaeth sefydlogrwydd fel mabwysiadu neu Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig, ar ôl derbyn gofal yn y gorffennol¹⁸.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd pedwar o bob pump (80%) o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ar orchymyn gofal. Dyma pryd mae'r awdurdod lleol neu unigolyn awdurdodedig wedi gwneud cais i'r llys i wneud y canlynol:

- (a) lleoli'r plentyn sy'n destun y cais dan ofal awdurdod lleol dynodedig; neu
- (b) ei roi ef/hi dan oruchwyliaeth awdurdod lleol dynodedig.

Mae Adran 31 o Ddeddf Plant 1989 yn nodi'r 'meini prawf trothwy' ar gyfer gorchymyn gofal. Mae'r un gofynion yn berthnasol i wneud gorchymyn goruchwyllo. Gall llys wneud gorchymyn gofal neu orchymyn goruchwyllo dim ond os yw'n fodlon –

(a) bod y plentyn dan sylw yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol; ac

(b) y gellir priodoli'r niwed, neu'r tebygolrwydd o niwed, i'r canlynol —

(i) bod y gofal a roddir i'r plentyn, neu sy'n debygol o gael ei roi iddo ef/hi pe na bai'r gorchymyn yn cael ei wneud, ddim yr hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl i riant ei roi iddo ef/hi; neu

(ii) bod y plentyn y tu hwnt i reolaeth ei rieni.

Mae baich y profi ar yr awdurdod lleol i ddangos bod y meini prawf hyn yn cael eu bodloni, sef:


- roedd y plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol ar y dyddiad yr oedd yr awdurdod lleol wedi ymyrryd
- gellir priodoli'r niwed, neu'r tebygolrwydd o niwed, i riant/rhieni'r plentyn.

Mae cyfran y plant ar orchymynion gofal ar 31 Mawrth wedi bod yn cynyddu ers 2014 er bod cyfrannau'r plant sy'n derbyn gofal dan gytundebau gwirfoddol neu statws cyfreithiol arall wedi gostwng (Ffigur 15). Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae gwir nifer y plant sy'n derbyn

¹⁸ Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yng Nghymru, mae gofal 4,860 o blant wedi dod i ben am eu bod wedi cael eu mabwysiadu neu eu rhyddhau i Orchymynion Gwarchodaeth Arbennig. Er bod cyfraddau tarfu ar ôl gwneud gorchymyn yn isel ar gyfer y ddau fath o orchymyn cyfreithiol (Bilson A and Munro EH. (2019) Adoption and child protection trends for children aged under five in England: Increasing investigations and hidden separation of children from their parents. *Children and Youth Services Review* 96: 204-211., nid yw'n glir faint ohonynt oedd dan 18 oed ar 31 Mawrth (Bilson A. (2017) *The Government's Adoption Drive isn't Achieving Its Aims*. Retrieved from: <https://www.communitycare.co.uk/2017/02/09/the-governments-adoption-drive-isnt-doing-what-it-set-out-to-do/>..

gofal ar orchmynion gofal yng Nghymru wedi cynyddu 39% o 3,710 i 5,155 (Ffigur 16). Er bod gorchmynion gofal yn cynrychioli cyfran ychydig yn is o ran statws cyfreithiol plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr (73%), mae hefyd wedi bod yn cynyddu - o 40,090 yn 2014 i 55,240 yn 2018, sy'n cyfateb i gynnydd o 38%. Ar lefel awdurdod lleol yn y ddwy wlad mae amrywiad sylweddol yng nghyfran y rhai ar orchmynion gofal sy'n awgrymu ei bod hi'n bosib bod y 'meini prawf trothwy' yn cael eu dehongli'n wahanol a/neu ar lefel llys teulu ddynodedig mae disgwyliadau gwahanol o ran pa un a yw'r baich prawf wedi'i sefydlu ai peidio.

Ffigur 15: Cyfran y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Statws Cyfreithiol



Ffynhonnell: Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a statws cyfreithiol (Stats Cymru, 2018b)

Yn ystod yr un cyfnod, roedd nifer y rhai yn cael llety o dan gytundeb gwirfoddol am un cyfnod¹⁹ bron wedi haneru – o 1,215 yn 2014 i 640 yn 2018 (gostyngiad o 47%). Mae plant sy'n derbyn gofal o dan y math hwn o gytundeb bellach yn cynrychioli dim ond un o bob deg o'r rhai sy'n derbyn gofal yng Nghymru ar 31 Mawrth. Mae'r gyfran yn Lloegr yn uwch, sef 19%, er bod gostyngiad hefyd o ran y niferoedd yn y cohort sydd wedi cael llety yn wirfoddol dros y 5 mlynedd diwethaf (o 18,720 i 14,500).

¹⁹ Mae'r darpariaethau a arferai ddod o dan adran 20 o Ddeddf 1989 wedi'u haildatgan o dan Adran 76 o Ddeddf 2014 o ran cytundebau gwirfoddol. Mae'r rhain yn caniatáu i awdurdod lleol ddarparu llety ar gyfer unrhyw blentyn mewn angen os yw'n credu y byddai gwneud hynny'n diogelu neu'n hyrwyddo lles y plentyn. Mae'n rhaid cael caniatâd y rhai â chyfrifoldeb riant ar gyfer trefniant o'r fath os yw'r plentyn o dan 16 oed, neu ganiatâd gan y plentyn ei hun os yw'r plentyn dros 16 oed.

Mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu llety ar gyfer plentyn yn ei ardal o dan Adran 76 o ganlyniad i'r canlynol:

- (a) nid oes unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant drosto ef/hi;
- (b) mae ef/hi ar goll neu wedi cael ei adael; neu
- (c) mae'r sawl sydd wedi bod yn gofalu amdano ef/hi yn cael ei rwystro (boed yn barhaol neu beidio, ac am ba bynnag reswm) rhag darparu llety neu ofal addas iddo ef/hi.

Mae Stevenson (2017) yn priodoli'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n cael llety yn wirfoddol i ymyriadau sy'n cael eu gwneud gan farnwyr yn eu gwaith. Yn dilyn dau achos allweddol²⁰, gosododd Syr James Munby, llywydd yr Adran Deulu, ganllawiau clir ynglŷn â sut y dylai gweithwyr cymdeithasol ac awdurdodau lleol ymdrin â'r rhain yn ogystal ag achosion gwarchodaeth arbennig. O ganlyniad, eir ati i graffu yn fwy manwl erbyn hyn ar y defnydd o achosion adran 20 - adran 76 yng Nghymru - i osgoi 'camddefnyddio a cham-drin' trefniadau o'r fath, yn enwedig fel preliwd i achosion gofal. Mae hyn wedi ysgogi awdurdodau lleol i ail-archwilio achosion a dod â rhai ohonynt i'r llys fel achosion gofal. Mynegwyd pryder barnwrol hefyd ynghylch y ffaith bod awdurdodau lleol yn argymhell mabwysiadu er gwaethaf 'annigonolrwydd' rheolaidd yn eu dadansoddiad, a bu adolygiad gan y llywodraeth sydd wedi arwain at newidiadau i'r rheoliadau er mwyn ceisio diogelu plant a theuluoedd yn well wrth iddynt fynd drwy broses Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig.

Yng Nghymru, mae'n ymddangos yn gyffredinol bod gan yr awdurdodau lleol â chyfradd uwch o blant sy'n derbyn gofal gyfrannau is o'r cohort sy'n derbyn gofal fel un cyfnod o lety gwirfoddol ar 31 Mawrth 2018. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod cydberthynas rhwng y cyfrannau priodol o blant sy'n derbyn gofal sydd ar orchmynion gofal a chyfraddau'r awdurdodau lleol. Serch hynny, mae'n anodd penderfynu a yw hyn yn esbonio'r gwahaniaethau yn y cyfraddau rhwng Cymru a Lloegr am mai dim ond ciplun sydd yma yn hytrach na thuedd yn ystod y flwyddyn. Heb wybodaeth gyhoeddedig ynghylch y cyfnod y mae'r plentyn yn derbyn gofal²¹, nid oes modd ychwaith canfod a yw hyn hefyd yn cyfrif am rywfaint o'r amrywiad - Yn sicr mae'r gwahaniaethau mewn cyfraddau o'r Cyfrifiad LAC a'r Cyfrifiad CRCS yn awgrymu efallai bod mwy o blant yn derbyn gofal am gyfnodau byr (ac

²⁰ Yn *Re N*, ymosododd Munby ar y ffordd mae trefniadau adran 20 yn cael eu "camddefnyddio a'u cam-drin" ac awgrymodd fod sawl awdurdod lleol wedi bod yn eu defnyddio'n amhriodol yn lle gorchmynion gofal, yn hytrach nag am gyfnodau tymor byr gwirfoddol â phwrpas clir pan oedd angen cymorth wedi'i gynllunio ar deuluoedd. Felly, cyhoeddwyd canllawiau newydd a oedd yn ymdrin ag arfer da. Yn *Re B-S*, amlinellodd Munby sut y dylai ymarferwyr ddefnyddio'r dull sy'n seiliedig ar fantolen wrth ystyried achosion gofal.


²¹ Mae Elliot, M (2017) yn cynnwys gwybodaeth am y cyfnod y mae plant yn derbyn gofal, gan gynnwys achosion pan fyddan nhw wedi mynd yn ôl i ofal. Mae hyn wedi cael ei bennu drwy edrych ar werth 6 blynedd o ddata lefel unigol.

felly ddim yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant ar gyfer y Cyfrifiad CRCS) mewn rhai awdurdodau lleol yn fwy nag eraill.

Ychydig iawn o blant yng Nghymru sy'n derbyn gofal o ganlyniad i fod ar remand, cael eu cadw neu orchymyn gorfodol arall - yn wir, dim ond llond llaw o blant sydd â'r statws cyfreithiol hwn ar 31 Mawrth 2018. Yn Lloegr roedd y rhai â statws cyfreithiol cyfiawnder ieuencid yn cynrychioli llai na 0.5% o'r cohort.

Mae'r niferoedd â statws cyfreithiol arall wedi bod yn codi. Serch hynny, rhwng 31 Mawrth 2014 a 31 Mawrth 2018, mae'r niferoedd wedi gostwng 26% - sy'n cyfateb i 210 yn llai o blant. Mae'r statws cyfreithiol arall yn cynnwys y rhai ar orchymynion lleoli / gorchymynion rhyddhau²². Mae ychydig o dan un o bob deg plentyn sy'n derbyn gofal yng Nghymru (9%) yn perthyn i'r grŵp hwn. Mae'r gostyngiad o 26% ymysg y rhai â statws cyfreithiol arall dros y 5 mlynedd diwethaf yn rhannol gysylltiedig ag anawsterau o ran denu teuluoedd addas sy'n fodlon mabwysiadu. Mae'r dadansoddiad o'r rhesymau blynyddol pam fod cyfnodau wedi dod i ben yn awgrymu bod y niferoedd sy'n gadael gofal wedi iddynt gael eu mabwysiadu yng Nghymru wedi cyrraedd uchafbwynt o 385 yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015; mae wedi gostwng 21% (gostyngiad o 80 o blant) ers hynny.

Ffigur 16: Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Statws Cyfreithiol yng Nghymru



Ffynhonnell: Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a statws cyfreithiol (Stats Cymru, 2018b)

²² Mae Gorchymynion Rhyddhau yn ymwneud ag achosion lle mae plentyn wedi'i ryddhau i'w fabwysiadu. Ni chaniateir gwneud ceisiadau newydd ar 30 Medi 2005 nac ar ôl y dyddiad hwnnw. Fe'u disodlwyd gan Orchymynion Lleoli sy'n galluogi'r awdurdod lleol i leoli plentyn i'w fabwysiadu gydag unrhyw fabwysiadwr arfaethedig a allai fod wedi'u dewis gan yr awdurdod. Yn wahanol i orchymyn rhyddhau, effaith gorchymyn lleoli yw bod cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn cael ei rannu - yr awdurdod lleol sy'n penderfynu i ba raddau - rhwng yr awdurdod lleol a rhieni'r plentyn. Mae'r gorchymyn yn parhau i fod mewn grym nes bydd yn cael ei ddirymu, neu os bydd gorchymyn mabwysiadu yn cael ei wneud mewn perthynas â'r plentyn, neu os bydd y plentyn yn priodi, neu pan fydd y plentyn yn cyrraedd 18 oed. Tra bo'r gorchymyn lleoli mewn grym, mae'r plentyn yn dal gafaal ar ei statws fel un sy'n derbyn gofal.

Mae'r National Adoption Service (2018) yn amlygu'r ffaith bod yr her o recriwtio digon o fabwysiadwyr yng Nghymru yn parhau, ac mae'n digwydd mewn cyd-destun lle mae cynnydd parhaus yn nifer y plant sy'n cael eu pennu gan awdurdodau lleol fel rhai sydd angen eu mabwysiadu. Mae lefel y Gorchmynion Lleoli sy'n cael eu caniatáu gan y llysoedd yng Nghymru hefyd yn codi. Yn ystod y flwyddyn tan 31 Mawrth 2018, roedd 308 o blant wedi gadael gofal ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu o'i gymharu â 385 yn ystod y flwyddyn tan 31 Mawrth 2015, gyda 8% yn cael eu mabwysiadu gan eu gofalwyr maeth. Mae cyfran y plant sy'n cael eu mabwysiadu gan eu gofalwyr maeth wedi bod yn gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf, gyda 19% o'r rheiny wedi digwydd yn ystod 2008-09 (Llywodraeth Cymru, 2018c).

Penderfyniadau gan y Llys Teulu

Mae Cafcass Cymru (2019) yn darparu'r prif ffigurau ar gyfer nifer y ceisiadau i'r Llysoedd Teulu yng Nghymru am orchmynion gofal dros amser. Mae'r data yn awgrymu bod ceisiadau am orchmynion gofal wedi cynyddu 66.3% ers 2009 – o 651 i 1,037 yn 2018. Mae data o set ddata PLATO a luniwyd gan y Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) mewn perthynas ag achosion llys teulu cyfraith gyhoeddus²³ yng Nghymru a Lloegr rhwng 2010 a 2017 yn rhoi syniad o ble mae amrywiad yng Nghymru. Yn anffodus, dim ond ar gyfer Lloegr mae data lefel awdurdod lleol ar gael gan Cafcass ar hyn o bryd.

Mae'r Barnwr Teulu Dynodedig (DFJ) yn helpu i arwain y llysoedd teulu ac i reoli eu llwyth gwaith mewn ardaloedd penodol ledled Cymru a Lloegr - mae'r rhain yn cael eu galw'n ardaloedd DFJ. Mae Canolfan Deulu Ddynodedig ym mhob ardal DFJ, a fan honno yw prif leoliad y llys teulu ar gyfer yr ardal. I'r fan hon mae pob cais teulu o'r ardal DFJ honno yn cael eu hanfon i'w hystyried gyntaf. Mae tair ardal DFJ yng Nghymru:

Gogledd Cymru – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a Gogledd Powys.

Abertawe a De-orllewin Cymru – Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, De Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.

Caerdydd a De-ddwyrain Cymru – Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Casnewydd, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy.

²³ Mae cyfraith gyhoeddus yn cyfeirio at achosion Deddf Plant 1989 lle mae materion lles plant, ac mae awdurdod lleol, neu unigolyn awdurdodedig, yn camu i mewn i ddiogelu'r plentyn a sicrhau ei fod yn cael y gofal y mae arno ei angen. Mae hyn yn wahanol i gyfraith breifat (h.y. achosion Deddf Plant 1989 lle mae dau neu fwy o bartïon yn ceisio datrys anghydfod preifat). Mae hyn yn aml lle mae rhieni wedi gwahanu ac yn anghytuno ynglŷn â gyda phwy y dylai eu plant fyw ac â phwy y dylai eu plant fod â chysylltiad, neu dreulio amser gyda nhw a phryd.

Yn wahanol i ddata a gyflwynir mewn manau eraill yn y papur briffio hwn, mae'r ffigurau yn yr adran hon yn ymwneud â cheisiadau a gorchmynion sy'n deillio ohonynt yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r rhai mewn gofal ar 31 Mawrth. Gan y bydd nifer o blant o bosib yn rhan o un achos heb fod yn destun yr un ceisiadau a gorchmynion o reidrwydd, defnyddir achosion yn ôl plentyn i wneud cymariaethau. Mae achos yn ôl plentyn yn cyfeirio at yr achos a brofir gan bob plentyn, gan gyfrif pob plentyn ar wahân (gall 1 achos ymwneud â 3 phlentyn, felly mae'n cael ei gyfrif fel 3 achos yn ôl plentyn). Er mwyn gallu llunio cymariaethau rhwng pob ardal DFJ o ystyried y ffaith eu bod nhw'n amrywio o ran maint, defnyddir cyfraddau unwaith eto gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu manylion yr achosion yn ôl plentyn am bob 100,000 o blant sy'n byw yn yr ardal honno gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2017 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a).

Gellir gwneud ceisiadau am orchymyn gofal neu oruchwyliaeth yn unigol neu law yn llaw ag achosion teulu eraill. Dylid nodi ei bod hi'n anarferol (er nad yn amhosibl) i wneud cais am orchymyn goruchwyllo yn ei rinwedd ei hun - ar y cyfan mae gorchmynion goruchwyllo yn dod i rym o ganlyniad i gais am orchymyn gofal. Mae'r un trothwy yn bodoli ar gyfer gorchmynion gofal a goruchwyllo, ond mae'r ddau orchymyn yn wahanol. Mae gorchmynion gofal yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r awdurdod lleol dros y plentyn ac yn rhoi pŵer i'r awdurdod lleol benderfynu i ba raddau y bydd rhieni'r plentyn ac eraill â chyfrifoldeb rhiant (nad ydynt yn colli eu cyfrifoldeb rhiant adeg gwneud y gorchymyn) yn bodloni eu cyfrifoldeb.

Mewn cyferbyniad, bwriad gorchmynion goruchwyllo yw galluogi'r awdurdod lleol i gadw rheolaeth resymol dros y plentyn pan fydd perygl o niwed, ond ddim digon o niwed i gyfiawnhau gorchymyn gofal. Felly, nid yw plant sy'n destun gorchymyn goruchwyllo yn rhai sy'n derbyn gofal ond byddant yn cael eu cynnwys yn y cohort sy'n derbyn gofal a chymorth. O dan orchymyn goruchwyllo, gellir gwneud cyfarwyddyd, sydd weithiau'n berthnasol i blant hŷn (e.e. sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt fyw mewn lle penodol yn achos plentyn sy'n parhau i ddychwelyd i gartref unigolyn sy'n cynrychioli risg), neu sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt fynd i apwyntiadau meddygol (e.e. plentyn ag anorecsia neu sy'n niweidio ei hun, neu sydd â phroblemau iechyd meddwl rhagnodedig eraill). Gall fod amgylchiadau eraill lle mae cyfarwyddyd yn briodol.

Nid yw gorchymyn goruchwyllo yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r awdurdod lleol, ond yn hytrach mae'n rhoi pŵer cyfreithiol i fonitro anghenion a chynnydd y plentyn tra bo'r plentyn yn byw gartref neu yn rhywle arall. Tra bo'r gorchymyn goruchwyllo mewn grym, mae'n rhoi'r plentyn dan oruchwyliaeth yr awdurdod lleol neu'r swyddog prawf. Dyletswydd y goruchwylwr yw cynghori, cynorthwyo a bod yn gyfaill i'r plentyn a chymryd y camau angenrheidiol i weithredu'r gorchymyn. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y bydd gweithwyr cymdeithasol yn rhoi cymorth a chefnogaeth i'r teulu cyfan. Gall gorchymyn goruchwyllo bara am flwyddyn a gellir ei ymestyn bob blwyddyn am gyfanswm o dair blynedd.

Mae'n bosib y bydd sawl cais fel rhan o achos. Er enghraifft, os oedd plentyn yn destun cais gofal a goruchwyliaeth, ac yn derbyn gorchymyn gofal, a bod ganddo gais gwarchodaeth arbennig a gorchymyn gwarchodaeth yn deillio o'r cais hwnnw, byddai'n cael ei gynrychioli

fel cais “gofal a goruchwyliaeth a gwarchodaeth arbennig” sy'n arwain at orchymyn “gofal a gwarchodaeth arbennig”. Mae Tabl 8 yn crynhoi nifer y ceisiadau fesul grŵp yng Nghymru²⁴:

Tabl 8: Ceisiadau Cyfraith Gyhoeddus yn ôl Achos ac Achosion yn ôl Plentyn, Cymru 2017, yn ôl Categori

Categori	Achosion	Achosion yn ôl Plentyn	
	Rhif	Rhif	Cyfradd
Gorchymyn gofal	909	1,399	222.7
Diddymu gofal	104	145	23.1
Arall	56	75	11.9
Gofal a gwarchodaeth arbennig	27	34	5.4
Gofal a goruchwyliaeth	0	10	1.6
Goruchwyliaeth	8	10	1.6

Ffynhonnell: PLATO (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019).

Er hwylustod, mae'r categorïau hyn wedi eu grwpio ymhellach i adlewyrchu lle mae cais wedi cynnwys y gorchymynion priodol (gweler Atodiad 1, Tabl A1). Er enghraifft, mae'r categorïau gofal, gofal a gwarchodaeth arbennig, a gofal a goruchwyliaeth, yn cynnwys cais am orchymyn gofal. Er y cydnabyddir bod hyn yn arwain at grwpiau sy'n gorgyffwrdd, mae'n rhoi darlun cliriach o nifer a chyfraddau pob gorchymyn o ran ceisiadau a gorchymynion dilynol. Gan ddefnyddio'r grwpiau hyn, mae'n awgrymu bod 1,443 o achosion cais fesul plentyn yn cynnwys gorchymynion gofal, sy'n cyfateb i gyfradd o 229.7 fesul 100,000 o boblogaeth plant Cymru.

Er y gall yr awdurdod lleol gyflwyno cais am orchymyn penodol, gall y canlyniad fod yn wahanol. Er enghraifft, o'r 1,673 o geisiadau a wnaed i'r Llys Teulu yng Nghymru yn 2017, roedd:

- 1,399 o geisiadau am ofal a arweiniodd at 1,092 o orchymynion gofal - sy'n cyfateb i gyfradd drosi o 78.1%. Er bod 31 o geisiadau wedi arwain at ddim gorchymyn/gwrthod/tynnu'n ôl, roedd 121 wedi arwain at orchymyn goruchwyllo; roedd 62 wedi arwain at ganiatáu gwarchodaeth arbennig; roedd 10 wedi arwain at gyfuniad o orchymyn goruchwyllo a gwarchodaeth arbennig; ac roedd 73 wedi arwain at orchymynion eraill.
- 10 cais am ofal a goruchwyliaeth. Fodd bynnag, oherwydd niferoedd bach, ni ddarperir dadansoddiad i Gymru o ran y gorchymynion sy'n deillio o hynny.

²⁴ Ceir rhagor o fanylion am sut mae'r grwpiau hyn wedi cael eu pennu yn Atodiad 1.


- 34 cais am ofal a gwarchodaeth arbennig. Arweiniodd 7 ohonynt at orchmynion gofal, 15 at warchodaeth arbennig a 8 at orchmynion goruchwyllo.
- Gwnaed 145 o geisiadau naill ai gan rieni neu'r awdurdod lleol am ddiddymu gorchymyn gofal, gan ddychwelyd y plentyn i gartref y rhiant. Rhoddyd 54 o'r rhain; arweiniodd 40 at ddim gorchymyn/gwrthod/tynnu'n ôl; 11 gorchymyn mewn gwarcheidiaeth arbennig; 8 gorchymyn dan oruchwyliaeth a 28 gorchymyn arall
- Ar ben hynny, o'r 75 cais am orchmynion eraill, arweiniodd 6 at orchymyn gofal.

Mewn ymgais i symleiddio'r data ymhellach ac er mwyn gallu llunio cymariaethau rhwng Cymru, Lloegr a'i rhanbarthau, defnyddiwyd dau fesur fel a ganlyn:

- Nifer yr achosion yn ôl plentyn sy'n cynnwys ceisiadau am orchmynion gofal am bob 100,000 o'r boblogaeth plant leol
- Nifer y gorchymynion gofal sy'n deillio o geisiadau am bob 100,000 o'r boblogaeth plant leol

Mae cyfradd y ceisiadau am orchmynion gofal a'r gorchymynion sy'n deillio o'r ceisiadau hynny am bob 100,000 o blant yn y boblogaeth leol yn dangos gwahaniaeth amlwg rhwng Cymru a Lloegr - 229.7 achos cais yn ôl plentyn am orchmynion gofal yn 2017 am bob 100,000 o blant yng Nghymru o gymharu â thua 151 am bob 100,000 o blant yn Lloegr. Hefyd, roedd mwy o achosion gorchymyn gofal sy'n deillio o geisiadau yn ôl plentyn - 178.4 am bob 100,000 o blant yng Nghymru o gymharu â 85 am bob 100,000 o blant yn Lloegr yn 2017. Mae Ffigur 17 yn dangos bod y duedd hon yn amlwg ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2010 a 2017.

Ffigur 17: Cyfraddau am bob 100,000 o Geisiadau am Orchmynion Gofal a'r Gorchymynion sy'n Deillio o'r Ceisiadau hynny yn ôl Plentyn



Ffynhonnell: PLATO (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019). Sylwer: Cyfrifwyd y cyfraddau ar gyfer Lloegr drwy ystyried y gwahaniaeth yn y niferoedd ar gyfer Cymru a'r niferoedd ar gyfer Cymru a Lloegr. Yna mae'r rhain wedi cael eu trosi'n gyfradd am bob 100,000 o blant gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2017 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a). Gan mai brasamcan yw ffigurau Lloegr, maen nhw'n cael eu cyflwyno i'r cyfanrif agosaf. Cyfrifwyd cyfraddau ar sail achosion yn ôl plentyn sy'n cynnwys y gorchymyn a enwyd h.y. mae 'Gofal' yn cynnwys ceisiadau / gorchymynion dilynol ar gyfer gofal; gofal a gwarcheidiaeth arbennig, a gofal a goruchwyliaeth.




Hefyd, mae anghysondeb yng Nghymru (Ffigur 18). Mae'n werth nodi bod cyfraddau'r ceisiadau am orchymynion gofal a'r gorchymynion sy'n deillio ohonynt yn uwch yn DFJ Caerdydd a'r De-orllewin, er bod y cyfraddau hynny wedi gostwng yn 2013 a 2015. Roedd y cyfraddau wedi gostwng yn DFJ Abertawe a'r De-ddwyrain rhwng 2013 a 2015, ac maen nhw wedi dechrau cynyddu eto. Mae amseriad y newidiadau hyn yn arwyddocaol am eu bod yn cyd-daro'n fras â phenderfyniadau *Re N* [2015] EWCA Civ 1112 a *Chyngor Medway v M and T* [2015] EWFC B164²⁵. Daeth y rhain ar ddiwedd cyfnod o bryder cynyddol ynglŷn â chamddefnydd gweithwyr cymdeithasol o adran 20 o Ddeddf Plant 1989/adran 76 o Ddeddf 2014 yng Nghymru. Yn sgil hynny aethpwyd ati i graffu'n fanylach ac arweiniodd hynny at gynnydd mewn trefniadau adran 20/adran 76 yn cael eu trosi'n geisiadau am orchymynion gofal interim; ac felly'r cynnydd mewn ceisiadau am orchymynion gofal (Stevenson, 2017).

Mae hyn hefyd yn debygol o fod yn ffactor sy'n cyfrannu at esbonio'r amrywiad ar draws y 3 DFJ yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bosib i'r meini prawf trothwy gael eu dehongli'n wahanol a/neu ar lefel llys teulu dynodedig mae disgwyliaid gwahanol o ran pa un a yw'r baich prawf wedi'i sefydlu. Gall y ffaith bod cefnogaeth deuluol ar gael mewn awdurdod lleol fod yn ffactor hefyd.

Yng Nghymru a Lloegr, ac ar draws y 3 DFJ, mae cyfradd y ceisiadau am orchymynion goruchwyllo (nad ydynt yn arwain at statws derbyn gofal) yn is na'r gyfradd ar gyfer gorchymynion sy'n deillio ohonynt. Mae hyn oherwydd bod cyfran uchel o orchymynion goruchwyllo wedi deillio o geisiadau am fathau eraill o orchymynion. Er enghraifft, yn 2017, ar draws Cymru a Lloegr, cyhoeddwyd 90.5% o'r gorchymynion goruchwyllo yn dilyn cais cychwynnol am orchymyn gofal. Roedd y gyfran ychydig yn uwch yng Nghymru - o'r 155 o geisiadau yng Nghymru a oedd wedi arwain at benderfyniad gan y llys teulu i gyhoeddi gorchymyn goruchwyllo, roedd 142 wedi dechrau fel cais am orchymyn gofal (91.6%). Yn Lloegr, amcangyfrifwyd bod y gyfran yn 90%.

²⁵ Yn achos *Cyngor Medway v M & T* (Gan Ei Gwarcheidwad Plant) [2015] EWFC B164 (13 Hydref 2015), roedd HHJ Lazarus wedi canfod bod *Cyngor Medway* wedi gweithredu'n anghyfreithlon drwy gymryd y plentyn heb ganiatâd y fam a oedd yn ddioddef anawsterau iechyd meddwl ac yn yr ysbyty. Ni chafodd y fam wybod lle'r oedd y plentyn am chwe mis ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r ysbyty.

Ffigur 18: Cyfraddau am bob 100,000 o Geisiadau am Orchymnion a'r Gorchymnion sy'n Deillio o'r Ceisiadau hynny yn ôl Plentyn: Gorchymnion Gofal a Goruchwylio



Ffynhonnell: PLATO (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019).
 Sylwer: Cyfrifwyd cyfraddau ar sail achosion yn ôl plentyn sy'n cynnwys y gorchymyn a enwyd h.y. mae 'Gofal' yn cynnwys ceisiadau / gorchymnion dilynol ar gyfer gofal; gofal a gwarcheidiaeth arbennig a gofal a goruchwyliaeth.

Nid yn unig y mae cyfradd y ceisiadau yn ôl plentyn sy'n cynnwys gorchmynion gofal yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr, felly hefyd y gyfradd drosi (h.y. cyfran y ceisiadau sydd wedi arwain at benderfyniad i gyhoeddi'r gorchymyn hwnnw, gan gynnwys lle digwyddodd hynny ar y cyd â gorchymyn arall) ar gyfer gorchmynion gofal (Tabl 9).

Tabl 9: Cyfran yr Achosion yn ôl Plentyn â Cheisiadau Gorchymyn Gofal sydd wedi Arwain at Orchmynion Gofal, yn ôl Blwyddyn Dechrau


	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Lloegr	54%	56%	58%	55%	53%	52%	54%	55%
Llundain	48%	45%	45%	38%	36%	39%	40%	36%
Canolbarth	61%	62%	64%	60%	60%	59%	63%	57%
Gogledd-ddwyrain	56%	55%	57%	56%	52%	60%	55%	63%
Gogledd-orllewin	61%	68%	69%	67%	65%	54%	64%	65%
De-ddwyrain Lloegr	49%	53%	55%	53%	49%	46%	50%	50%
De-orllewin Lloegr	45%	49%	51%	46%	50%	50%	47%	49%
Cymru	69%	72%	70%	72%	70%	72%	76%	77%
DFJ Gogledd Cymru	75%	78%	81%	78%	80%	74%	80%	81%
DFJ Abertawe a Gorllewin Cymru	75%	80%	70%	77%	69%	72%	70%	75%
DFJ Caerdydd a De-ddwyrain Cymru	64%	68%	67%	66%	68%	72%	77%	77%
Cymru a Lloegr	55%	57%	59%	56%	54%	53%	56%	56%

Ffynhonnell: PLATO (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019). Sylwer: Cyfrifwyd y cyfraddau trosi ar gyfer Lloegr drwy ystyried y gwahaniaeth yn y data ar gyfer Cymru a'r data ar gyfer Cymru a Lloegr. Cyfrifwyd cyfraddau ar sail achosion yn ôl plentyn sy'n cynnwys y gorchymyn a enwyd h.y. mae 'Gofal' yn cynnwys ceisiadau / gorchmynion dilynol ar gyfer gofal; gofal a gwarcheidiaeth arbennig a gofal a goruchwyliaeth.

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod gan Gymru gyfran uwch o achosion yn ôl plentyn â cheisiadau gorchymyn gofal sydd wedi arwain at orchymyn gofal na Lloegr, ac mae hynny'n wir ar gyfer pob blwyddyn y mae'r data ar gael ar ei chyfer. Mae'n werth nodi hefyd fod gan Gymru gyfradd drosi uwch ar gyfer gorchmynion gofal na phob un o'r rhanbarthau cyfansoddol yn Lloegr rhwng 2010 a 2017.

Hefyd, mae data ar gael yn ôl DFJ sy'n golygu y gellir ystyried y sefyllfa yng Nghymru dros yr un cyfnod (Ffigur 19). Mae hyn yn awgrymu bod y gyfradd drosi yn uwch o lawer yn DFJ Gogledd Cymru na'r ddwy ardal arall. Rhwng 2010 a 2017 cododd y gyfradd drosi o 75% i 81% yn DFJ Gogledd Cymru. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r gyfradd yn DFJ Abertawe a Gorllewin Cymru wedi amrywio fwyaf, ond ar hyn o bryd mae ar yr un gyfradd ag yn 2010, tra bod DFJ Caerdydd a De Ddwyrain Cymru wedi cynyddu o 64% i 77%.

Ffigur 19: Cyfran yr Achosion yn ôl Plentyn â Cheisiadau Gorchymyn Gofal sydd wedi Arwain at Orchmynion Gofal, yn ôl Blwyddyn Dechrau



Ffynhonnell: PLATO (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019). Sylwer: Cyfrifwyd y cyfraddau trosi ar gyfer Lloegr drwy ystyried y gwahaniaeth yn y data ar gyfer Cymru a'r data ar gyfer Cymru a Lloegr. Cyfrifwyd cyfraddau ar sail achosion yn ôl plentyn sy'n cynnwys y gorchymyn a enwyd h.y. mae 'Gofal' yn cynnwys ceisiadau / gorchmynion dilynol ar gyfer gofal; gofal a gwarcheidiaeth arbennig a gofal a goruchwyliaeth.

Ymddengys bod defnyddio gorchmynion goruchwyllo yn hytrach na thynnu'r plentyn o gartref y teulu yn is yng Nghymru, gyda dim ond 1.2% o achosion cais yn ôl plentyn yn cynnwys gorchmynion goruchwyllo o'i gymharu â thua 9% yn Lloegr. O'r rhanbarthau cyfansoddol, dim ond yng Ngogledd-orllewin Lloegr y mae cyfran is debyg (1.9%).

Math o Leoliad

Gall darparu amgylchedd diogel a gofalgar helpu plant sy'n derbyn gofal i oresgyn eu profiadau plentyndod cynnar. Felly, mae angen rhoi llety i blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliad sy'n briodol i'w hanghenion a'u hamgylchiadau unigol. Yn y DU, y duedd amlycaf a welwyd yw lleoli plant â theuluoedd maeth oherwydd ystyrir bod hynny'n cynnig sefydlogrwydd²⁶. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y rhai sy'n derbyn gofal gan berthynas. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill mae'r pwyslais yn wahanol yn y modelau gofal. Er enghraifft, mae Hart et al. (2015) wedi nodi bod 'English-speaking countries tend to place only a small proportion of their looked-after children in residential care compared with mainland Europe ... other countries such as Denmark, Germany and France, make much more use of part-time respite and shared care arrangements, with parents still actively involved in the child's care.' Mae'n gofyn y cwestiwn polisi: *Beth yw diben gofal preswyl?*. Ar hyn o bryd, mae gofal preswyl yn cael ei ddefnyddio'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, ar gyfer plant hŷn sy'n fwy cythryblus yn y system ofal. Felly, mae rhai pobl yn ystyried mai gofal preswyl yw'r dewis olaf. Er bod Hart et al. wedi canolbwyntio'n benodol ar ofal preswyl yn Lloegr, mae rhethreg debyg yng Nghymru.

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y gallai plant redeg i ffwrdd pan fyddan nhw'n teimlo nad oes ganddynt ddigon o reolaeth dros eu bywydau; pan maen nhw'n anhapus neu wedi diflasu yn eu lleoliad gofal, neu pan fyddan nhw'n dymuno dychwelyd at eu teuluoedd. Pan fydd plant yn mynd ar goll gall olygu eu bod yn agored i gam-drin corfforol, hudo a chamfanteisio rhywiol (Coffey and All Party Parliamentary Group for Runaway and Missing Children and Adults and All Party Parliamentary Group for Looked after Children and Care Leavers, 2012).

Mae llawer o blant yn symud i mewn ac allan o ofal dro ar ôl tro, neu rhwng lleoliadau. Yn 2017/18, roedd 28% (1,770 o blant sy'n derbyn gofal) wedi bod mewn dau leoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (Stats Cymru, 2018e). Nid yn unig mae angen darparu amgylchedd diogel a gofalgar, ond mae hefyd yn bwysig bod plant yn teimlo'n sefydlog oherwydd pan fydd lleoliadau yn chwalo gall gael effaith niweidiol ar les emosïynol ac iechyd meddwl plentyn. Gall hefyd eu rhwystro rhag llunio perthnasau sefydlog gyda'r oedolion a allai helpu i'w hamddiffyn (Rahilly and Hendry, 2014).

Bydd bron i ddwy ran o dair (64%) o'r plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn byw yng nghartref y teulu a bydd y plentyn a/neu ei rieni yn cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, yr awdurdod lleol fydd yn darparu llety i'r rhai sy'n derbyn gofal. Ar 31 Mawrth 2018, roedd 74% o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cael llety mewn

²⁶ Mae McCartan et al. (2018) yn nodi 'It is a requirement of the Children Act 1989, that local authorities consider kinship care before placements with unrelated carers for a number of reasons: (1) it is considered better to keep the child within the extended family; (2) in a setting which is probably familiar to the child; (3) the placement outcomes are often better; and (4) it is the most cost effective and time efficient placement option for a social worker.'


lleoliadau gofal maeth. Roedd y gweddill wedi'u lleoli'n bennaf gyda rhieni, mewn cartrefi plant diogel, cartrefi plant, hosteli neu wedi'u lleoli ar gyfer eu mabwysiadu. Roedd cyfran gymharol fach yn byw'n annibynnol neu mewn ysgolion preswyl (Ffigur 20).

Er bod cyfran y plant sy'n derbyn gofal sydd mewn lleoliadau maeth wedi bod yn gostwng ers 2011, mae'r cynnydd ym maint y cohort yn golygu bod y gwir niferoedd sy'n cael llety yn y ffordd hon wedi bod yn cynyddu ers 2014 (o 4,220 i 4,715, sy'n cyfateb i gynnydd o 11.7%).

Mae'r gyfran sy'n cael eu lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu gydag eraill â chyfrifoldeb rhiant hefyd wedi bod yn cynyddu, gyda mwy nag un o bob wyth (13.3%) o blant sy'n derbyn gofal yn cael llety yn y ffordd hon ar 31 Mawrth 2018. Mae gwir nifer y rhai sydd wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu gydag eraill â chyfrifoldeb rhiant wedi cynyddu 56% (o 545 yn 2014 i 850). Mewn cyferbyniad, mae nifer y rhai sy'n cael eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu wedi mynd i lawr, ond yn arafach - yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae'r nifer ar 31 Mawrth wedi gostwng 9.4% (o 265 i 240).


O'i chymharu â Lloegr, roedd y cyfrannau mewn lleoliadau maeth ac wedi'u lleoli ar gyfer eu mabwysiadu fwy neu lai'r un fath ar 31 Mawrth 2018. Fodd bynnag, roedd cyfran uwch yn cael eu lleoli gyda rhieni yng Nghymru (13.3% o gymharu â 6% yn Lloegr).

Ffigur 20: Lleoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth, 2014 i 2018



Ffynhonnell: SFR 112/2018 (Llywodraeth Cymru, 2018c). Nodiadau: Mae 'Arall' yn cynnwys cartrefi gofal preswyl, y GIG/Ymddiriedolaeth Iechyd neu sefydliadau eraill sy'n darparu gofal meddygol neu nyrsio, canolfan deuluoedd neu uned mam a babi, Sefydliad Troseddwyd Ifanc neu garchar, lleoliad yn anhysbys.

Ffigur 21: Lleoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth, Tueddiadau Hirdymor




Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, Stats Cymru (2018c). Sylwer: Nid yw'r mathau o leoliadau ar Stats Cymru wedi'u diweddarau hyd yma i adlewyrchu'r canllawiau diwygiedig ac felly maen nhw wedi'u grwpio yn wahanol yn yr adroddiad cyhoeddus o'i gymharu â'r ffordd maen nhw'n ymddangos ar Stats Cymru. Yn fras, mae 'Absennol neu arall' wedi'i gynnwys yn y categori 'Arall' ynghyd â'r rhai sy'n cael eu lleoli mewn 'Ysgolion preswyl'. Mae'r rhai sy'n cael eu lleoli mewn 'Cartrefi awdurdod lleol' a 'Cartrefi cofrestredig preifat neu wirfoddol' yn cael eu cynnwys yn y categori 'Unedau diogel, cartrefi plant, hosteli'.

Cartrefi Plant

Mae'r rhai sy'n byw mewn cartrefi plant, sydd naill ai'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol, ac wedi'u cofrestru'n breifat neu'n wirfoddol, yn cynrychioli llai na 5% (299 o blant) ar 31 Mawrth 2018. Serch hynny, mynegwyd pryder ynglŷn â chostau lleoli uwch ynghyd â gallu rhai cartrefi i ddiwallu anghenion y plant sy'n cael eu lleoli yno (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2018). Dechreuodd rhai awdurdodau lleol werthu eu darpariaeth – tuedd sydd wedi'i gwyrddroi erbyn hyn, er enghraifft yng Nghasnewydd ac mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru. Prif ddarparwr gofal preswyl yng Nghymru yw cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, ac mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol ers 2012. Er bod y niferoedd yn dal yn isel, mae nifer y plant sy'n cael llety mewn cartrefi plant cofrestredig preifat neu wirfoddol wedi cynyddu ers 2016. Mae'r ffaith bod y lleoliadau mewn cartrefi gofal sydd ar gael yn bell oddi wrth y teulu a/neu y tu allan i Gymru hefyd yn peri pryder. Nid oes modd ymchwilio i hyn oherwydd y ffordd mae'r data yn cael ei gyflwyno ar Stats Cymru, ond gwahaniaethir rhyngddynt â'r codau lleoli a ddefnyddir yng Nghyfrifiad LAC.

Ffigur 22: Lleoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth mewn Cartrefi Plant, Tueddiadau Hirdymor



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, Stats Cymru (2018c). Sylwer: Mae'r ffigurau hyn yn eithrio'r plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael llety ar gyfer seibiant.

Yn anffodus, nid oes modd edrych ar anghenion, nodweddion na statws cyfreithiol y plant sy'n cael llety mewn cartrefi plant (neu fathau eraill o leoliadau) o'r data cyfanredol sydd ar gael yn gyhoeddus. Fodd bynnag, mae dadansoddiadau data diweddar yn herio'r canfyddiad eang bod gofal preswyl yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol i gartrefu plant hŷn a phobl ifanc, Elliott et al. (2018). Mae'r gwaith hwn wedi darganfod bod 63% o'r lleoedd mewn gofal preswyl yn cael eu cymryd gan blant rhwng 13-17 oed adeg eu lleoli am y tro cyntaf. Dadleuir bod y ganran hon yn is nag y byddai llawer o ymarferwyr yn ei feddwl. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod cyfran sylweddol o blant yn yr ystod oedran hon mewn lleoliadau preswyl wedi cael profiad blaenorol o dderbyn gofal.


Mae'r data ynghylch y math o leoliad a gyflwynir ar Stats Cymru yn eithrio'r rhai mewn gofal am gyfnod byr/seibiant. Yn ôl y dadansoddiad a wnaed gan Data Cymru (2018), mae 40% o'r gwelyau sydd ar gael mewn cartrefi plant cofrestredig wedi'u lleoli mewn lleoliadau gofal tymor byr/seibiant ac anabledd yn unig. Yn genedlaethol, mae nifer y gwelyau cofrestredig mewn cartrefi gofal preswyl (ac eithrio seibiant/anabledd) yng Nghymru yn uwch na nifer y plant sy'n cael eu lleoli mewn gofal preswyl gan yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, ar lefel ranbarthol, mae'r boblogaeth plant sy'n derbyn gofal yn uwch yn rhanbarthau Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro na nifer y lleoedd therapiwtig ac arbenigol sydd ar gael mewn cartrefi plant yn y rhanbarthau hyn. Ar 31 Mawrth 2017, roedd mwy na 90 o welyau mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru wedi cael eu cymryd gan blant a oedd wedi cael eu lleoli gan awdurdodau y tu allan i Gymru (Data Cymru, 2018).

Gallai'r ffigurau gynnwys plant ar eu pen eu hunain dan 18 oed yn ceisio lloches lle mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu, fel rhan o broses ffurfiol o wneud penderfyniadau, y dylent dderbyn gofal er mwyn diogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Ystyrir eu bod yn cael llety drwy gytundeb gwirfoddol o dan adran 76 ac fel arfer maen nhw'n cael eu rhoi mewn gofal maeth neu breswyl.

Lleoliadau Maeth

Gall y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth gael eu lleoli gyda gofalwyr maeth cymeradwy sy'n berthynas neu'n gyfaill ("gofalwyr maeth sy'n berthnasau"), neu gyda gofalwyr maeth eraill ("gofalwyr maeth nad ydynt yn berthnasau"). Gall gofalwyr fod wedi'u lleoli o fewn yr awdurdod lleol neu'r tu allan iddo, gan gynnwys y tu allan i Gymru. Pan fydd y plentyn yn cael ei leoli gyda gofalwr maeth nad yw'n berthynas, gallai'r lleoliad fod gyda gofalwr a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu un a gomisiynir yn allanol drwy asiantaeth faethu annibynnol. Nid oes gan ofalwyr maeth gyfrifoldeb rhiant am y plentyn maen nhw'n gofalu amdano - os yw'r plentyn o dan orchymyn gofal, yr awdurdod lleol sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant gyda'r rhieni. Mae Ffigur 23 yn dangos sut mae proffil y math o leoliadau wedi newid dros amser.

Ffigur 23: Mathau o Leoliadau Maeth ar gyfer Plant sy'n Derbyngofal ar 31 Mawrth, Tueddiadau Hirdymor



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyngofal, Stats Cymru (2018g). Nodiadau: AFA – Asiantaeth Faethu Annibynnol, ALI – Awdurdod Lleol. Mae'r ffigurau hyn yn eithrio'r plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael llety ar gyfer seibiant.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd un o bob pedwar plentyn maeth yn byw gyda gofalwr maeth sy'n berthynas - sy'n cyfateb i bron un o bob pump o blant sy'n derbyn gofal (19%). Mae hyn yn cynnwys lleoliadau brys ac mewn argyfwng. Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011, amcangyfrifwyd bod tua hanner y gofalwyr 'sy'n berthnasau' yn deidiau a neiniau, ond gallent gynnwys perthnasau eraill fel brodyr a chwiorydd hŷn, modrybedd, ewythrod, yn ogystal â ffrindiau'r teulu a chymdogion (Grandparents Plus, 2016). Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn gwahaniaethu rhwng y trefniadau anffurfiol a wnaed gan rieni'r plentyn; pan fydd y plentyn yn destun Gorchymyn Trefniadau Plentyn (e.e. yn dilyn ysgariad) neu Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig; neu pan fydd y plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac yn cael ei leoli gyda gofalwyr maeth cymeradwy sy'n berthnasau.

Ystyrir bod gofal maeth gan berthynas yn fuddiol i'r plentyn am ei fod yn cael aros o fewn rhwydwaith y teulu. Mae tuedd hefyd i hyn olygu gwell sefydlogrwydd, a lle bo'n briodol, mae'r plentyn yn gallu cynnal perthynas ag aelodau'r teulu. Yn wir, mae'r adolygiad systematig a gynhaliwyd gan Winokur et al. (2014) wedi darganfod bod 'children in kinship foster care may do better than children in traditional [non-relative] foster care in terms of their behavioural development, mental health functioning and placement stability. Children in traditional foster care placements may do better with regard to achieving adoption and accessing services they may need.' Fodd bynnag, efallai bod y ffaith bod plant â llai o broblemau yn fwy tebygol o gael eu lleoli gyda gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn camystumio'r canfyddiad hwn.

Os yw'r lleoliad maeth sy'n berthynas yn un tymor hir ac nid oes bwriad i'r plentyn ddychwelyd at ei rieni, yna gall y gofalwr ystyried gwneud cais am Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig. Byddai hyn yn golygu na fyddai bellach yn blentyn sy'n derbyn gofal a byddai'r cymorth ariannol sydd ar gael i'r gofalwr hefyd yn newid.

Mae'r niferoedd sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth cymeradwy sy'n berthnasau bron wedi dyblu ers 2004 (o 625 i 1,200, cynnydd o 92%) a'r math hwn o leoliad maeth sydd wedi gweld y twf mwyaf yn y blynyddoedd diwethaf - mae'r nifer sy'n cael llety yn y math hwn o leoliad wedi cynyddu 39% yn y 5 mlynedd diwethaf. Er bod y mwyafrif (79%) yn cael eu lleoli gyda gofalwyr sy'n byw o fewn yr awdurdod lleol ("yn y sir"), mae tua un o bob pump yn cael eu lleoli gyda pherthnasau neu ffrindiau sy'n byw y tu allan i'r ffin ddaearyddol ("allan o'r sir") er y gallai o bosib fod yr awdurdod cyfagos.

Mae'r gyfran uchaf o blant yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth nad ydynt yn berthnasau, a ddarperir gan yr awdurdod lleol, yn y sir. Er bod bron i chwech o bob deg (59%) o blant maeth wedi cael llety fel hyn yn 2003, mae'r gyfran bellach wedi mynd i lawr i bron pedwar o bob deg (39%). Ond fe ddylid nodi bod y gwir niferoedd wedi gostwng 3% yn y 5 mlynedd diwethaf o 1,915 i 1,860. Mae'n werth nodi y gwelwyd mymryn o ostyngiad yn ystod yr un cyfnod yng nghyfran y plant sy'n cael eu lleoli gan awdurdodau lleol allan o'r sir gyda gofalwyr maeth nad ydynt yn berthnasau. Yn yr achos hwn mae'r gwir niferoedd wedi cynyddu 5% dros yr un cyfnod (o 325 i 340).

Rhwng 2014 a 2018, ychydig o newid net a welwyd yn y niferoedd a gafodd eu lleoli gyda gofawyr maeth nad ydynt yn berthnasau er gwaethaf maint cynyddol y cohort. Fodd bynnag, mae dwy duedd yn amlwg os ystyrir y tueddiadau tymor hwy. Maen nhw'n tynnu sylw at y ffaith bod y canlynol wedi digwydd dros y 15 mlynedd diwethaf:

- 1) Mae'r niferoedd sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau maeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol wedi cynyddu 12% (o 1,965 i 2,200) ond mae'r nifer sy'n cael eu lleoli gan asiantaethau maethu annibynnol wedi cynyddu 193% (o 450 yn 2004 i 1,320 ar 31 Mawrth 2018).
- 2) Er bod dwywaith gymaint o blant maeth yn cael eu lleoli yn yr ardal leol o'i gymharu â mannau eraill ar hyn o bryd, mae'r niferoedd sy'n cael eu lleoli gyda gofawyr maeth nad ydynt yn berthnasau ac sydd allan o'r sir wedi cynyddu yn gyflymach na'r niferoedd sy'n cael eu lleoli yn y sir - cynyddodd y niferoedd sy'n cael eu lleoli yn y sir 38% (o 1,740 i 2,405) a chynyddodd y rhai sy'n cael eu lleoli allan o'r sir 65% (o 675 i 1,115).

Mae'r newid o ran cydbwysedd rhwng lleoliadau maeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'r rhai sy'n cael eu trefnu drwy asiantaeth faethu annibynnol wedi peri pryder, a chyflwynwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2018) sy'n awgrymu mai'r gost flynyddol gyfartalog ar gyfer lleoliad awdurdod lleol yw £23,327 o'i gymharu â £43,378 ar gyfer lleoliad sy'n cael ei drefnu drwy asiantaeth faethu annibynnol. Er y cydnabyddir bod asiantaethau annibynnol yn aml yn cael eu defnyddio pan fydd gan blant anghenion ychwanegol neu pan fydd angen iddynt gael eu lleoli allan o'r sir, ac felly ni ddylid gwneud cymariaethau uniongyrchol, mae gwahaniaethau amlwg o ran costau.


Mae nifer y gofawyr maeth addas, yn enwedig ar gyfer y rhai ag anghenion arbenigol, wedi cyfrannu at ddefnyddio lleoliadau asiantaethau maethu annibynnol fwy a mwy, ynghyd â chynnydd yn nifer y rhai sy'n cael eu lleoli allan o'r sir a'r tu allan i Gymru. Gall y lwfansau sydd ar gael i ofalwyr hefyd amrywio, ac mae rhai asiantaethau maethu annibynnol yn cynnig 'croeso euraid' i annog gofawyr i adael eu cyngor.

Man Lleoli

Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith bod mwy a mwy o blant yn cael eu lleoli yn bell o'u cartrefi ac yn enwedig y tu allan i Gymru. Er bod rheswm da dros wneud hyn weithiau, er enghraifft pan fydd plentyn yn byw gyda pherthnasau mae mwy o gyfle i'r plentyn ddal gafael ar ei ymdeimlad o hunaniaeth, i rai sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal, bydd eu lleoli yn bell o'u cartref yn eu gwahanu oddi wrth eu teulu, eu cymuned, eu hysgol a'u ffrindiau. O ganlyniad i hynny, gallant eu cael eu hunain mewn amgylchedd diarth gyda diwylliant gwahanol ac o bosib iaith wahanol. Gall hefyd fod yn heriol i'r awdurdod lleol ddarparu'r cymorth gorau posib i blant o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n ddiweddar i ostwng (1) y niferoedd sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru a (2) y niferoedd sy'n cael eu lleoli 'y tu allan i'r sir'.

Ers 2007, mae nifer y rhai sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru (yn bennaf yn Lloegr) wedi aros yn weddol sefydlog, sef tua 5% o blant sy'n derbyn gofal (Ffigur 24). Ar 31 Mawrth 2018, roedd y 250 o blant a gafodd eu lleoli y tu allan i Gymru yn cynnwys 180 o blant mewn darpariaeth gofal maeth y tu allan i'r wlad.

Ffigur 24: Lleoliadau y Tu Allan i'r Wlad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, Stats Cymru (2019a). Sylwer: Mae'r ffigurau hyn yn eithrio'r rhai sy'n cael llety ar gyfer seibiant.

Crynodeb o'r Canfyddiadau: Polisi ac Ymarfer

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am osod y trothwyon maen nhw'n penderfynu gweithio arnynt gyda phlant agored i niwed, ac felly nhw sy'n gyfrifol am reoli'r galw am eu gofal cymdeithasol i blant. Serch hynny, nid ydynt yn gweithredu ar wahân, ac mae data PLATO yn awgrymu bod amrywiad hefyd o fewn y farnwriaeth. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cyfrannu at yr amrywiadau yng nghyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal rhwng yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn sgil y ffaith nad oes data ar lefel awdurdod lleol yn ymwneud â chyfradd y ceisiadau am orchmynion gofal a'r gorchmynion sy'n deillio o'r ceisiadau hynny yng Nghymru, mae'n anodd mesur i ba raddau mae'r gwahaniaethau hyn mewn polisi ac ymarfer yn cyfrannu at yr amrywiad yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad a gyflwynir yma yn awgrymu, o'i gymharu â Lloegr a'i rhanbarthau, nid yn unig fod cyfraddau'r ceisiadau am orchmynion gofal yn uwch ond mae'r gyfradd drosi i orchmynion gofal yn uwch hefyd. Yng Nghymru, mae gwahaniaethau yng nghyfraddau'r ceisiadau a throsi i orchmynion gofal hefyd yn awgrymu bod arferion yn amrywio ar draws y tair ardal DFJ.

Mae Cymru a Lloegr wedi gweld gostyngiad yn y niferoedd sy'n cael llety o dan gytundeb gwirfoddol sengl. Mae hyn yn cyd-daro â'r penderfyniad i graffu'n fanylach ar y defnydd o drefniadau adran 20/adran 76, sydd wedi arwain at gynnydd o ran y nifer sy'n cael eu trosi'n geisiadau am orchmynion gofal interim; a'r cynnydd mewn ceisiadau am orchmynion gofal yn sgil hynny.

Er bod damcaniaeth y gall amrywiad o fewn yr un awdurdodaeth fod wedi'i gysylltu'n rhannol â gwariant yn berthynol i'r alwad, ac felly'n adlewyrchu patrymau amddifadedd o bosib, nid yw'n rhywbeth y gellir ei fesur yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r data sydd ar gael. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y data ciplun, byddai'n ymddangos bod **y gyfran briodol o'r cohort sy'n derbyn gofal a chymorth ac sy'n derbyn gwasanaethau mwy dwys (h.y. sydd o fewn y cohort diogelu naill ai am eu bod yn derbyn gofal neu am eu bod ar y gofrestr amddiffyn plant) yn esbonio tua 19% o'r amrywiad o ran cyfraddau awdurdodau lleol.** Yr hyn sy'n arwyddocaol yw bod yr amrywiad y cyfrifir amdano yn gymharol isel, ac mae hynny'n amlygu cymhlethdod y mater hwn a'r ffaith bod sawl ffactor a all ryngweithio â'i gilydd yn wahanol ym mhob awdurdod lleol. Ymchwiliwyd i'r cysylltiad posib â lefelau amddifadedd - sy'n esbonio tua hanner yr amrywiad mewn cyfraddau (Ffigur 13). Fodd bynnag, o ystyried cyfyngiadau'r mesur a ddefnyddiwyd i wneud hyn, mae'n anodd profi na gwrthbrofi hyn.

Gan fod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu yng Nghymru, mae'r canlynol wedi digwydd:

- 1) Cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu lleoli gyda gofalywyr maeth (er bod cyfran y lleoliadau y mae'r rhain yn eu cynrychioli yn gostwng)
- 2) Yn fwy arwyddocaol cynnydd mewn lleoliadau gyda ffrindiau a theulu

Mae hyn yn digwydd yng nghyd-destun gostyngiad o 10% yn nifer y plant sy'n cael eu mabwysiadu.

Gallu i Fagu Plant

Mae'r gallu i fagu plant yn rhan allweddol o'r fframwaith asesu (Ffigur 1), ac mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i asesu plant y mae angen gofal a chymorth arnynt yn ychwanegol at, neu yn hytrach na'r cymorth a ddarperir gan eu teuluoedd²⁷. Mae dau fesur yn y Cyfrifiad CRCS yn darparu gwybodaeth ddangosol ynghylch y gallu i fagu plant. Mae'r prif categori

²⁷ Yn achos plant sy'n derbyn gofal, bydd hyn yn bennaf yn lle'r cymorth a ddarperir gan eu teuluoedd oherwydd bydd yr awdurdod lleol fel arfer wedi cael cyfrifoldeb rhiant am y plentyn dan orchymyn gofal. Os yw plentyn yn cael ei letya'n wirfoddol, mae'r rhieni'n cadw eu holl hawliau cyfreithiol, a gallant fynnu bod y plentyn yn dychwelyd ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, nid yw'r math yma o drefniant yn briodol os nad yw'r rhiant yn gallu rhoi caniatâd cwbl ddeallus neu os yw'r plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso i'r graddau y cyrhaeddir y meini prawf trothwy ar gyfer achosion gofal.

angen yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r plentyn adeg dechrau ei gyfnod gofal presennol, tra bo ffactorau rhieni yn rhoi amcan o'r materion sy'n cyfrannu at y gostyngiad yng ngallu'r rhieni i fagu plant.

Categori Angen

Mae gallu'r rhiant (neu'r gofalwr) i ymateb yn briodol i anghenion datblygu'r plentyn a'u hamddiffyn rhag niwed yn rhan annatod o'r rheswm pam y gallai fod angen i'r plentyn dderbyn gofal. Mae Tabl 9 yn crynhoi'r categori angen a gofnodwyd ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2018. Yn sgil y ffaith nad oes ond sgôp i gofnodi'r prif categori angen, mae risg sylweddol nad yw'n cynrychioli cymhlethdod amgylchiadau'r plentyn yn gywir adeg ei gyfnod gofal presennol. Gall fod anawsterau'n gysylltiedig â'r ffordd yr ystyrir ac y cofnodir yr 'angen'. Er enghraifft, efallai bod problemau ariannol gan deulu, sy'n dwysau dadleuon treisgar, ac weithiau mae'r rhain yn gwaethygu oherwydd bod un o'r rhieni yn yfed yn drwm - mae hyn wedi arwain o dro i dro at ymosodiad corfforol ar blentyn. Er bod ymarferwyr yn cytuno ynghylch presenoldeb problemau ariannol, anhrefn mewn teulu, cam-drin corfforol a dibyniaeth rhieni o bosib, mae'n anoddach penderfynu pa un o'r rhain yw'r 'prif' angen (Forrester et al., 2007).

Ledled Cymru, cofnodwyd mai prif angen dwy ran o dair (68%) o blant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2018 oedd cam-drin neu esgeuluso, gyda'r gyfran yn amrywio o 93% ym Mlaenau Gwent i 13% ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, mae'n anodd penderfynu i ba raddau mae hyn yn wahaniaeth 'go iawn', yn enwedig ar lefel awdurdod lleol lle gallai gwahaniaeth mewn ymarfer gyfrannu at wahaniaethau ymddangosiadol o ran cod.

Tabl 10: Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Categori Angen, 31 Mawrth 2018

Angen am Ofal a Chymorth	Disgrifiad	% o'r Cohort (n=6,100)
Cam-drin neu esgeuluso	Plant mewn angen yn sgil, neu mewn perygl o, gam-drin neu esgeuluso; hefyd mae'n cynnwys plant mewn perygl oherwydd cam-drin domestig	68.3
Anhrefn mewn teulu	Plant lle mae'r angen yn codi'n bennaf yn sgil byw mewn teulu lle mae'r gallu i fagu plant yn gwbl annigonol.	14.4
Teulu dan bwysau difrifol	Plant lle mae'r angen yn codi yn sgil byw mewn teulu sy'n mynd drwy argyfwng dros dro sy'n lleihau'r gallu i fagu plant i fodloni rhai o anghenion y plant yn ddigonol.	7.9
Anabledd neu salwch plentyn	Plant a'u teuluoedd lle mae'r prif angen am wasanaethau'n codi oherwydd anabledd, salwch neu gyflwr cynhenid y plentyn.	2.7

Anabledd neu salwch rhiant	Plant lle mae'r prif angen am wasanaethau'n codi oherwydd bod anabledd, salwch corfforol neu feddyliol, neu gaethiwed i sylweddau eu rhieni (neu ofalwyr) yn effeithio ar eu gallu i ofalu amdanynt.	2.4
Rhieni absennol	Plant lle mae'r angen am wasanaethau'n codi'n bennaf yn sgil y ffaith nad oes ganddynt rieni i ddarparu ar eu cyfer.	2.3
Ymddygiad annerbyniol yn gymdeithasol	Plant a'u teuluoedd lle mae'r angen am wasanaethau'n codi'n bennaf oherwydd bod ymddygiad y plentyn yn effeithio'n niweidiol ar y gymuned.	1.7
Amharu ar gamau mabwysiadu	Y prif reswm dros ddechrau'r cyfnod o dderbyn gofal oedd amharu ar gamau mabwysiadu.	0.2

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth lle mae statws y plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth, Stats Cymru (2019c).

Ffactorau Rhieni

O ystyried y pwyslais hollbwysig ar ddiogelu a hyrwyddo lles, mae rôl y rhiant (neu'r gofalwr) o ran magu'r plentyn yn rhan annatod o'r broses asesu, gyda'r meini prawf trothwy ar gyfer gorchymyn llys yn gosod y baich profi ar yr awdurdod lleol i sefydlu'r niwed neu'r tebygolrwydd o niwed y gellir ei briodoli i rieni'r plentyn.²⁸

Yn seiliedig ar y categorïau angen (Tabl 10), mae'n awgrymu bod o leiaf un o bob saith (14%, 880 allan o 6,100) o'r plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2018 wedi bod yn byw mewn teulu lle ystyriwyd bod y gallu i fagu plant yn gwbl annigonol ar ddechrau eu cyfnod gofal presennol. Roedd gallu i fagu plant rhieni 8% (480) o'r plant wedi'i leihau o ganlyniad i argyfwng dros dro. Roedd rhieni 2% (140) o'r plant yn absennol - bydd hyn yn cynnwys y rhai sy'n derbyn gofal o ganlyniad i fod yn blentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches. Fodd bynnag, gallai'r ffigurau hyn fod yn uwch gan mai dim ond y prif gategori angen sy'n cael ei gofnodi. Mae'n werth nodi bod cyfran uchel yn debygol o fod mewn perygl o niwed corfforol a/neu emosiynol o ganlyniad i ymddygiad eu rhieni e.e. cam-drin domestig neu gamddefnyddio sylweddau.

Mae'r Cyfrifiad CRCS yn cofnodi a oedd problemau magu plant penodol yn bresennol ar 31 Mawrth 2018 ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys y plant sy'n derbyn gofal. Mae Tabl 11 a Ffigur 25 yn crynhoi mynychder y materion magu plant hyn ymysg y cohort. Yr hyn sy'n arwyddocaol yw efallai bod ffactorau wedi bod yn bresennol yn ystod y cam atgyfeirio neu efallai eu bod wedi codi ers hynny gydag un neu fwy o ffactorau o

²⁸ Hefyd, gellir gofyn am orchmynion gofal pan ystyrir bod y plentyn y tu hwnt i reolaeth ei rieni - gweler tudalen 41 am ragor o fanylion.

bosib yn cael eu cofnodi ar gyfer pob plentyn. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu a yw'r rhiant yn hysbys i wasanaethau oedolion ac a ydynt yn cael cymorth ganddynt.


Tabl 11: Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Presenoldeb Ffactor Rhieni, 31 Mawrth 2018

Ffactor Rhieni	Disgrifiad	% o'r Cohort (n=6,100)
Salwch meddwl rhieni	Os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu ofalwyr broblem iechyd meddwl. Mae'n cynnwys problemau iechyd meddwl sydd wedi cael diagnosis gan ymarferwyr meddygol; problemau sy'n cael eu hunangofnodi; a rhieni sy'n derbyn gwasanaethau gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Mae'n cynnwys iselder; hunan-niweidio; ac anhwylderau bwyta. Nid yw'n cynnwys camddefnyddio sylweddau, ac anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig ac anabledau dysgu eraill.	37.2
Rhiant yn camddefnyddio sylweddau neu alcohol	Os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu ofalwyr broblem camddefnyddio sylweddau h.y. meddwdod yn sgil defnyddio - neu ddefnydd gormodol rheolaidd a/neu ddbyniaeth ar - sylweddau seicolegol, sy'n arwain at broblemau cymdeithasol, seicolegol, corfforol neu gyfreithiol. Mae'n cynnwys defnydd problematig o gyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon (gan gynnwys alcohol pan fydd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â sylweddau eraill).	36.3
Cam-drin Domestig	Os oes problemau cam-drin domestig gan un neu fwy o rieni neu ofalwyr y plentyn. Ystyr cam-drin domestig yw bygwth corfforol, rhywiol, seicolegol neu ariannol, trais neu fygwth trais sy'n digwydd o fewn perthynas agos neu deulu ac sy'n llunio patrwm ymddygiad sy'n cymhell neu'n rheoli. Gall gynnwys priodi dan orfod a'r hyn sy'n cael ei alw'n 'droseddau ar sail anrhydedd'.	29.4
Rhiant â salwch corfforol	Os oes problemau iechyd corfforol gan un neu fwy o rieni neu ofalwyr y plentyn sy'n effeithio ar eu gallu i ofalu am y plentyn.	12.5
Anabledau dysgu rhieni	Os oes nam ar weithrediad deallusol gan un neu fwy o rieni neu ofalwyr a hynny'n effeithio'n sylweddol ar eu datblygiad ac yn arwain at anawsterau o ran deall a defnyddio gwybodaeth, dysgu sgiliau newydd a'u gallu i fyw'n annibynnol.	11.1

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth lle mae statws y plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth, Stats Cymru (2019g).

Mae Ffigur 25 yn dangos bod gwahaniaethau amlwg rhwng y cyfrannau priodol gyda phob ffactor rhieni yn y cohort ehangach. Yn nodweddiadol, mae rhieni'r rhai yn y cohort plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd naill ai'n derbyn gofal neu ar y gofrestr amddiffyn plant yn fwy tebygol o fod â phroblemau camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl neu broblemau cam-drin domestig (neu gyfuniad o'r rhain o bosib) na'r rhai nad ydynt yn derbyn cymorth dwys o'r fath. Ychydig o wahaniaeth sydd yn y cyfrannau priodol o ran salwch corfforol rhieni, ond mae cyfran uwch o blant sy'n derbyn gofal â rhiant neu rieni ag anawsterau dysgu.

Ffigur 25: Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Presenoldeb Ffactor Rhieni a Statws Plentyn, 31 Mawrth 2018



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, Stats Cymru (2019g)

Anabledd neu Salwch Rhiant

Er bod anabledd neu salwch rhieni wedi'i gofnodi fel y prif gategori angen ar gyfer 2% o'r cohort ar ddechrau eu cyfnod gofal presennol (Tabl 9), mae'r wybodaeth ynghylch ffactorau rhieni (Tabl 9) yn awgrymu bod problemau iechyd meddwl gan un neu fwy o rieni mwy na thraean (37%, 2,270); roedd problemau iechyd corfforol un neu fwy o rieni un o bob wyth (12%) yn amharu ar eu gallu i ddarparu gofal a chymorth priodol i'r plentyn, ac roedd anawsterau dysgu gan un neu fwy o rieni bron un o bob naw (11%). Gan ganiatáu ar gyfer gorgyffwrdd posib rhwng y grwpiau hyn, mae'n awgrymu cyfran llawer uwch lle'r oedd anabledd neu salwch rhieni yn ffactor yn y penderfyniad i roi'r plentyn mewn gofal.

Dydy hyn ddim yn awgrymu bod pob rhiant ag anabledd neu iechyd gwael yn methu gofalu am eu plentyn/plant yn briodol. Fodd bynnag, mae rhai teuluoedd yn elwa ar gael cymorth ychwanegol gan y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn ymateb yn briodol i anghenion eu

plentyn. Ar ben hynny, mae'n bwysig cofio bod y cohort ehangach yn cynnwys gofalwyr ifanc a fydd â chynllun cymorth os ydynt yn darparu gofal i rywun arall.

Dim ond gwahaniaeth bach ond arwyddocaol sydd yn y cyfrannau priodol lle'r oedd salwch corfforol rhieni yn broblem ymysg y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi aros gyda'r teulu (h.y. y rhai ar y gofrestr amddiffyn plant ac 'arall') a'r rhai sy'n blant sy'n derbyn gofal - 10.3% o'i gymharu â 12.5% (Cymhareb Tebygolrwydd (OR) = 1.17 gyda chyfwng hyder (CI) o 95% sef 1.06 i 1.30)²⁹.

Pan mae rhieni yn dioddef salwch meddwl a'r plentyn yn derbyn gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2018, mae 44% yn fwy tebygol o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal (OR = 1.44, 95% CI: 1.34, 1.54) na chael ei gynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant neu arall.

Os oes gan un neu fwy o'r rhieni anabledau dysgu a'r plentyn yn derbyn gofal a chymorth, yna mae bron i dair gwaith yn fwy tebygol o gael llety gan yr awdurdod lleol ac felly derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn lle eu rhiant/rhieni (OR = 2.80, 95% CI: 2.47, 3.18). Er bod y gwir niferoedd yn isel - roedd 1,100 o blant yn derbyn gofal a chymorth pan oedd gan un neu fwy o'u rhieni anawsterau dysgu ar 31 Mawrth 2018, ac roedd 675 ohonynt yn derbyn gofal - un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw lleihau nifer y plant sy'n cael eu tynnu i ffwrdd o'u teuluoedd am fod gan eu rhieni anabledau dysgu.

Cam-drin Domestig

Y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, ond nad ydynt yn derbyn gofal, yw'r rhai sydd mwyaf tebygol o fod mewn cartrefi â cham-drin domestig (42%). Fodd bynnag, nodwyd bod un neu fwy o rieni un o bob pedwar (26%) o'r holl blant sy'n derbyn gofal a chymorth yn dioddef problemau cam-drin domestig. Nid oes modd canfod yn y data cyhoeddedig i ba raddau y mae salwch meddwl rhieni a/neu rieni'n camddefnyddio sylweddau hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu.

Pan mae plentyn yn dioddef cam-drin domestig ac yn derbyn gofal a chymorth, mae 29% yn fwy tebygol o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal yn hytrach nag aros yng nghartref y teulu (OR = 1.29, 95% CI: 1.20, 1.38). Fodd bynnag, dylid nodi, oherwydd y perygl o niwed, lle mae rhieni'n dioddef problemau cam-drin domestig, bod y plentyn dros ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn y cohort diogelu (OR = 2.09, CI% 95: 1.94, 2.24) na chael cymorth llai dwys.

²⁹ Mae'r canlyniadau'n cael eu trafod yn nhermau cymarebau tebygolrwydd yn y fan hon. Mae'r gymhareb tebygolrwydd yn dangos sut mae newidiadau yn y newidyn annibynnol (presenoldeb mater magu plant yn yr achos hwn) yn dylanwadu ar siawns y "digwyddiad". Yn yr achos hwn, y "digwyddiad" yw i'r plentyn "dderbyn gofal". Mae cymarebau tebygolrwydd sy'n uwch nag 1 yn dangos perthynas gadarnhaol (h.y. yn fwy tebygol o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal os yw'r ffactor rhieni yn bresennol), ac mae cymarebau tebygolrwydd sy'n is nag 1 yn dangos perthynas negyddol (h.y. yn llai tebygol o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal os yw'r ffactor rhieni yn bresennol). Po agosaf y gymhareb tebygolrwydd i 1, y lleiaf yw effaith y newidyn annibynnol. Mae'r cyfwng hyder wedi'i gynnwys gan ei fod yn rhoi syniad o ba mor sicr y gallwn ni fod nad oedd y canlyniad hwn wedi digwydd ar hap. Yn yr achos hwn, mae'r cyfwng hyder o 95% yn awgrymu y gallwn fod 95% yn hyderus bod y gymhareb tebygolrwydd rhwng y terfyn isaf a'r terfyn uchaf.

Rhieni sy'n Camddefnyddio Sylweddau neu Alcohol

Nodwyd bod un neu fwy o rieni ychydig dros draean o'r plant sy'n derbyn gofal (36%) â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Mae hyn yn cymharu â thua un o bob pump (22%) o'r rhai sydd wedi aros yng nghartref y teulu ond sy'n derbyn gofal a chymorth gan rieni yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol. Pan mae gan un neu fwy o rieni broblem camddefnyddio sylweddau neu alcohol, mae'r plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth bron ddwywaith yn fwy tebygol o dderbyn gofal (OR = 1.98, 95% CI: 1.85, 2.12).

Mae Tabl 12 yn crynhoi pa mor debygol fydd plentyn o dderbyn gofal pan fydd ffactorau rhieni yn bresennol o gymharu â phlant eraill sy'n derbyn gofal a chymorth gan gynnwys y rhai ar y gofrestr amddiffyn plant. Nid oes modd cyfrifo o'r data cyhoeddedig pa mor debygol yw plentyn o dderbyn gofal pan fydd mwy nag un ffactor rhieni yn bresennol.

Tabl 12: Cymarebau Tebygolrwydd ar gyfer bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal pan fydd Ffactorau Rhieni yn Bresennol, o'i Gymharu â Phlant Eraill sy'n Derbyn Gofal a Chymorth

Ffactor Rhieni	Cymhareb Tebygolrwydd	Cyfwng Hyder o 95%
Anableddau dysgu rhieni	2.80	2.47, 3.18
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau neu alcohol	1.98	1.85, 2.12
Salwch meddwl rhieni	1.44	1.34, 1.54
Cam-drin domestig	1.29	1.20, 1.38
Salwch corfforol rhieni	1.24	1.13, 1.37

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, yn ôl Statws y Plentyn a Phresenoldeb Ffactorau Rhieni (Stats Cymru, 2019g).

Beth yw'r cysylltiad rhwng y 'Triawd Sbarduno' a chyfradd y plant sy'n derbyn gofal?

Y triawd gwenwynig, bellach y 'triawd sbarduno' (ADCS, 2018) yw cyfuniad o:

- Trais a cham-drin domestig yn y cartref
- Rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau (alcohol neu gyffuriau)
- Rhieni â phroblemau iechyd meddwl

Gall pob un o'r materion hyn gael effaith niweidiol ar les a chanlyniadau plant: gweler er enghraifft Cleaver et al. (2011). Mae cyfraniad y rhain at allu oedolion ag un neu fwy o'r problemau hyn i fagu plant - ac ymatebion cysylltiedig ymarferwyr rheng flaen - wedi'i nodi fel prif sbardun y cynnydd mewn llwythi achosion gwasanaethau plant a nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal (ADCS, 2016).

Yn ddiweddar, mae Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr wedi ceisio amcangyfrif nifer yr achosion o'r 'triawd sbarduno' a materion cysylltiedig mewn aelwydydd â phlant yn y

boblogaeth gyffredinol (Chowdry, 2018). Er bod nifer o gyfyngiadau yn gysylltiedig â'r darn hwn o waith, yn arbennig am ei fod yn seiliedig ar ddata o astudiaeth sampl gyfyngedig, mae'n awgrymu yn Lloegr bod tua 0.9% o'r holl blant sydd mewn cartref lle mae'r oedolyn yn wynebu pob un o'r 'trawd sbarduno' i raddau difrifol, tra bod 3.6% mewn aelwyd lle mae'r oedolyn yn wynebu'r problemau 'trawd sbarduno' i raddau cymedrol/difrifol. Wrth gymhwyso'r amcangyfrifon hyn i Gymru awgrymir y gallai fod 22,600 o blant yng Nghymru yn byw mewn aelwydydd lle mae oedolyn yn dioddef pob un o'r tri mater hyn i raddau cymedrol i ddifrifol, gyda 5,700 arall yn byw gydag oedolyn sy'n dioddef pob un o'r tri mater i raddau helaeth. I roi hyn mewn persbectif, mae ychydig dros 16,000 o blant yn derbyn gofal a chymorth ar draws Cymru ar hyn o bryd.

O safbwynt diogelu, mae peidio â gwybod faint o achosion o gamddefnyddio sylweddau a thrais domestig sydd yn y boblogaeth gyffredinol yn ei gwneud hi'n anodd pennu nid yn unig y galw posib am wasanaethau oedolion sy'n cefnogi'r rhai sy'n dioddef y problemau hyn, ond hefyd nifer y plant a allai fod mewn perygl o niwed neu beidio â chael cefnogaeth ddigonol ar gyfer eu hanghenion datblygu o ganlyniad i ddiffygion yng ngallu'r rhieni i fagu plant. Mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r effaith niweidiol y gall y mathau hyn o faterion ei chael ar blant bellach yn golygu bod ystod o gyrrff statudol a gwirfoddol yn ymgysylltu'n fwy gweithredol â gweithgareddau diogelu ac adnabod y rhai sydd mewn perygl. Mae hyn yn amlwg o'r newidiadau ym mhatriau ffynonellau cyfeirio, gyda niferoedd cynyddol o atgyfeiriadau nawr yn dod drwy'r Heddlu, Iechyd Sylfaenol/Cymuned ac adrannau eraill yr awdurdod lleol neu awdurdod lleol arall (Stats Cymru, 2018b).

Nid yw'r nifer fach o awdurdodau lleol yng Nghymru yn addas ar gyfer modelu cadarn³⁰. Fodd bynnag, bu'n bosib ystyried y berthynas rhwng pob un o'r ffactorau rhieni a chyfradd y plant sy'n derbyn gofal ar lefel awdurdod lleol. Mae hyn yn awgrymu bod y canlynol yn wir o ran cyfran y plant sy'n derbyn gofal:

- Mae cael un neu fwy o rieni â salwch meddwl yn cyfrif am 25% ($R^2 = 0.25$) o'r amrywiad yng nghyfraddau cyfrifedig 2018; ac
- mae dioddef problemau cam-drin domestig yn cyfrif am 21% ($R^2 = 0.21$) o'r amrywiad


Mae hyn yn golygu nad oes modd egluro 75% a 79% o'r amrywiad gyda'r ffactorau hyn. Oherwydd nad oes modd llunio model atchweliad lluosog traddodiadol yn sgil y nifer fach o awdurdodau, nid yw'r ffigurau'n gronnu ac nid yw'n bosib pennu effaith rhyngweithio rhwng y ddau ffactor hyn, nac unrhyw un o'r ffactorau rhieni eraill yn y tabl.

Mae defnyddio'r data cyhoeddiedig yn golygu nad yw'n bosib edrych ar gyfran y plant ym mhob awdurdod lleol sy'n dioddef un neu fwy o'r 'trawd sbarduno'. Fel procsi, penderfynwyd

³⁰ Ni argymhellir atchweliad lluosog ar gyfer samplau bach. Er enghraifft, mae Stevens (a ddyfynnwyd yn Pallant, 2013) yn argymhell 'for social science research about 15 participants per predictor are needed for a reliable equation'.

ar 'sgôr triawd sbarduno' sy'n crynhoi canran y plant sy'n derbyn gofal ac sy'n dioddef cam-drin domestig, gyda salwch meddwl a rheni yn camddefnyddio sylweddau ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol (gweler Atodiad 2 am fanylion). Mae Ffigur 26 yn dangos bod cydberthynas gadarnhaol rhwng y sgôr a chyfraddau awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal yn 2018.

Ffigur 26: Cyfradd Plant sy'n Derbyn Gofal, 2018 o'i chymharu â'r Sgôr Triawd Sbarduno



Ffynhonnell: Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth lle mae statws y plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi cael ei ddefnyddio i benderfynu'r gyfradd am bob 10,000 (Stats Cymru, 2019d) ynghyd ag amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2017 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a). Ffactorau rhieni wedi'u cymryd o Stats Cymru (2019g).

Nodiadau: Mae'r 'Sgôr Triawd Sbarduno' wedi'i chyfrifo fel swm y canran o blant sy'n dioddef pob un o'r tri ffactor rhieni. Felly, y cyfartaledd ar draws Cymru yw 102 (h.y. swm 37% gyda rhiant â salwch meddwl; 29% yn dioddef cam-drin domestig a 36% gyda rhiant â phroblemau camddefnyddio sylweddau).

Mae'r 'sgôr triawd sbarduno' yn cyfrif am 24% ($R^2 = 0.24$) o'r amrywiad yng nghyfraddau 2018 o blant sy'n derbyn gofal. Nid yw'n glir i ba raddau y gellir ei gysylltu â mynychder y materion hyn o fewn y boblogaeth leol a/neu'r ffordd mae'r awdurdodau lleol yn ymateb i'r angen hwn.

Crynodeb o'r Canfyddiadau: Gallu i Fagu Plant

Mae'r gwaith gan ADCS (2018) yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn Lloegr yn ystyried mai effaith, a chynnydd mewn ffactorau sy'n effeithio ar y gallu i fagu plant, yw un o'r heriau mwyaf yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, sy'n aml yn arwain at waith hynod gymhleth i

unioni diffygion wrth fagu plant. Mae'n werth nodi eu bod yn tynnu sylw at y ffaith bod cam-drin domestig – y ffactor rhieni mwyaf cyffredin yr adroddir amdano yng Nghymru a Lloegr, yn ffactor amlwg wrth ailgyfeirio plant at y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, ac adroddwyd bod cyfran uchel o rieni â salwch meddwl gwael yn sgil effeithiau cronus tlodi. Rhagwelir bod y sefyllfa yng Nghymru yn debyg, er ei bod hi'n anodd mesur i ba raddau y mae hyn yn effeithio ar awdurdodau lleol unigol gan ddefnyddio'r ffynonellau ystadegol yn yr adroddiad hwn.

Mae modelu'r ffactorau rhieni yn awgrymu bod cyfran y plant sy'n derbyn gofal ac sy'n dioddef salwch meddwl rhieni yn cyfrif am 25% o'r amrywiad yng nghyfraddau'r awdurdodau lleol; mae'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig yn cyfrif am 21% o'r amrywiad. Fodd bynnag, mae'r ffaith mai dim ond 22 awdurdod lleol sydd yng Nghymru yn golygu nad yw'n bosib amcangyfrif yr amrywiad a esbonnir gan fwy nag un ffactor rhiant (neu ffactor arall).

Felly, mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adran hon yn ceisio canfod rôl ffactorau rhieni, ac yn enwedig y 'triawd sbarduno', yn gysylltiedig â'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru gan ddefnyddio mesur crai (yn seiliedig ar adio cyfrannau'r plant sy'n derbyn gofal gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl a cham-drin domestig). **Mae'r 'sgôr triawd sbarduno' dilynol yn cyfrif am tua 24% o'r amrywiad yng nghyfraddau awdurdodau lleol ar 31 Mawrth 2018.** Rhagwelir y gellid gwneud asesiad mwy cywir gan ddefnyddio'r data lefel unigol oherwydd byddai'n caniatáu i'r mesur gael ei fireinio. Er enghraifft, byddai'n bosib pennu cyfran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth, wedi'i ddadansoddi yn ôl statws y plentyn, ym mhob awdurdod lleol lle mae'r rhiant/rhieni yn wynebu un neu fwy o'r triawd sbarduno. Fel arall, gellid defnyddio cyfran y plant lle mae pob un o'r tri ffactor rhieni yn bresennol adeg eu rhoi mewn gofal.

Gan nad yw nifer y ffactorau magu plant amrywiol yn hysbys o fewn y boblogaeth gyffredinol, mae'n anodd amcangyfrif faint o blant a all fod mewn perygl o gael eu niweidio neu eu cam-drin. Fodd bynnag, pan welwyd bod gan blentyn gynllun gofal a chymorth ac felly ei fod yn derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, mae'r tebygolrwydd iddynt gael llety gan yr awdurdod lleol yn hytrach na derbyn y cymorth hwnnw tra byddant yn byw yng nghartref y teulu yn uwch os oes gan y rhiant anabledau dysgu neu broblemau camddefnyddio sylweddau (Tabl 12).

Mae'r gwahaniaethau o ran yr amrywiad a esbonnir gan y ffactorau rhieni perthnasol a'r cymarebau sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd y bydd plentyn yn derbyn gofal yn hytrach na derbyn cymorth tra bydd yn aros yn ei gartref, yn arwydd o wahaniaethau mewn ymarfer a'r risg sy'n gysylltiedig â phresenoldeb y ffactorau priodol. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig ag argaeledd darpariaeth i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu'r anawsterau hyn yn yr ardal leol a'r gyllideb sydd ganddynt i ddarparu gwasanaethau ataliol priodol ac amserol. Mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru (2018b) wedi cyhoeddi arian ychwanegol i ehangu'r gwasanaethau i gefnogi teuluoedd a lleihau'r angen i roi plant mewn gofal, ynghyd ag arian ychwanegol i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau (Llywodraeth Cymru,

2018a). Mae'r rhain yn cynrychioli buddsoddiad newydd i ehangu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan.

Er bod y pwyslais yma wedi bod ar niwed posib mewn teulu, mae'n bwysig nodi bod terminoleg newydd wedi dod i'r amlwg dros y ddwy flynedd diwethaf, fel 'diogelu cyd-destunol' fel modd o ddeall ac ymateb i brofiadau pobl ifanc o niwed sylweddol y tu allan i'w teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys ecsbloetiaeth gan gangiau troseddol a grwpiau troseddau cyfundrefnol fel llinellau cyffuriau; masnachu; camfanteisio rhywiol a dylanwad eithafiaeth sy'n arwain at radicaleiddio (ADCS, 2018). Nid ydym eto'n deall i ba raddau y mae hyn yn effeithio ar blant yng Nghymru, ac yn enwedig ar lefel leol.

Adnoddau

Ar draws Cymru a Lloegr, mae'r cyfraddau cynyddol uchel o blant sy'n derbyn gofal yn rhoi straen sylweddol ar adnoddau awdurdodau lleol ar adeg pan fyddant yn cael anawsterau â goblygiadau cyfnod hir o galedi a chyflwyno camau i ad-drefnu nawdd cymdeithasol. Mae nifer o adroddiadau sydd wedi ceisio deall achosion yr amrywiad yn y galw rhwng yr awdurdodau lleol yn Lloegr, ac mae'r rhain yn canolbwyntio'n benodol ar adnoddau sy'n berthnasol i'r cyd-destun yng Nghymru:

- *Making Sense: Understanding the drivers of variation in spend in Children's Services*, a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (Lum and Tregidgo, 2018)
- *Public spending on children in England: 2000 to 2020*, a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Plant (Kelly et al., 2018)
- Mae Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2019) hefyd yn ystyried *Pressure on children's social care*, ynghyd â'r galw a'r gweithgarwch, a'r ymatebion cenedlaethol ac o fewn awdurdodau lleol yn ei adroddiad.

Yng Nghymru, mae WLGA and ADSS Cymru (2018) wedi canfod pedwar maes allweddol lle gwelir pwysau sylweddol mewn perthynas â'r gwasanaethau plant yng Nghymru:

1. **Gofynion a chymhlethdodau allanol:** Mae mwy o bwysau ar deuluoedd yn sgil ad-drefnu nawdd cymdeithasol a degawd o galedi. Mae gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus ac adrodd am achosion o gam-drin posib, effaith tlodi ac amddifadedd ar deuluoedd a diffyg arian i helpu teuluoedd yn gynnar cyn i broblemau waethygu oll yn cyfrannu at hyn. Mae gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion fel Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chynnydd yn nifer y mentrau sydd wedi'u hanelu at adnabod ac ymyrryd yn gynnar fel y gwaith ar sail tystiolaeth mewn perthynas â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

2. **Lleoliadau:** Mae natur fwy cymhleth achosion a'r niferoedd cynyddol o blant sy'n cael eu rhoi mewn gofal yn cael effaith negyddol ar nifer y lleoliadau priodol sydd ar gael, yn ogystal â chost lleoliadau. Mae poblogaeth gofalwyr maeth sy'n heneiddio a chostau cynyddol darparu gofal preswyl yn cael effaith sylweddol ar y sector.
3. **Deddfwriaeth a gweithio gyda'r Llysoedd:** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am ofal, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n destun achosion gofal. Mae disgwyliadau cynyddol gan ddyfarniadau cyfreithiol yn creu amgylchedd heriol.
4. **Gweithlu:** Mae trosiant a chyfraddau swyddi gwag uchel yn herio gwaith cymdeithasol plant a theuluoedd yn ogystal â dibyniaeth ar staff asiantaeth, gyda'r galw am weithwyr parhaol a phrofiadol yn fwy na'r cyflenwad.

Roedd yr adran flaenorol yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflwyno dadansoddiad yn ymwneud â materion galw, ac mae'r adran hon yn ystyried lefel a dosbarthiad y gwariant sydd ar gael i ymateb i'r galw hwn. Felly, mae'n defnyddio'r adroddiadau y cyfeiriwyd atynt uchod i roi cyd-destun i'r sefyllfa yng Nghymru pan fo hynny'n bosib, ac i grynhoi tueddiadau yn yr amrywiad rhwng gwariant awdurdodau lleol yn benodol ar blant sy'n derbyn gofal.


Tueddiadau o ran Gwariant

Yn 2017-18, cyfanswm y gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd³¹ ar draws Cymru oedd £613.1 miliwn. O'i gymharu â 2013-14, mae cyfanswm y gwariant net ar wasanaethau plant a theuluoedd wedi cynyddu 15.5% - sy'n cyfateb i £82.1 miliwn ychwanegol. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 15.8% (cynnydd o £38.7 miliwn) tra bo gwariant ar waith cymdeithasol gan gynnwys swyddogaethau amddiffyn plant wedi cynyddu 13.1% (cynnydd o £12.7 miliwn).

Y costau mwyaf sylweddol o ran gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal yw gwasanaethau maethu a gofal preswyl, yna gwasanaethau i gynorthwyo plant sy'n gadael gofal. Yn arbennig, yn 2017-18 roedd y gwariant ar wasanaethau maethu yn cyfateb i 42.4% o'r gwariant ar blant sy'n derbyn gofal (£120.4 miliwn allan o £631.1 miliwn). Roedd hyn yn cyfateb i 19.6% o'r gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd. Er bod y gwariant ar ofal preswyl yn llai nag £82.1 miliwn, roedd hyn yn dal i gyfateb i 28.9% o'r gwariant ar blant sy'n derbyn gofal (13.4% o'r gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd).


³¹ Mae hyn yn cynnwys gwariant ar y gwasanaethau a ganlyn: Canolfannau Plant / Dechrau'n Deg a'r blynyddoedd cynnar; plant sy'n derbyn gofal; gwasanaethau plant a theuluoedd eraill, cyfiawnder ieuencid, gwasanaethau diogelu plant a phobl ifanc, ceiswyr lloches, a gwasanaethau i bobl ifanc. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn ymwneud â gwariant yn 2017-18.

Ffigur 27: Cyfanswm y Gwariant ar Wasanaethau Plant a Theuluoedd gyda Gwariant ar Wasanaethau Plant sy'n Derbyng Gofal a Gwaith Cymdeithasol (£ miliwn)



Ffynhonnell: Mae'r holl wariant cyfredol net ar wasanaethau plant a theuluoedd, 2017-18 yn seiliedig ar gasgliad alldro referniw Stats Cymru (2018h).

Ffigur 28: Cyfanswm y Gwariant ar Wasanaethau Plant sy'n derbyn Gofal gyda Gwariant ar Wasanaethau Maethu a Gofal Preswyl (£ miliwn)



Ffynhonnell: Mae'r holl wariant cyfredol net ar wasanaethau plant a theuluoedd, 2017-18 yn seiliedig ar gasgliad alldro referniw Stats Cymru (2018h).

Nid yw'r cynnydd yn y gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal rhwng 2013-14 a 2017-18 wedi cael ei ddsbarthu'n unffurf ar draws y gwasanaeth. Fel cyfran, y cynnydd yn y gwariant ar ofal preswyl sydd wedi cyfrannu fwyaf at y cynnydd net yn y gwariant ar blant sy'n derbyn gofal dros y 5 mlynedd ddiwethaf, gyda'r gwariant yn cynyddu o £69.5 miliwn yn 2013-14 i £82.1 miliwn yn 2017-18. Mae hyn yn cyfateb i wariant ychwanegol o £12.6 miliwn. Er bod y gwariant ar wasanaethau maethu yn gyfran fwy o'r gwariant ar blant sy'n derbyn gofal, mae'r cynnydd yn y gwariant (£7.9 miliwn yn ychwanegol o gymharu â 2013-14) yn gyfran is o'r cynnydd net na gofal preswyl. Y meysydd gwariant eraill sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd net yn y gwariant ar blant sy'n derbyn gofal yw cymorth gwarchodaeth arbennig (gwariant wedi cynyddu o £6.6 miliwn i £12.8 miliwn), a gwasanaethau eraill ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (o £11.4 miliwn i £17.3 miliwn).

Tabl 13: Newid mewn Gwariant Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn ôl Awdurdod Lleol (2013-14 i 2017-18) (£ miliwn)

	Cyfanswm gwasanaethau plant a theuluoedd			Cyfanswm gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal			Gwasanaethau Maethu			Gofal Preswyl		
	2013-14	2017-18	% newid	2013-14	2017-18	% newid	2013-14	2017-18	% newid	2013-14	2017-18	% newid
Ynys Môn	7.5	13.4	77.7	4.0	6.1	50.5	1.5	2.9	89.4	1.9	2.6	40.7
Gwynedd	18.9	21.0	10.8	8.5	7.8	-7.4	3.5	3.6	4.3	2.8	2.3	-17.8
Conwy	14.2	15.4	9.0	5.5	7.3	33.7	2.7	3.9	43.1	1.5	1.9	23.7
Sir Ddinbych	11.9	14.2	19.0	4.0	5.3	34.1	2.8	2.7	-3.1	0.4	1.6	294.7
Sir y Fflint	19.9	23.7	18.9	8.6	10.2	18.6	4.4	2.8	-36.8	2.1	5.3	150.8
Wrecsam	21.0	25.3	20.4	7.8	9.1	16.4	2.7	2.4	-13.0	3.6	3.9	9.3
Powys	18.6	24.6	32.2	8.3	10.5	26.9	4.3	3.5	-18.2	2.0	5.0	149.6
Ceredigion	9.8	10.5	6.8	4.4	3.5	-19.0	1.9	1.7	-10.7	0.7	0.2	-76.3
Sir Benfro	15.6	17.0	8.8	5.5	5.5	-0.3	2.4	2.3	-4.9	1.1	0.7	-34.3
Sir Gaerfyrddin	23.8	27.4	14.8	7.7	8.5	9.9	3.2	3.4	6.4	1.9	2.4	24.8
Abertawe	53.9	50.4	-6.5	27.4	25.0	-8.6	8.4	8.9	6.3	12.0	8.4	-29.8
Castell-nedd Port Talbot	36.1	33.0	-8.6	17.2	14.0	-18.5	10.7	8.8	-17.3	3.2	2.4	-26.2
Pen-y-bont ar Ogwr	28.8	29.2	1.5	14.8	14.6	-1.8	9.7	8.5	-12.1	3.0	3.6	19.0
Bro Morgannwg	18.2	20.9	14.7	9.7	10.6	9.3	3.0	3.7	23.2	3.9	2.5	-35.5
Caerdydd	62.9	74.6	18.6	34.9	44.0	26.2	15.5	20.9	34.7	11.5	10.5	-8.1
Rhondda Cynon Taf	55.4	60.3	8.8	26.2	28.4	8.2	12.5	12.6	1.2	8.4	8.9	6.4
Merthyr Tudful	14.8	16.0	8.5	6.9	7.2	4.5	4.4	3.8	-14.9	0.6	1.2	120.6
Caerffili	29.1	37.1	27.7	11.2	18.5	64.4	6.6	6.5	-1.7	1.4	4.8	231.8
Blaenau Gwent	14.0	16.4	38.1	6.2	10.0	60.1	3.7	5.0	38.1	0.6	3.0	367.5
Torfaen	16.5	23.9	45.0	9.1	12.6	38.7	1.4	4.0	195.4	3.5	2.9	-15.5
Sir Fynwy	10.5	15.6	48.0	4.5	7.8	73.2	2.3	3.3	42.6	0.5	1.8	259.4
Casnewydd	29.5	40.3	36.7	13.1	17.7	35.2	5.2	5.3	3.5	2.8	6.1	119.5
Cymru	531.0	613.1	15.5	245.3	284.0	15.8	112.5	120.4	7.0	69.5	82.1	18.2

Ffynhonnell: Mae'r holl wariant cyfredol net ar wasanaethau plant a theuluoedd, 2017-18 yn seiliedig ar gasgliad alldro referniw Stats Cymru (2018h).

Nid yw'r dosbarthiad wedi bod yr un fath yn ddaearyddol ychwaith. O ran gwariant cyffredinol ar wasanaethau plant a theuluoedd, dim ond dau awdurdod lleol a welodd ostyngiad rhwng 2013-14 a 2017-18: roedd lefel gwariant Abertawe wedi gostwng 6.5% tra bo Castell-nedd Port Talbot wedi gweld gostyngiad o 8.6% (Tabl 12). Mae pob un o'r awdurdodau eraill wedi gweld cynnydd, gyda'r cynnydd mwyaf o ran gwariant ar Ynys Môn (77.7%), tra bo gwariant Torfaen wedi cynyddu 45% a gwariant Sir Fynwy wedi cynyddu 48%.

Gwelodd chwe awdurdod - Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Gwynedd, Sir Benfro, Abertawe a Pen-y-bont ar Ogwr - ostyngiadau yn eu gwariant ar blant sy'n derbyn gofal. O'r rhain, gwelodd Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro ostyngiad yn eu gwariant ar ofal preswyl a gwasanaethau maethu. Sir Fynwy a welodd y cynnydd mwyaf yn y gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal (+73.2%), gyda'u gwariant ar ofal preswyl yn cynyddu 259%. Gwelodd Caerffili gynnydd o 64.4% yn eu gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal ac roedd cynnydd o 60.1% ym Mlaenau Gwent hefyd, gyda'r ddau awdurdod lleol yn gweld cynnydd sylweddol yn eu gwariant ar ofal preswyl. Yn yr awdurdodau lleol eraill, mae nifer wedi gweld cynnydd sylweddol o ran faint sy'n cael ei glustnodi ar gyfer gofal preswyl a/neu wasanaethau maethu.

Cafodd y gwariant ar leoliadau ei ystyried fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2018) a nododd y pwyllgor fod newidiadau mewn dosbarthiad yn gallu cael effaith ar y darlun dros amser. Yn Lloegr yn sicr, mae gwaith gan Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2019) yn nodi bod amrywiadau sylweddol rhwng awdurdodau lleol gwahanol o ran 'cyfraddau diogelu' a chostau eu gwasanaethau, ond nad oes cysylltiad rhwng y gwariant am bob plentyn mewn angen a safon y gwasanaethau. Ond, mae Bywaters and Webb (2018) yn dadlau yn erbyn hyn ar sail eu dadansoddiad o ddyfarniadau Ofsted yn y 40% awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yn Lloegr o'u cymharu â'r 40% lleiaf difreintiedig. Maen nhw'n dadlau bod awdurdodau lleol sydd â lefelau isel o amddifadedd yn gwario llai gan fod llai o angen, ac mae'r fformiwla gyllido yn cydnabod hyn. Felly mae angen edrych ar lefel y gwariant mewn perthynas â'r galw sy'n wynebu awdurdodau lleol, gan ddadlau bod eu dadansoddiad yn awgrymu nad yw'r gwariant ychwanegol mewn awdurdodau lleol difreintiedig yn ddigon erbyn hyn. Yn arbennig, maen nhw'n tynnu sylw at y ffordd y mae awdurdodau lleol sy'n brin o arian wedi ymateb i lymder ers 2010 gyda thoriadau sylweddol i wasanaethau cefnogi teuluoedd a helpu'n gynnar tra bod gwariant ar blant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau diogelu wedi cynyddu.

Nid oes dadansoddiad cyfatebol wedi cael ei gynnal yng Nghymru ar ansawdd gwasanaethau. Ond, mae'r WLGA and ADSS Cymru (2018) wedi cyfrifo fod cyllid grantiau craidd awdurdodau lleol wedi lleihau 22% ers 2010 ar ôl ystyried chwyddiant (os yw ysgolion yn cael eu hepgor, mae cyllid craidd wedi lleihau o 35%). Mae CLILC ac ADSS Cymru yn credu bod y cyfyngiad hwn ar gyllid awdurdodau lleol yn cael effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaethau ataliol gyda'r arian prin sydd ar gael gan awdurdodau lleol yn cael ei ddefnyddio er mwyn darparu cymorth brys i blant a rhieni sydd eisoes mewn argyfwng. Dim ond ychydig iawn sydd ar ôl i'w fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar.

Y berthynas rhwng amddifadedd a'r gost o ddarparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal

Yn 2017-18, roedd y gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd yn cyfateb i £975.88 am bob plentyn³² oedd yn byw yng Nghymru sef cynnydd o £133.26 am bob plentyn 0-17 oed o gymharu â 2013-14. Mae gwaith a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn seiliedig ar ddata awdurdodau lleol Lloegr yn nodi pum peth sy'n gyrru gwahaniaethau yn y gwariant y pen ar wasanaethau cymdeithasol i blant, gyda'r Mynegai Amddifadedd Incwm sy'n Effeithio ar Blant (IDACI) yn dangos mai amddifadedd oedd y ffactor mwyaf sylweddol. Wrth gael ei fodelu ochr yn ochr â'r pedwar ffactor arall (maint poblogaeth 0-25, incwm gwario aelwydydd, lefelau diweithdra a lefelau troseddu), ychydig dros 50% o'r gwahaniaeth mewn gwariant oedd yn cael ei ddisgrifio gan y model. Dydy modelu cyfatebol ddim yn bosib yng Nghymru oherwydd mai nifer fechan o awdurdodau lleol sydd yno. Ond, mae Tabl 13 yn rhoi crynodeb o'r mesurau sy'n achosi'r gwahaniaeth a chanlyniadau'r gwaith o archwilio'r perthnasoedd hyn yng Nghymru.

O ystyried bod perthynas wedi'i chanfod rhwng amddifadedd a gwariant y pen yn Lloegr, mae'r berthynas hon wedi cael ei harchwilio hefyd er mwyn darganfod a oes mwy o wariant yn yr awdurdodau sydd â mwy o amddifadedd. Yn absenoldeb mesur o awdurdodau lleol fel yn Lloegr, maen nhw wedi defnyddio cyfran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yr awdurdod lleol sydd yn un o'r 20% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol³³. Mae defnyddio'r mesur hwn yn awgrymu mai **ychydig yn llai na 60% o'r gwahaniaeth yn y gwariant y pen ar wasanaethau plant a theuluoedd sy'n gallu cael ei esbonio gan amddifadedd** (Ffigur 29). Mae gan hyn oblygiadau o ran polisïau ac ymarfer oherwydd mae dadansoddiad gan Centre for Cities (2019) wedi canfod mai'r tlotaf sydd wedi ysgwyddo baich y toriadau yng ngwariant y cyngor a bod gwahaniaethau rhwng y ddinas a chefn gwlad o ran y gwariant ar wasanaethau.

³² Dilynydd y llwybr hwn gan Lum R and Tregidgo L. (2018) Making sense understanding the drivers of variation in spend on children's services. London: Local Government Association. Ond, penderfynasant ddefnyddio'r boblogaeth 0-25 fel dynodydd. Er bod y gwariant ar Wasanaethau Plant a Theuluoedd a nodir fel rhan o'r casgliad alldro refeniw ar Stats Cymru yn cynnwys gwariant ar wasanaethau i gynorthwyo plant sy'n gadael gofal a gwasanaethau eraill sy'n parhau ar ôl 18 oed, roedden nhw'n teimlo y byddai'r boblogaeth 0-17 yn fesur mwy priodol gan fod gan nifer o awdurdodau Cymreig boblogaeth sylweddol o fyfyrwyr. Mae'r ystod oedran hon yn cyd-fynd a'r diffiniad o blentyn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.


³³ Er mwyn cael darlun llawn, cafodd y berthynas ei hystyried gan ddefnyddio'r trothwyon 10%, 20% a 30% uchaf i benderfynu faint o'r gwahaniaeth y maen nhw'n ei esbonio mewn perthynas â gwariant y pen ar wasanaethau plant a theuluoedd yng Nghymru. Ym mhob achos, mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod awdurdodau lleol sydd â mwy o amddifadedd yn dueddol o wario mwy y pen.

Tabl 14: Materion sy'n Gyrru Gwahaniaethau yng Ngwariant Awdurdodau Lleol ar Wasanaethau Plant a Theuluoedd

Ffactor	Cyfeiriad Cydberthynas (Lloegr)	Set ddata a ddefnyddiwyd i greu Adroddiad CLIL (Lloegr)	Canfyddiadau Cymru	
Amddifadedd	Mae lefelau uwch o amddifadedd yn gysylltiedig â gwariant uwch	Set Ddata'r Mynegai Amddifadedd Lluosog: Mynegai Amddifadedd Incwm sy'n Effeithio ar Blant – Sgôr Cyfartalog	Does dim mesur cyfatebol wedi'i bennu yng Nghymru	? – dim data
Maint y boblogaeth 0-25 oed	Mae poblogaeth uwch o unigolion 0-25 oed yn gysylltiedig â gwariant is	Poblogaethau disgwylidig gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Does dim tystiolaeth bod perthynas linellol rhwng maint y boblogaeth leol 0-25 neu 0-17 oed â'r mesur priodol o wariant y pen	* - dim tystiolaeth bod y berthynas yn bodoli
Incwm gwario aelwydydd	Mae incwm gwario uwch yn gysylltiedig â gwariant uwch	Incwm Gwario Gros Aelwydydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol Am bob preswlydd	Yng Nghymru, mae'r gwariant ar bob plentyn yn lleihau wrth i gyfartaledd incwm gwario aelwydydd gynyddu. Mae hyn yn groes i'r patrwm a nodwyd gan Bywaters et al (2016a)	* - mae'n ymddangos mai'r gwrthwyneb sy'n wir
Lefelau diweithdra	Mae diweithdra uchel yn gysylltiedig â gwariant uwch	Set Ddata'r Mynegai Amddifadedd Lluosog: Sgôr Cyfartalog ar gyfer Gwaith	Mae diweddariadau blynyddol ar gael ar gyfer y dangosydd hwn yn MALIC. Mae defnyddio'r rhain yn awgrymu bod y gwariant yn uwch mewn awdurdodau lleol sydd â chyfran uwch o'u trigolion oed gweithio yn derbyn budd-daliadau diweithdra	✓ - yr un berthynas
Lefelau trosedd	Mae lefelau troseddu uwch yn gysylltiedig â gwariant uwch	Set Ddata'r Mynegai Amddifadedd Lluosog: Trosedd – cyfran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% isaf o ran troseddu yn genedlaethol	Mae'r maes cyfatebol yn MALIC 2014 wedi'i lunio gan ddefnyddio dangosyddion gwahanol. Ond, mae lefelau troseddu uwch yn gysylltiedig â gwariant uwch yng Nghymru	✓ - yr un berthynas

Wedi'i addasu o Lum and Tregidgo (2018)

Ffigur 29: Gwariant y Pen ar Wasanaethau Plant a Theuluoedd o'i gymharu â MALIC 2014



Ffynhonnell: Mae'r holl wariant cyfredol net ar wasanaethau plant a theuluoedd, 2017-18 yn seiliedig ar gasgliad alldro referniw Stats Cymru (2018h). Mae cyfran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) sydd yn y 20% mwyaf difreintiedig yn seiliedig ar MALIC 2014 Stats Cymru (2018i).


Mae'n amlwg fod awdurdodau gwledig yn tueddu i fod â lefelau is o amddifadedd nag ardaloedd trefol. Fel y gwelir yn Ffigur 19, maen nhw'n tueddu i fod â chyfran isel o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 20% mwyaf difreintiedig, ynghyd â gwariant y pen gweddol isel. Yr eithriad yw Powys ble gallai natur wledig iawn y sir effeithio ar gost darparu gwasanaethau.

Er bod amddifadedd yn esbonio cyfran sylweddol o'r gwahaniaeth yng ngwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau plant a theuluoedd, ynghyd â'r ffactorau demograffiaidd ac economaidd a nodir uchod, rydym yn rhagweld fod gwahaniaethau mewn polisïau ac ymarfer lleol yn cyfrannu at ac yn peri bod angen gwahaniaethau yng nghyfran y gwariant ar blant sy'n derbyn gofal ac ar y gofrestr amddiffyn plant.

Fel y nodwyd, yn 2017-18 roedd 46.3% o'r gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal. Ond, roedd y gyfran hon yn amrywio o 31% yn Sir Gaerfyrddin i 59% yng Nghaerdydd. Fel y gwelir yn Ffigur 30, mae'r awdurdodau lleol sydd â lefelau uwch o amddifadedd yn dueddol o glustnodi cyfran uwch o'u gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd i wasanaethau plant sy'n derbyn gofal. Ond, **nid yw amddifadedd yn esbonio'r cyfan o ran y gwahaniaeth yng nghyfran gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau plant a theuluoedd sy'n cael ei glustnodi i wasanaethau plant sy'n derbyn gofal ($R^2 = 0.28$ sef 28%)**. O'i gyfuno â'r canfyddiad bod 59% o'r amrywiad yng ngwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau plant a theuluoedd yn

gallu cael ei esbonio gan amddifadedd, gallai hyn ddangos bod gwahaniaethau yn y ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r galw yn sgil adnoddau cyfyngedig.

Ffigur 30: Gwariant ar Wasanaethau Plant sy'n Derbyngofal fel Cyfran o'r Gwariant ar Wasanaethau Plant a Theuluoedd o'i gymharu â MALIC 2014



Ffynhonnell: Yr holl wariant cyfredol net ar wasanaethau plant a theuluoedd a chyfanswm y gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal, 2017-18 o gasgliad alldro referniw Stats Cymru (2018h). Mae cyfran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) sydd yn y 20% mwyaf difreintiedig yn seiliedig ar MALIC 2014 (Stats Cymru, 2018i).

I ddeall yn iawn y gwahaniaeth yng ngwariant awdurdodau lleol ar blant sy'n derbyn gofal, byddai angen cyfrifo'r gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal am bob plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'r ffigur hwn yn debygol o fod yn uwch na'r ffigur sy'n seiliedig ar y gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd wedi'i rannu â nifer y plant. Ond, gan mai dim ond data am gyfnod byr sydd ar gael yn hytrach nag am y flwyddyn gyfan, does dim modd cyfrifo hyn yng Nghymru. O gyfrifo ffigur o'r fath, byddai hefyd angen cymryd i ystyriaeth am ba hyd yr oedd y plentyn yn derbyn gofal, gan y bydd hyn yn amrywio'n sylweddol.

O ystyried y cysylltiadau sylweddol â gwasanaethau eraill (e.e. addysg; ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol o fewn gwasanaethau cymdeithasol/iechyd oedolion; a phlisma) byddai angen i asesiad cywir o'r gost o ddarparu gwasanaethau gofal a chefnogi plant sy'n derbyn gofal gymryd i ystyriaeth yr holl adnoddau ariannol perthnasol.

Crynodeb o'r Canfyddiadau: Adnoddau

Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae'r gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd yng Nghymru wedi cynyddu 15.5% ac yn 2017-18 roedd yn £613.1 miliwn. O'r swm yma, mae 46.3% yn cael ei wario ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal (£284 miliwn). Yng Nghymru, mae amrywiaeth fawr yng nghyfran y gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd sy'n cael ei glustnodi i wasanaethau plant sy'n derbyn gofal. Mae'r awdurdodau lleol sydd â lefelau uwch o amddifadedd yn dueddol o fod â gwariant uwch y pen ar wasanaethau plant a theuluoedd yn ogystal â gwariant penodol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal.

Cynigwyd nifer o resymau am y cynnydd yn y gwariant ar wasanaethau cymdeithasol i blant yn Lloegr. Er nad oes modd modelu pob un o'r rhain gan ddefnyddio'r data sydd ar gael ar gyfer Cymru, mae'n ymddangos bod amddifadedd o fewn awdurdod lleol yn cyfrif am oddeutu 60% o'r gwahaniaeth yn y gwariant. Ond, dydy amddifadedd ddim ond yn esbonio tua 28% o'r gwahaniaeth yng nghyfran y gwariant ar wasanaethau plant a theuluoedd sy'n cael ei glustnodi i wasanaethau plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r gwariant ar leoliadau yn gyfran sylweddol o'r gwariant ar blant sy'n derbyn gofal. O'r £284 miliwn a wariwyd ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal yn 2017-18, roedd 42% ohono ar wasanaethau maethu (cynnydd o 7% dros y 5 mlynedd ddiwethaf ledled Cymru) a 29% (£82.1 miliwn) ar ofal preswyl. Yn arbennig, mae'r swm sy'n cael ei wario ar ofal preswyl wedi cynyddu 18.2% ers 2013-14. Mae'r costau ychwanegol hyn yn adlewyrchu cymhlethdod cynyddol yr achosion a'r nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal, ynghyd ag effaith gofalywr maeth sy'n heneiddio a chostau cynyddol darparu gofal preswyl.

Argymhellion ar gyfer Dadansoddiad Pellach

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei greu er mwyn ysgogi trafodaeth am y ffactorau sy'n cyfrannu at y cyfraddau gofal uchel yng Nghymru ac am y rhesymau posib dros y gwahaniaethau yng nghyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, cyfyngedig yw i ba raddau y gellir gwneud hyn gyda'r data sydd ar gael yn gyhoeddus – rhywbeth y mae posib mynd i'r afael ag o drwy edrych ar ddata sylfaenol y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth.

Er bod data PLATO yn galluogi i wahaniaethau gael eu mesur o ran cyfraddau'r ceisiadau am orchmynion gofal a'r gorchmynion gofal sy'n deillio o'r ceisiadau, mae'r data diweddaraf yn dyddio o 2016. O ganlyniad, nid yw'n adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a ddaeth yn sgil Deddf 2014, ac nid yw'n adlewyrchu newidiadau diweddarach i arferion yn sgil craffu pellach ar y defnydd o drefniadau adran 76 (Cymru) ac adran 20 (Lloegr). Ond, o'r data sydd ar gael mae'n glir fod gan Gymru gyfradd uwch o geisiadau am orchmynion gofal a chyfradd uwch o orchmynion gofal yn deillio o'r ceisiadau hynny. Nid yw'r rhesymau am hyn yn glir ac maent yn haeddu ymchwiliad pellach.

Wrth geisio deall pam mae gwahaniaethau yng Nghymru, a deall i ba raddau y gellir eu priodoli i wahaniaethau mewn polisïau ac ymarfer sy'n ymwneud â'r triawd sbarduno, gellid gwneud hyn yn well drwy ddefnyddio'r data lefel unigol. Yn yr un modd, mae posib ymchwilio i rôl amddifadedd drwy ystyried defnyddio cod post cyfeiriad blaenorol y plentyn cyn eu cyfnod presennol mewn gofal – byddai hyn yn parhau â'r gwaith a wnaed gan y Child Welfare Inequalities Project ac yn adeiladu ar waith ymchwil doethuriaeth Martin Elliott. Byddai dadansoddiad o'r fath yn rhoi darlun cliriach o'r rhesymau dros y gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol o ran cyfraddau o blant sy'n derbyn gofal. Ond, er mwyn deall y ffyrdd amrywiol y mae galw, cyflenwad a chyllid yn rhyngweithio â pholisïau ac ymarfer, mae angen dull gweithredu sy'n llai 'du a gwyn'. Mae'r dadansoddiad sy'n edrych ar y gwahaniaethau yn y cyfrannau penodol o fewn y cohort diogelu yn awgrymu bod gwahaniaethau yn y trothwyon ar gyfer dechrau gweithio gyda theulu/plentyn, ac o bosib ar gyfer rhoi plentyn mewn gofal. Nid oes perthynas glir ag amddifadedd. Ond, bydd yr adnoddau a'r galw yn lleol yn cael effaith ar flaenoriaethau a gallu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ataliol a gwasanaethau cyrion gofal.

Mae data ciplun, er o flynyddoedd dilynol yn cyfyngu ar faint o ddadansoddi y gellir ei wneud mewn perthynas â gwariant ar blant sy'n derbyn gofal. Er bod ymdrechion wedi edrych ar wariant y pen o boblogaeth y plant lleol, nid oes modd cael ffigur ar gyfer y gwariant am bob plentyn sy'n derbyn gofal. Hyd yn oed pe bai cyfartaledd yn cael ei gyfrifo, ni fyddai'n cymryd i ystyriaeth cymhlethdodau sefyllfa pob plentyn unigol na natur y cymorth y maen nhw ei

angen. Byddai hefyd angen ystyried ffactorau fel y math o leoliad a hyd eu harhosiad, ynghyd â natur eu hanghenion, gan ychwanegu at gymhlethdod ymarfer o'r fath.

Y gobaith yw y bydd y dadansoddiad a gyflwynir yn y papur hwn yn llywio trafodaethau gydag awdurdodau lleol, y farnwriaeth ac ymarferwyr a fydd yn golygu bod y ffactorau cyfrannol posib yn gallu cael eu harchwilio.

Cyfeiriadau

- ADCS. (2016) Safeguarding Pressures Phase 5. Manchester: The Association of Directors of Children's Services Ltd.
- ADCS. (2018) Safeguarding Pressures Phase 6. Manchester: The Association of Directors of Children's Services Ltd.
- BBC. (2008) *Care cases 'soaring after Baby P'*. Cyrchwyd o: <http://newsvote.bbc.co.uk/1/hi/uk/7745497.stm>.
- BBC. (2018) *County Lines: Why drug phenomenon has hit Wales so hard*. Cyrchwyd o: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-44127068>.
- Bilson A. (2017) *The Government's Adoption Drive isn't Achieving Its Aims*. Cyrchwyd o: <https://www.communitycare.co.uk/2017/02/09/the-governments-adoption-drive-isnt-doing-what-it-set-out-to-do/>.
- Bilson A a Munro EH. (2019) Adoption and child protection trends for children aged under five in England: Increasing investigations and hidden separation of children from their parents. *Children and Youth Services Review* 96: 204-211.
- Bywaters P, Brady G, Sparks T, et al. (2014) Identifying and Understanding Inequalities in Child Welfare Intervention Rates: Comparative Studies in Four UK Countries. Prifysgol Coventry: Sefydliad Nuffield.
- Bywaters P, Bunting L, Davidson G, et al. (2016) The relationship between poverty, child abuse and neglect: an evidence review. Llundain: Sefydliad Joseph Rowntree.
- Bywaters P, Scourfield J, Jones C, et al. (2018) Child welfare inequalities in the four nations of the UK. 0: 1468017318793479.
- Bywaters P a Webb C. (2018) *There is clear evidence that links deprivation, expenditure and quality in children's services*. Cyrchwyd o: <https://www.communitycare.co.uk/2018/02/07/clear-evidence-links-deprivation-expenditure-quality-childrens-services/>.
- Cafcass Cymru. (2019) *Ceisiadau Adran 31 - Ebrill 2008 i Ionawr 2019*. Cyrchwyd o: <https://beta.gov.wales/cafcass-cymru-section-31-applications>.
- Centre for Cities. (2019) *Cities Outlook 2019*. Cyrchwyd o: <https://www.centreforcities.org/publication/cities-outlook-2019/>.
- Child Welfare Inequalities Project. (2017) Identifying and Understanding Inequalities in Child Welfare Intervention Rates: Comparative studies in four UK countries. Briefing Paper 2: UK Four Country Quantitative Comparison. Coventry: Sefydliad Nuffield a Prifysgol Coventry.
- Chowdry H. (2018) Estimating the Prevalence of the 'Toxic Trio': Evidence from the Adult Psychiatric Morbidity Survey. Llundain: Comisiynydd Plant Lloegr
- Cleaver H, Unell I a Algate J. (2011) *Children's Needs - Parenting capacity child abuse: Parental mental illness, learning disability, substance misuse, and domestic violence (2nd Edition)*. Llundain: The Stationary Office.
- Coffey A a'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Blant ac Oedolion sydd wedi Rhedeg i Fwrdd neu sydd Ar Goll a'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal ac sy'n Gadael Gofal. (2012) Report from the joint inquiry into children who go missing from care. Llundain: All Party Parliamentary Group (APPG) for Runaway and Missing Children and Adults. Llundain: Senedd y DU
- Cordis Bright. (2013) Research on differences in the looked after children population. Llundain: Cordis Bright.
- Data Cymru. (2018) Profile of Residential Care in Wales. Caerdydd: Data Cymru.
- Yr Adran Addysg (2018) *Children looked after in England (including adoption), year ending 31 March 2018*. Cyrchwyd o: <https://www.gov.uk/government/statistics/children-looked-after-in-england-including-adoption-2017-to-2018>.
- Yr Adran Iechyd. (2018) Children's Services Statistics for Northern Ireland, 2017/18.
- Elliott M. (2017) "Looked-after" children in Wales: An analysis of the backgrounds of children entering public care. *Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd.

- Elliott M a Scourfield J. (2017) *Identifying and Understanding Inequalities in Child Welfare Intervention Rates: Comparative studies in four UK countries. Single country quantitative study report: Cymru*. Cyrchwyd o: <https://www.coventry.ac.uk/globalassets/media/global/08-new-research-section/wales-country-report-final-for-web.docx>.
- Elliott M, Staples E a Scourfield J. (2018) The characteristics of children and young people in residential care in Wales. *Child Care in Practice* 24: 317-330.
- Forrester D, Fairtlough A a Bennet Y. (2007) Describing the needs of children presenting to children's services: issues of reliability and validity. 2: 48-59.
- Grandparents Plus. (2016) *Kinship Care: State of the Nation 2016 Report*. Llundain: Grandparents Plus.
- Hart D, La Valle I a Holmes L. (2015) *The place of residential care in the English child welfare system*. Llundain: Yr Adran Addysg
- Jay MA, Woodman J, Broadhurst K, et al. (2017) *Who cares for children? Population data for family justice research*. Cyrchwyd o: <http://wp.lancs.ac.uk/observatory-scoping-study/files/2017/10/FJO-NATIONAL-DATA-SCOPING-FINAL.pdf>.
- Kelly E, Kee T, Sibieta L, et al. (2018) *Public Spending on Children in England: 2000 to 2020*. Llundain: Comisiynydd Plant Lloegr
- Lum R a Tregidgo L. (2018) *Making sense understanding the drivers of variation in spend on children's services*. Llundain: Cymdeithas Llywodraeth Leol.
- McCartan C, Bunting L, Bywaters P, et al. (2018) *A Four-Nation Comparison of Kinship Care in the UK: The Relationship between Formal Kinship Care and Deprivation*. *Social Policy and Society* 17: 619-635.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018) *Children in Family Justice Data Share: The Public Law Applications to Orders (PLATO) Tool*. London: Ministry of Justice.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019) *The Public Law Applications to Orders (PLATO) Tool*. Cyrchwyd o: https://public.tableau.com/profile/moj.analysis#!/vizhome/ChildreninFamilyJusticePublicLawApplicationstoOrdersTool_0/FrontPage.
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. (2018a) *Adroddiad Blynyddol 2017-18*. Caerdydd: Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. (2018b) *Adolygiad Canol y Flwyddyn 2018/19*. Caerdydd: Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2019) *Pressures on children's social care*. Llundain: Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.
- Oakley M, Miscampbell G and Gregorian R. (2018) *Looked-after children: The Silent Crisis*. Llundain: Sefydliad y Farchnad Gymdeithasol.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2018a) *Estimates of the population for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland*. Cyrchwyd o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland>.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2018b) *Regional population estimates for England and Wales, 1971 to 2017*. Cyrchwyd o: <https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland/mid2001tomid2017detailedtimeseries/regionpopulationestimatesforenglandandwales19712017.xlsx>.
- Pallant J. (2013) *SPSS Survival Manual (5th Edition)*, Maidenhead: Open University Press.
- Payne RA a Abel GA. (2012) UK indices of multiple deprivation - a way to make comparisons across constituent countries easier. *Health Statistics Quarterly* 53: 1-16.
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. (2018) *Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Rahilly T a Hendry E. (2014) *Promoting the wellbeing of children in care: messages from research*. Llundain: NSPCC.
- Llywodraeth yr Alban. (2018a) *Children's Social Work Statistics, 2016-17*. Cyrchwyd o: <https://www.gov.scot/publications/childrens-social-work-statistics-2016-17/>.


- Llywodraeth yr Alban. (2018b) *Children's Social Work Statistics, 2016-17*: Publication Tables. Cyrchwyd o: <https://www.gov.scot/publications/childrens-social-work-statistics-2016-17/>.
- Heddlu De Cymru. (dim dyddiad) Cyrchwyd o: <https://www.south-wales.police.uk/cy/cyngor/troseddoldeb-llinellau-sirol-delio-mewn-cyffuriau-cham-fanteisio-ar-bobl-syn-agored-niwed/>.
- Stats Cymru. (2018a) *Plant mewn angen yn ôl awdurdod lleol a ffynhonnell yr atgyfeiriad diweddaraf* Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-in-Need/childreninneed-by-localauthority-sourceofmostrecentreferral>.
- Stats Cymru. (2018b) *Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a statws cyfreithiol*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-legalstatus>.
- Stats Cymru. (2018c) *Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-placementtype>.
- Stats Cymru. (2018d) *Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age>.
- Stats Cymru. (2018e) *Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn a mesur* Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafter-childrenlookedafterat31march-by-localauthority-numberofplacementsduringyear-measure>.
- Stats Cymru. (2018f) *Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn* Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31marchper10000population-localauthority-year>.
- Stats Cymru. (2018g) *Plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad* Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrens-services-childrenlookedafter-childrenlookedafterinfosterplacementsat31march-by-localauthority-placementtype>.
- Stats Cymru. (2018h) *Dadansoddiad goddrychol o wariant referniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl awdurdod (£ mil)* Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Social-Services/socialservicesrevenueexpendituresubjectiveanalysis-by-authority>.
- Stats Cymru. (2018i) *MALIC 2014 - Data Dangosyddion yn ôl Awdurdod Lleol (2017)*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-Indicator-Analysis/indicatordata-by-localauthorities>.
- Stats Cymru. (2019a) *Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a lleoliad eu gofal* Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-locationofplacement>.
- Stats Cymru. (2019b) *Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl statws ceiswyr lloches, rhyw a statws derbyn gofal*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-asylumseekerstatus-gender-lookedafterstatus>.

- Stats Cymru. (2019c) *Plant sy'n derbyn gofal yn ôl awdurdod lleol a chategori angen*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-categoryofneed>.
- Stats Cymru. (2019d) *Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol a statws derbyn gofal*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-lookedafterstatus>.
- Stats Cymru. (2019e) *Anableddau plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl mesur a blwyddyn*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/disabilitiesofchildrenreceivingcareandsupport-by-measure-year>.
- Stats Cymru. (2019f) *Iechyd plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl mesur a blwyddyn*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/healthofchildrenreceivingcareandsupport-by-measure-year>.
- Stats Cymru. (2019g) *Ffactorau'n ymwneud â rhieni plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl mesur a blwyddyn*. Cyrchwyd o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/parentalfactorsofchildrenreceivingcareandsupport-by-measure-year>.
- Stevenson L. (2017) *Do looked-after children statistics suggest a new direction in permanence and care practice?* Cyrchwyd o: <https://www.communitycare.co.uk/2017/10/04/looked-children-statistics-suggest-new-direction-permanence-care-practice/>.
- Thomas C. (2018) *Care Crisis Review: Factors contributing to national increases in numbers of looked after children and applications for care orders*. Llundain: Grŵp Hawliau'r Teulu.
- Llywodraeth Cymru. (2015) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Côd Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion)* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2018a) *Hwb o £2.4m i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau*. Cyrchwyd o: <https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2018/substance-boost/?lang=cy>.
- Llywodraeth Cymru. (2018b) *Y Gweinidog Plant yn cyhoeddi £15 miliwn ar gyfer ehangu gwasanaethau er mwyn cefnogi teuluoedd a helpu i leihau'r angen i blant dderbyn gofal*. Cyrchwyd o: <https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2018/support-families/?lang=cy>.
- Llywodraeth Cymru. (2018c) *Ystadegau arbrofol: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, 2017-18*. Cyrchwyd o: <https://gov.wales/statistics-and-research/children-looked-after-local-authorities/?lang=cy>.
- Llywodraeth Cymru. (2018d) *Ystadegau arbrofol: Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yng Nghymru, 2017-18*. Cyrchwyd o: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/181030-children-receiving-care-support-2017-18-cy.pdf>.
- Winokur M, Holtan A a Batchelder KE. (2014) *Kinship care for the safety, permanency, and well-being of children removed from the home for maltreatment*. Cochrane Database of Systematic Reviews.
- CLILC ac ADSS Cymru. (2018) *Position Statement on Children's Services*. Cyrchwyd o: <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1840>.

Atodiad 1

Data PLATO

Ffigur A1: Siart llif yn dangos grwpio categorïau ceisiadau a gorchmynion



Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018)

Er hwylustod, mae'r rhain wedi eu grwpio ymhellach i grwpiau sy'n gorgyffwrdd yn yr adroddiad hwn:

Tabl A1: Grwpiau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ar gyfer ceisiadau a gorchmynion

Disgrifiad	Grŵp
Gorchymyn gofal	
Gofal a goruchwyliaeth	Gofal
Gofal a gwarchodaeth arbennig	
Gorchymyn goruchwyllo	
Gofal a goruchwyliaeth	Goruchwyliaeth
Goruchwyliaeth a gwarchodaeth arbennig	
Gwarchodaeth arbennig	
Gofal a gwarchodaeth arbennig	Gwarchodaeth arbennig
Goruchwyliaeth a gwarchodaeth arbennig	
Diddymu gofal	Diddymu gofal
Arall	Arall

Atodiad 2

Atchweliad Llinellol

Mae atchweliad llinellol yn fath o ddadansoddiad rhagfynegol syml a chyffredin sy'n defnyddio perthynas linellol i ragfynegi gwerth rhifol (cyfartalog) Y [megis cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn ôl awdurdod lleol] ar gyfer gwerth penodol o X [newidyn esboniadol megis cyfran y plant sy'n derbyn gofal ar ôl cael profiad o ffactor benodol gan y rhiant] gan ddefnyddio llinell syth.

Mae ffurf symlaf yr hafaliad atchweliad gydag un dibynnydd ac un newidyn annibynnol yn cael ei nodi gan y fformiwla $Y = Rhyng-gipiad + Llethr * X$. Felly, gellir amcangyfrif cyfradd Y o $lethr$ y llinell atchweliad a'r pwynt ble mae'r llinell atchweliad yn croesi'r echelin- y (y *rhyng-gipiad*) ar gyfer gwerth penodol o X . Mae Tabl A.2 yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r modelau atchweliad llinellol yn seiliedig ar wahanol ffactorau rhieni.

Tabl A2: Modelu'r Berthynas Rhwng Presenoldeb Ffactorau Rhieni a Chyfradd y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Awdurdod Lleol, 31 Mawrth 2018

Ffactor Rhieni	Rhyng-gipiad ar yr echelin- y	Cyfernod (Llethr)	Gwerth-P	R-sgwâr
Rhiant â salwch meddwl	51.46	1.26	0.017	0.25
Yn dioddef cam-drin domestig	66.68	1.07	0.030	0.21
Rhiant yn camddefnyddio sylweddau neu alcohol	60.24	1.01	0.109	0.12
Rhiant ag anawsterau dysgu	110.75	-1.08	0.503	0.02
Rhiant â salwch corfforol	95.60	0.30	0.825	0.00
Sgôr Triawd Sbarduno	49.80	0.47	0.019	0.24

Ffynhonnell: Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth lle mae statws y plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi cael ei ddefnyddio i benderfynu'r gyfradd am bob 10,000 Stats Cymru (2019d) ynghyd ag amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2017 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a). Ffactorau rhieni wedi'u cymryd o Stats Cymru (2019g)

Mae cyfeiriad y llethr yn rhoi syniad o natur y berthynas. Er enghraifft, mae'r cyfernod negyddol ar gyfer rhiant ag anawsterau dysgu yn awgrymu y bydd disgwyl i'r gyfradd leihau o 1.08 am bob pwynt canran ychwanegol yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal. I'r gwrthwyneb, mae'r cyfernod positif ar gyfer y ffactorau rhieni eraill yn awgrymu y bydd disgwyl i'r gyfradd gynyddu yn ôl gwerth y cyfernod am bob pwynt canran ychwanegol yng nghyfran y plant sy'n byw gyda ffactor rhiant penodol.

Mewn achosion o riant â salwch meddwl a cham-drin domestig, gallwn fod yn weddol sicr o'r gyfradd gan fod y gwerthoedd-p yn llai na 0.05. Fodd bynnag, ar gyfer y mesurau rhieni eraill, mae'r gwerth-p yn fwy na 0.05 sy'n awgrymu nad yw'r newidyddion rhagfynegi yn arwyddocaol yn ystadegol.


Mae modelau atchweliad llinellol wedi cael eu defnyddio i gyfrifo'r gyfradd ddisgwyliedig o blant sy'n derbyn gofal mewn awdurdod lleol penodol ble mae cyfran y plant sydd â ffactorau rhieni penodol yn glir. Er enghraifft, pe bai gan 50% o blant sy'n derbyn gofal o leiaf un rhiant â salwch meddwl, byddai'r gyfradd ddisgwyliedig o blant sy'n derbyn gofal yn:

$$\text{Rhyng-gipiad ar echelin-y} + (\text{Llethr} * \text{Cyfran â Ffactor Rhiant}) = \text{Cyfradd}$$

$$\text{h.y. } 51.53 + (1.26 * 50) = 114 \text{ am bob } 10,000$$

Mae modd darllen y gyfradd ddisgwyliedig o'r siart hefyd (Ffigur A2).

Ffigur A2: Y Berthynas Rhwng Cyfran y Plant sydd â Rhiant â Salwch Meddwl a Chyfradd y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Awdurdod Lleol, 31 Mawrth 2018.




Ffynhonnell: Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth lle mae statws y plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi cael ei ddefnyddio i benderfynu'r gyfradd am bob 10,000 (Stats Cymru, 2019d) ynghyd ag amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2017 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a). Ffactorau rhieni wedi'u cymryd o Stats Cymru (2019g).


Gan fod gwerth-p y cyfernod yn llai na 0.05, gallwn fod 95% yn hyderus nad oedd y ffigur hwn yn gyd-ddigwyddiad. Mae'r gwerth R^2 yn cynnig mesur o faint o amrywiad sy'n cael ei esbonio gan y rhagfynegydd hwn.

Figur A3: v Y Berthynas Rhwng y Gyfran sydd â'r Ffactor Rhiant Penodol a Chyfradd y Plant sy'n Derbyngofal yn ôl Awdurdod Lleol, 31 Mawrth 2018.

(a) Yn Dioddef Cam-drin Domestig




(b) Rhiant yn Camddefnyddio Sylweddau neu Alcohol




Ffynhonnell: Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyngofal a Chymorth lle mae statws y plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi cael ei ddefnyddio i benderfynu'r gyfradd am bob 10,000 (Stats Cymru, 2019d) ynghyd ag amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2017 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a). Ffactorau rhieni wedi'u cymryd o Stats Cymru (2019g).

(c) Rhiant ag Anawsterau Dysgu



(d) Rhiant â Salwch Corfforol



Ffynhonnell: Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth lle mae statws y plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi cael ei ddefnyddio i benderfynu'r gyfradd am bob 10,000 (Stats Cymru, 2019d) ynghyd ag amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2017 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a). Ffactorau rhieni wedi'u cymryd o Stats Cymru (2019g).

Nodiadau: Mae cyfran y plant sydd â rhiant ag anawsterau dysgu wedi'i hepgor ar gyfer Wrecsam. Mae cyfran y plant sydd â rhiant â salwch corfforol wedi'i hepgor ar gyfer Wrecsam, Conwy a Cheredigion.

Cyfrifo'r 'Sgôr Triawd Sbarduno'

Mae'r sgôr Triawd Sbarduno yn fesuriad bras sy'n seiliedig ar gyfuno cyfran y plant sy'n derbyn gofal a hefyd yn byw gyda:

- Trais a cham-drin domestig yn y cartref
- Rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau (alcohol neu gyffuriau)
- Rhieni â phroblemau iechyd meddwl

Mae hyn yn rhoi sgôr allan o 300. Er enghraifft, mae gan Gymru Sgôr Triawd Sbarduno o 102 (sef swm o 37% gyda rhiant â salwch meddwl; 29% yn dioddef cam-drin domestig a 36% gyda rhiant â phroblemau camddefnyddio sylweddau).

O'i gymharu â chyfran y plant sy'n derbyn gofal, mae'r sgôr triawd sbarduno yn cyfrif am 24% ($R^2 = 0.24$) o'r gwahaniaeth yn y cyfraddau a nodir gan y dangosydd hwn, gyda'r gwerth-p o 0.026 yn awgrymu y gallwn fod yn weddol hyderus o'r gyfradd a ragfynegir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'n ymddangos mai hwn, a'r model atchweliad yn ymwneud â rhieni â salwch meddwl, yw'r rhagfynegyddion gorau o gyfraddau awdurdodau lleol. Ond, mae'n werth nodi bod y ddau yn llai cywir wrth ragfynegi'r gyfradd yn Nhorfaen. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y gyfradd yn Nhorfaen (yn seiliedig ar y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth) yn llawer uwch nag yn yr awdurdodau Cymreig eraill.

Manylion yr Awduron

Mae **Dr Helen Hodges** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Dan Bristow yw Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hoffai'r awduron gydnabod cyfraniadau Dr Martin Elliott a'r Athro Jonathan Scourfield, CASCADE, a Shaun Kelly, Heddlu De Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Helen Hodges

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored